# Agenda - Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol: Gweinidog Cyfoeth Naturiol

09:00 - 10:30 (Tudalennau 1 - 26)

Carl Sargeant AM, Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio

Matthew Quinn, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy

Andrew Slade, Cyfarwyddwr, Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr

## 3 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

10:30 - 12:00 (Tudalennau 27 - 47)

Rebecca Evans AM, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

Andrew Slade, Cyfarwyddwr, Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr

Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol

## 4 Papurau i'w nodi

**Organebau a Addaswyd yn Enetig: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd**

(Tudalennau 48 - 51)

E&S(4)-28-15 Papur 3 (Saesneg yn unig)

**Organebau a Addaswyd yn Enetig: Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd**

(Tudalennau 52 - 55)

E&S(4)-28-15 Papur 4

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Adolygiad Blynyddol o'r Rheolau ar Fewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru**

(Tudalennau 56 - 108)

E&S(4)-28-15 Paper 5

**Bil drafft Cymru: Gohebiaeth gan y Llywydd**

(Tudalen 109)

E&S(4)-28-15 Paper 6

**Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru: Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

(Tudalennau 110 - 111)

E&S(4)-28-15 Paper 7

**Y broses o benodi cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb gan Brif Weinidog Cymru**

(Tudalen 112)

E&S(4)-28-15 Paper 8

**Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhaglen Forol: Crynodeb o Gynllun Gwaith 2015-2016**

(Tudalennau 113 - 115)

E&S(4)-28-15 Papur 9 (Saesneg yn unig)

**Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio Heb Greulondeb: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

(Tudalennau 116 - 117)

E&S(4)-28-15 Papur 10 (Saesneg yn unig)

**Ansawdd dŵr yng Nghymru: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

(Tudalennau 118 - 123)

E&S(4)-28-15 Paper 11

**Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

(Tudalennau 124 - 127)

E&S(4)-28-15 Papur 12 (Saesneg yn unig)

**Cysylltedd grid a datblygiad ynni adnewyddadwy morol ar Ynys Môn: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes**

(Tudalennau 128 - 129)

E&S(4)-28-15 Papur 13

**Adroddiad annibynnol teithio llesol - Yr Athro Stuart Cole: Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

(Tudalennau 130 - 131)

E&S(4)-28-15 Papur 14 (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

1. Mae'r papur hwn yn ymateb i neges e-bost y Pwyllgor dyddiedig 16 Medi yn nodi pynciau a gwybodaeth benodol yr hoffai eu cael ymlaen llaw.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

2. Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth, yn fwy nag unrhyw ddarn arall, yn greiddiol i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hon. Mae'n un o nifer fach o gyfreithiau tebyg ledled y byd.

3. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni nifer o ddyletswyddau sy'n cynnwys cyhoeddi canllawiau, cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol a phenodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru.

4. Yn ogystal, bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu ei phrosesau a'i gweithdrefnau ei hun er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf yn ogystal â dangos esiampl i gyrff cyhoeddus yng Nghymru; bydd hyn yn cynnwys y Siarter Datblygu Cynaliadwy.

5. Mae cyhoeddi canllawiau yn ymwneud â chyrff cyhoeddus eraill, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynghorau cymuned y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol. Cyhoeddwyd pecyn o ganllawiau statudol ac anstatudol i ymgynghori arno ar 7 Medi. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 16 Tachwedd. Rwyf wedi sefydlu Grŵp Cynghori Technegol i oruchwylio'r gwaith ar y canllawiau, wedi'i gadeirio gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy sy'n ymadael. Drafftiwyd y canllawiau er mwyn osgoi bod yn rhy benodedig ac er mwyn annog cyrff cyhoeddus i ddehongli'r Ddeddf yn fwy gweithredol eu hunain o fewn eu hamgylchiadau unigryw. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau terfynol ddechrau blwyddyn nesaf cyn i'r dyletswyddau ddod i rym ym mis Ebrill 2016.

6. Fel rhan o'r broses o ddatblygu dangosyddion cenedlaethol, gofynnwyd am gyngor gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. Fe'u hadolygwyd o fewn Llywodraeth Cymru a bwriedir cynnal ymgynghoriad allanol yn ddiweddarach eleni.

7. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gobeithio y caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Bydd gan y Comisiynydd rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth helpu cyrff cyhoeddus i ymateb i ofynion y Ddeddf, a hefyd wrth gyflwyno adroddiadau ar gynnydd a gwneud argymhellion cysylltiedig lle y bo'r angen.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

8. Wrth gwrs, mae datblygu cynaliadwy eisoes yn un o egwyddorion canolog y system gynllunio. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio lle y bydd yn ofynnol i unrhyw gyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau cynllunio sicrhau bod penderfyniadau defnydd tir yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

9. Daw'r darpariaethau i rym ar ôl i ddarpariaethau perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddod i rym.

10. Yn ogystal, mae cyfres o is-ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau wrthi'n cael eu paratoi fel rhan o'r Ddeddf Cynllunio, a chyhoeddwyd nifer o ddogfennau ymgynghori eisoes. Cyn diwedd y flwyddyn, byddaf yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn disgrifio'r rhaglenni cyflenwi ar gyfer cyflwyno'r mesurau sy'n deillio o'r Ddeddf a gwelliannau eraill.

11. Fel mater o flaenoriaeth, byddaf yn cyflwyno system Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ddechrau flwyddyn nesaf ac yn cyflwyno gwelliannau pellach i weithdrefnau rheoli datblygiadau.

**Datganoli Caniatadau Ynni**

12. Mae dau fil yn cael eu cyflwyno yn y DU mewn perthynas â materion Ynni; Deddf Cymru a'r Bil Ynni. Bydd Deddf Cymru yn cyflwyno'r trefniadau cyffredinol ar gyfer datganoli Caniatadau Ynni; mae'r Bil Ynni a gyflwynwyd ar 9fed Gorffennaf yn cynnwys materion ynni sy'n ymwneud â Gwynt ar y Tir yng Nghymru. Mae'r Bil Ynni ger bron Pwyllgor yr Arglwyddi ar hyn o bryd, a chynhelir y sesiwn nesaf ar 14eg Hydref.

13. Mae'r Bil Ynni wedi cyflwyno'r mesurau canlynol mewn perthynas â Chaniatadau Ynni:

- Cau'r cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer gwynt ar y tir,
- Caiff prosiectau gwynt mawr ar y tir, mwy na 50 MW, eu hepgor o'r diffiniad o'r broses ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ac felly ni phenderfynir arnynt bellach gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

14. O ganlyniad i'r Bil Ynni, caiff y penderfyniad i roi caniatâd i ffermydd gwynt â chapasiti cynhyrchu o fwy na 50MW ei drosglwyddo i system cynllunio gwlad a thref. Cyhoeddwyd mai awdurdodau cynllunio lleol fydd yn gwneud penderfyniadau ar bob prosiect gwynt ar y tir yn y dyfodol yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, gan fod cynllunio yn swyddogaeth ddatganoledig, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fydd penderfynu sut y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.

15. Yn dilyn Deddf Cynllunio (Cymru) ac yn seiliedig ar ymatebion i ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar y diffiniad o Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, h.y. y ceisiadau hynny y dylid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, ein nod yw y bydd is-ddeddfwriaeth ar waith yn ystod y Flwyddyn Newydd. Gallai hyn olygu y caiff pob cais am fferm wynt ar y tir dros raddfa benodol, e.e. 25 MW, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Dengys tystiolaeth yng Nghymru fod awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau ar geisiadau sy'n ymwneud ag ynni.

16. Yn y dyfodol, gall Llywodraeth Cymru wneud penderfyniad fel rhan o'i chylch gwaith yn datgan y caiff pob cais ar y tir dros raddfa benodol, e.e. 25MW, ei gyfeirio at Weinidogion Cymru.

17. Mae'r ddogfen Pwerau at Ddiben yn cynnig y dylid cyflwyno'r mesurau ynni canlynol o dan Fil Cymru:

- Datganoli cyfrifoldeb dros yr holl ganiatadau datblygu cynllunio ynni ar gyfer prosiectau hyd at 350MW ar y tir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.
- Dylid datganoli cyfrifoldeb dros gyhoeddi trwyddedau morol mewn dyfroedd morol yng Nghymru.

18. Cyfyngedig fu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU hyd yn hyn, yn ystod y cam hwn ar y materion ynni a gynigir yn Neddf Cymru.

19. Gyda'i gilydd, bydd y Bil Ynni a nod datganedig Llywodraeth y DU i wahardd prosiectau gwynt ar y tir rhag cyflwyno ceisiadau mewn cylchoedd o'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth yn y dyfodol mewn gwirionedd yn cau'r sector gwynt ar y tir i brosiectau newydd yng Nghymru.

20. Mae'r ffaith bod nifer o ffermydd gwynt yng nghanolbarth Cymru wedi cael eu gwrthod yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU, yn erbyn cyngor arolygwyr, wedi atgyfnerthu'r farn na fydd gan Lywodraeth Cymru, heb reolaeth lawn dros ganiatadau ynni, lawer o ddylanwad dros yr agenda ynni yng Nghymru, yn wahanol i Ogledd Iwerddon neu'r Alban.

**Ffracio**

21. Rwyf wedi egluro safbwynt rhagofalol Llywodraeth Cymru ar ffracio yn gyson, yn fwyaf diweddar mewn ymateb i gyhoeddiadau Llywodraeth y DU am newidiadau i'r system gynllunio i gyflymu hynt prosesau i ymchwilio i nwy siâl.

22. Ein gweledigaeth yw dyfodol glân a gwyrdd gyda dulliau cynhyrchu ynni yn seiliedig ar fanteisio ar ffynonellau ynni adnewyddadwy helaeth Cymru, sy'n darparu cyfleoedd cyffrous ac uniongyrchol. Nid yw'r technolegau sy'n sail i brosesau echdynnu olew a nwy anghonfensiynol wedi'u profi eto yn naeareg cymhleth y DU, ac ar y sail honno, dylem barhau â'n fframwaith polisi rhagofalol.

23. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried p'un a ddylid cynnwys nwyeiddio glo tanddaearol o fewn cwmpas fy Nghyfarwyddyd Hysbysu i awdurdodau cynllunio lleol. Cyflwynaf adroddiad ar hyn maes o law.

24. O ran canllawiau, ceir dull gweithredu rhagofalol o fewn polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol sy'n nodi'r effeithiau amgylcheddol y mae'n rhaid ymdrin â hwy er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, cymunedau na chymdeithas ehangach.

**Rheoliadau Adeiladu**

25. Ar ôl diddymu TAN22 (Y Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar Adeiladau Cynaliadwy) yn 2014, mae agweddau cysylltiedig ar y Rheoliadau Adeiladu wrthi'n cael eu hadolygu. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar newidiadau ddechrau flwyddyn nesaf.

26. Rydym yn cynnal adolygiad o'n polisi cyllid cyfalaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i adeiladau newydd annomestig sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru gael marc

Ardderchog neu farc cyfwerth ar gyfer Methodoleg Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM).

27. Mae Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni mewn Adeiladau'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod adeiladau newydd 'Bron yn Ddi-ynni' o 2018 ar gyfer adeiladau cyhoeddus a 2020 ar gyfer pob adeilad newydd. Mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd economaidd y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru. Rhaid codi safonau mewn ffordd gosteffeithiol. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn cydbwyso'r angen i leihau'r galw am ynni gan dai newydd â'r angen i fodloni'r galw am dai newydd.

28. Llwyddodd fy newidiadau i Ran L ym mis Gorffennaf 2014, a ysgogwyd gan newidiadau a wnaed i fethodoleg BREEAM, i godi perfformiad ynni anheddau newydd 8% ar gyfartaledd o gymharu â safonau blaenorol 2010. Gwnaethom hefyd godi safonau adeiladau annomestig newydd 20% ar gyfartaledd, sef ddwywaith y cynnydd a gyflawnwyd yn Lloegr.

29. Cyflwynwyd darpariaeth ar gyfer cyflwyno'r gofynion ar gyfer chwistrellwyr yn raddol i'r rheoliadau. Cyflwynwyd y gofynion ar gyfer chwistrellwyr ar gyfer eiddo risg uchel, megis cartrefi gofal, ym mis Ebrill 2014. Mae'r gofynion ar gyfer pob annedd newydd a phob annedd wedi'i addasu yn berthnasol o fis Ionawr 2016.

30. Rwyf yn ymrwymedig i gynnal adolygiad pellach o ofynion perfformiad ynni'r Rheoliadau Adeiladu yn 2016. Bydd yn rhaid i ni ystyried p'un a oes gan gynlluniau lleihau carbon oddi ar y safle ran i'w chwarae, yn enwedig o gofio bod Llywodraeth y DU yn cael gwared ar ei tharged ar gyfer cartrefi newydd di-garbon ac yn gohirio ei hadolygiad arfaethedig.

31. Bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros seilwaith ynni i Weinidogion Cymru drwy Reoliadau Adeiladu yn sicrhau buddiannau cyfreithiol a gweinyddol drwy ddarparu rhaniad amlwg rhwng Cymru a Lloegr.

**Llifogydd ac erydu arfordirol**

32. Yn ystod oes y Llywodraeth, bydd dros £240 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Ategwyd hyn gan £47 miliwn pellach gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Bydd y buddsoddiad hwn yn lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol i fwy na 12,000 o eiddo, gan gynnwys mwy na 10,700 o gartrefi.

33. Mae ein Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol (CRMP) yn gyfle unigryw i fuddsoddi er mwyn rheoli'r perygl i'n cymunedau arfordirol o newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i'r CRMP yn ein rhaglen buddsoddi seilwaith cyfalaf ac o ran ein parodrwydd i gyfrannu 75% o gostau prosiect.

34. Rydym yn parhau â'n gwaith ar y cynllun cyflenwi arfordirol er mwyn rhoi'r 47 o argymhellion a nodwyd yn yr adolygiad i lifogydd arfordirol gaeaf 2014/15 ar waith. Hyd yn hyn, cwblhawyd 11 o'r argymhellion a disgwylir y caiff 10 arall eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref.

35. Bydd Deddf arfaethedig yr Amgylchedd yn cyflwyno'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a fydd yn gorff ymgynghori/cynghori a fydd yn rhoi cyngor i mi gan

Awdurdodau Rheoli Perygl Cymru ar bob ffynhonnell llifogydd ac erydu arfordirol. Caiff ei ffurfio ar ôl diddymu Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW).

36. Bydd y pwyllgor newydd yn symud o'i rôl bresennol yn craffu ar raglen a chyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru gan mai Bwrdd CNC sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mae manylion llawn y pwyllgor wrthi'n cael eu hystyried o hyd, ond bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff rheoli perygl llifogydd eraill, a bydd cysylltiadau â'r cyrff hynny, gan adlewyrchu ei gylch gwaith fel corff cynghori ar bob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

37. Ar hyn o bryd, disgwylir y caiff cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei gynnal ym mis Medi 2016 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft.

**Dŵr**

38. Ym mis Mai, cyhoeddais y Strategaeth Ddŵr i Gymru sy'n nodi ein blaenoriaethau polisi allweddol ar gyfer Dŵr yng Nghymru dros gyfnod o 25 mlynedd a thu hwnt. Ein nod yw sicrhau bod dull gweithredu mwy integredig a chynaliadwy ar waith gennym ar gyfer rheoli ein dŵr a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Datblygwyd y Strategaeth o fewn cyd-destun ein polisi ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a bydd yn cyfrannu at y broses o roi'r polisi hwnnw ar waith. Ategir y Strategaeth gan gynllun gweithredu lefel uchel ac mae gwaith eisoes ar y gweill ar nifer o ymrwymiadau polisi allweddol.

39. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n benodol gyda Llywodraeth y DU i anelu at sicrhau y caiff pob mater sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth ei ddatganoli ac y caiff pŵer unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd mewn perthynas ag adnoddau dŵr yng Nghymru ei ddiddymu. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dau ymgynghoriad gennym a fydd yn sicrhau systemau carthffosiaeth cynaliadwy ac yn ategu datrysiadau draenio cynaliadwy yng Nghymru.

40. Er mwyn rheoli ein hadnoddau dŵr yn well nawr ac yn y dyfodol, rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith helaeth a fydd yn ein galluogi i ddiwygio'r system trwyddedau echdynnu yng Nghymru a rheoli llawer o echdyniadau a wneir yn ddi-drwydded ar hyn o bryd.

41. Rydym hefyd wrthi'n cynnal adolygiad o'r holl Barthau Perygl Nitradau ac yn anelu at gyhoeddi ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ym mis Rhagfyr yn gofyn am farn y cyhoedd cyn gwneud penderfyniad terfynol. Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi dyfroedd arwyneb neu ddyfroedd daear â chrynodiad uchel o nitrad, neu y gallai fod ganddynt grynodiad uchel o nitrad, o ffynonellau amaethyddol. Pan gaiff corff dŵr ei nodi fel corff lle ceir perygl nitradau, caiff pob darn o dir sy'n draenio i'r dŵr hwnnw ei ddynodi'n Barth Perygl Nitradau. O fewn y parthau hyn, rhaid i ffermwyr gydymffurfio â rhaglen weithredu o fesurau sy'n cynnwys cyfyngu ar amseru a lefelau cymhwyso gwrteithiau a thail, a chadw cofnodion cywir.

**Y Môr a Physgodfeydd**

42. Mae angen ystyried y buddiannau economaidd a chymdeithasol i Gymru yng nghyd-destun rhwymedigaethau statudol Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP), Cyfarwyddeb Fframwaith y

Strategaeth Forol (MSFD), a chyflwyno system gynllunio forol i Gymru. Mae'r Polisi a'r Gyfarwyddeb yn cynnwys targedau heriol y mae'n bendant yn rhaid i ni eu cyrraedd.

43. Mae MSFD Ewropeaidd 2008/56/EC yn gofyn i Aelod-wladwriaethau roi mesurau ar waith i sicrhau Statws Amgylcheddol Da mewn dyfroedd Ewropeaidd erbyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU yn ymrwymedig i ddatblygu Strategaeth Forol i'r DU er mwyn rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith.

44. Mae Cyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol yr UE 89/2014 yn cyflwyno'r gofyniad i bob Aelod-wladwriaeth gyflwyno cynlluniau morol erbyn mis Mawrth 2021 fan bellaf. Mae'r cynllun morol i Gymru ar y trywydd cywir i'w gyflwyno a bwriedir rhannu fersiwn drafft er mwyn i bobl allu cyflwyno sylwadau arno yn ystod yr hydref.

45. Mae Cynllun gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd yn nodi targedau heriol ar gyfer datblygu'r sector dyframaeth yng Nghymru a byddaf yn nodi Strategaeth Dyframaeth a ddatblygwyd ar y cyd â'r diwydiant er mwyn sicrhau budd economaidd hirdymor i Gymru.

46. Bydd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn helpu i weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac yn sicrhau bod dyfodol trefniadau rheoli pysgodfeydd wedi'i ategu gan dystiolaeth briodol.

47. Rwyf yn ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar ardaloedd morol posibl i'w dynodi fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd ar gyfer adar ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer llamhidyddion. Rhagwelaf y caiff ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ei gynnal yn ystod yr hydref.

**Coedwigaeth**

48. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth breifat i gyflawni ei weledigaeth 50 mlynedd ar gyfer coed a choetiroedd - Coetiroedd i Gymru.

49. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn nodi ffyrdd pellach o ysgogi coetiroedd newydd yng Nghymru a threfnwyd gweithdy i'w gynnal yn ddiweddarach yn y mis i ystyried yr union bwnc hwnnw. Bydd yn cynnwys aelodau o Banel Cynghori'r Strategaeth Coetiroedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr sefydliadau â diddordeb mewn coedwigaeth yng Nghymru. Bydd hefyd yn trafod sut y gall y sector coetiroedd gyfrannu at y nodau a fynegwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

50. Y bwriad wedyn yw rhoi Cynllun Gweithredu 5 mlynedd Coetiroedd i Gymru ar waith - a gaiff ei gyhoeddi a'i weithredu yn ystod y misoedd nesaf.

51. Rwyf hefyd wedi cael ymateb cadarnhaol iawn i'n cynllun creu coetir Glastir ac rwyf yn annog y sector i roi cynigion newydd ac arloesol ar waith ar gyfer rheoli coetiroedd megis lleiniau cysgodi, mwy o goed trefol a chreu mwy o goetiroedd cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

52. At hynny, mae Defra a Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi eu bwriad i geisio datganoli swyddogaethau coedwigaeth ymhellach. Rwyf wedi eu hysbysu bod yn rhaid cynnal ein gallu i ddefnyddio gwasanaethau a rennir megis gwaith ymchwil ym maes coedwigaeth a wneir gan y Comisiwn Coedwigaeth ar hyn o bryd.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Hydref 2015**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

1. Mae'r papur hwn yn ymateb i'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei e-bost ar 16 Medi oedd yn rhestru'r pynciau a'r wybodaeth y carai eu cael ymlaen llawn.

**Fframwaith Strategol Amaethyddiaeth Cymru**

2. Bydd y fframwaith yn cynnig ffordd o weithio a fydd yn dod â llawer o'r polisïau a'r adolygiadau annibynnol gwahanol sydd wedi'u cynnal dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ynghyd.

3. Mae'r ymgynghoriad arno bellach wedi dod i ben ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi'r ymatebion iddo'n fanwl. Menter ar y cyd yw hon – gyda a chyda chefnogaeth cyrff blaenaf y diwydiant gan gynnwys yr FUW, NFU Cymru, CLA Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, y Ganolfan Datblygu Llaeth, Hybu Cig Cymru, Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru a Chymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru.

4. Hanfod ein gweledigaeth gytûn yw diwydiant amaeth modern, proffesiynol, cynaliadwy a phroffidiol. Gwaith mawr y misoedd nesaf fydd ffurfio Grŵp Partneriaeth i fynd i'r afael â'r weledigaeth honno a datblygu'r fframwaith strategol ymhellach.

**Y Polisi Amaethyddol Cyffredin**

5. Agorodd Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ym misoedd cyntaf 2015 a daeth 16,535 o geisiadau i law (72% ohonynt, cyfran uchel, ar-lein). Mae Taliadau Gwledig Cymru wrthi'n prosesu'r ceisiadau hyn.

6. Bydd taliadau BPS yng Nghymru yn raddol symud rhwng 2015 a 2019 at un gyfradd safonol. Mae hynny'n golygu y bydd pob ffermwr sy'n hawlio'r BPS yn 2019 yn cael yr un faint o daliad yr hectar. Hefyd, bydd yna Daliad Ailddosbarthu ar y 54 hectar cyntaf a hawlir gan bob ffermwr.

7. Daw dau gynllun newydd trwy'r BPS – y Taliad i Ffermwyr Ifanc a'r Taliad Gwyrddu. Bydd Ffermwr Ifanc 40 oed neu lai sy'n sefydlu busnes amaethyddol am y tro cyntaf yn cael taliad chwyddo bychan am hyd at bum mlynedd. Mae'r taliad Gwyrddu ychydig yn fwy cymhleth. Bydd ffermwyr yn cael taliad am gadw at arferion amaethyddol penodol sy'n amrywio yn ôl sut mae'r tir yn cael ei ffermio. Bydd yr effeithiau'n debygol o fod yn llai yng Nghymru nag yn rhannau eraill o Ewrop gan fod y rhan fwyaf o ffermwyr eisoes yn bodloni'r amodau Gwyrddu am eu bod yn ffermio da byw ar dir pori.

8. Mae Taliadau Gwledig Cymru wedi dweud ers 2014 y bydd y BPS, am y bydd yn rhaid cynnal mwy o archwiliadau yn 2015, yn gorfod cael ei dalu mewn dau randaliad yn y flwyddyn gyntaf. Rydym yn rhagweld y bydd y rhandaliad cyntaf i bob ffermwr yn gyfwerth â rhwng 70% ac 80% o werth bras y taliad llawn a'r bwriad yw talu'r rhandaliadau mor fuan â phosibl yng nghyfnod talu 2015 sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr 2015.

9. Ni fyddwn yn gallu talu'r tâl llawn cywir tan y caiff yr holl dir yr hawlir taliad arno yng Nghymru ei ddilysu gan mai dim ond wedi hynny y gallwn ddweud faint o arwynebedd ohono sydd yng Nghymru at ddiben defnyddio cyllideb yr UE. Caiff yr ail randaliadau eu talu o fis Ebrill 2016. Bryd hynny, bydd ffermwyr wedi cael gwybod beth fydd gwerth eu hawliau hyd at 2019.

10. Mae llawer iawn o waith archwilio cymhleth angen ei wneud, gan gynnwys gwaith mapio ac archwiliadau fferm i gadarnhau bod ffermwyr yn gymwys am y cynlluniau newydd, yn unol â'r rheolau sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r UE. Yn ôl rheoliadau'r UE, rhaid cynnal yr holl archwiliadau a'r holl waith dilysu, gan gynnwys croeswirio tir, cyn y gallwn dalu unrhyw beth.

11. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn llythyr protocol cyn-weithredu ynghylch Colofn 1 y PAC oddi wrth grŵp o ffermwyr. Rydym wedi ymateb i'r grŵp hwnnw ond gan y gallai arwain at weithredu cyfreithiol, ni fyddai'n briodol dweud mwy ar hyn o bryd.

12. O dan Golofn 2 y PAC, cafodd Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn buddsoddi arian mawr i gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau fydd yn gwneud ein hamgylchedd naturiol, y sector tir, busnesau bwyd a chymunedau yn fwy cynaliadwy a chydnerth. Mae hyn yn cynnwys gwella sgiliau, trosglwyddo gwybodaeth yn well, hybu arloesedd, cynnal coetiroedd a choedwigaeth, diogelu swyddi a threchu tlodi yn ogystal â hybu defnydd effeithiol o adnoddau.

13. Bydd cynllun rheoli tir aml-flynyddol Glastir yn para'n greiddiol i'r pecyn a hwnnw fydd y maes buddsoddi unigol mwyaf. Mae elfennau amrywiol bellach yn fyw a bydd contractau presennol Glastir, a arwyddwyd o dan CDG 2007-2013, yn para o dan RhDG 2014-2020.

14. At hynny, rwyf wedi gwahodd y datganiadau o ddiddordeb cyntaf ar gyfer Grant Cynhyrchu Cynaliadwy newydd – cronfa i helpu busnesau fferm i fod yn fwy cynaliadwy yng ngwir ystyr y gair. Mae Grant Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd newydd hefyd wedi'i greu. Y diwydiant bwyd a diod yw prif gwsmer amaethyddiaeth – ac felly mae cryfhau ei gapasiti yn hanfodol i ddyfodol ein diwydiant amaeth ac i ychwanegu at werth a chwmpas ei gynhyrchion. Mae'n sector hanfodol i Gymru o ran swyddi a thwf yr economi ac mae buddsoddi yn nhwf gwyrdd ein cadwyn gyflenwi ehangach o fudd hefyd i'r sector cynhyrchu cynradd.

15. Bydd ein gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn para'n ganolog i'n cefnogaeth i'r diwydiant. Cyswllt Ffermio, y Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig fydd prif elfennau'n hymdrechion, a byddant yn elwa o'r buddsoddiad ynddynt dros oes y Rhaglen.

16. Mae gwaith LEADER eisoes wedi dechrau ac mae'r Grwpiau Gweithredu Lleol a'u Strategaethau Datblygu Lleol wedi'u cymeradwyo.

**Prisiau i ffermwyr a'r argyfwng yn y sector godro**

17. Rwy'n ymwybodol iawn o'r anawsterau y mae ffermwyr Cymru'n eu hwynebu. Mae lefelau cynhyrchu uchel a chryfder y bunt o'i chymharu â'r Ewro yn golygu na chafwyd amodau ffafriol ers tro. Yn ei anerchiad yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd eleni, dywedodd Comisiynydd yr UE dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Phil Hogan, yn glir bod angen i ffermwyr yn holl wledydd yr UE wynebu'r dyfodol yn hyderus a chydag uchelgais. Rhaid ffermio'n fwy cynhyrchiol ac effeithlon os ydym am wynebu'r her. Rwy'n llwyr gymeradwyo ei sylwadau.

18. Mae'r gadwyn gyflenwi'n dal i fod yn hollbwysig i'r sectorau llaeth a chig coch. Rhaid inni oll weithredu mewn ffordd gyfrifol os ydym am weld y diwydiant yn mynd yn ei flaen. Nid yw hwn yn fater y gall y llywodraeth ymyrryd ar ei phen ei hun ynddo. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd. Yn yr un modd, mae angen i adwerthwyr, proseswyr a defnyddwyr feddwl beth y gallan nhw ei wneud i helpu ffermwyr Cymru.

19. Mae'r cwymp ym mhris llaeth wedi arafu ac rwy'n gobeithio nawr y gwelwn y prisiau'n codi eto, ond rydym yn agored i'r prisiau sy'n cael eu talu am gynnyrch llaeth yn y marchnadoedd byd-eang. Rhaid gweithio i fod yn fwy cystadleuol ym marchnadoedd y byd a hefyd ychwanegu at werth cynnyrch llaeth – i'w gwerthu yma a thramor. Rhaid inni barhau i edrych

hefyd ar fod yn fwy effeithlon.

20. Mae gan ein ffermwyr godro fanteision real dros ein cystadleuwyr. Rydym yn gallu tyfu porfa, y bwyd rhataf a gorau i wartheg godro ac mae ein system o ffermydd teuluol a maint ein buchesi yn golygu bod gan ddiwydiant godro Cymru gadernid a mantais. Byddwn yn eu helpu i wneud y gorau ohonynt.

21. Mae ein harolygiad o'r Sector Llaeth yng Nghymru yn argymell ein bod yn cystadlu ym marchnad y byd. Does dim rheswm yn y byd pam na all Cymru gystadlu â chynhyrchwyr llaeth gwledydd eraill.

22. Mae Bwrdd Arwain Llaeth Cymru wedi dechrau gweithio ar roi argymhellion yr Arolygiad o'r Sector Llaeth ar waith. Mae'r astudiaeth o ymarferoldeb cynyddu'r capasiti prosesu llaeth yn y de orllewin hefyd wedi dechrau; rydym wedi penodi contractwr i wneud y gwaith. Mae'n bwysig ein bod yn deall potensial y sector ac yn datblygu marchnad gynaliadwy ar gyfer y cynnydd yn ein cynhyrchiant. Rydym am i fwy o ffermwyr godro ganolbwyntio ar wneud eu busnesau'n effeithlon ac i nodi lle gallent wneud y gwelliannau mwyaf.

23. Roedd yn bleser hefyd cael cyhoeddi'n ddiweddar y bydd ffermwyr Cymru'n derbyn £3.2m trwy becyn cymorth yr UE i'r sector godro. Bydd ffermwyr godro Cymru yn cael taliad untro i'w helpu â'u problemau llif arian ac i'w digolledu am y cyfnod hir o brisiau llaeth isel. Bydd y taliadau'n seiliedig ar faint o laeth a gynhyrchwyd yn 2014-15, gyda chyfartaledd o £1,800 yn cael ei dalu i bob fferm.  Rydym yn gobeithio talu'r arian hwn yn fuan.

24. Ar fater arall, mae HCC yn parhau i hyrwyddo Cig Oen Cymru ar hyd ac ar led Cymru a Lloegr ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo am ei ymdrechion. Rwyf hefyd yn croesawu'r hyn y mae wedi'i wneud i ddatblygu strategaeth yn benodol ar gyfer y diwydiant cig coch yng Nghymru. Bydd honno'n helpu busnesau ffermio i fod yn fwy proffidiol mewn ffordd gynaliadwy.

25. Nid problem i Gymru nac i'r DU yn unig yw'r prisiau rydym yn eu cael am gig oen y dyddiau hyn.  Mae sector ffermio Ewrop gyfan yn dioddef; felly rhyngon ni, mae angen inni feddwl sut y gallwn helpu amaethyddiaeth i ddygymod ag anwadalwch y farchnad yn well. Rwy'n credu ei bod yn bryd edrych a yw'r cwota mewnforio cig oen i Gymru yn briodol o hyd. Byddwn am i'r Comisiwn Ewropeaidd edrych ar y mater hwn ar fyrder rhag i'r broblem godi eto.

26. Mae'r gadwyn gyflenwi'n hanfodol i lwyddiant y diwydiant cig coch yng Nghymru a thu hwnt. Ac er mwyn iddi fod yn llwyddiannus, rhaid i bob aelod chwarae ei ran yn gyfrifol. Mae'n dda darllen bod archfarchnadoedd y DU yn gwerthu mwy a mwy o gig coch o Gymru (a Phrydain), ond rwy yn credu y gallai mwy gael ei wneud.

**Bwyd a Diod**

27. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf, mae gan y sector ffermio a bwyd drosiant o £5.8 biliwn sy'n golygu ei fod eisoes wedi tyfu 11.5% ers 2012-13.  Mae gweithgynhyrchu bwyd ar ei ben ei hun yn ddiwydiant pwysig i Gymru, gyda throsiant o £4.3 biliwn yn 2014. Rydym hefyd wedi sicrhau buddsoddiad o £10.8 miliwn mewn busnesau newydd yn 2014/15 gan ddiogelu dros 1,365 o swyddi a chreu 450 o swyddi newydd mewn bwyd.

28. Fel y dywedais yn gynharach, mae'r Grant Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd hefyd wedi dechrau. Swyddi yn y sector bwyd fydd ffocws y cynllun hwn a bydd yn helpu i greu cynnyrch arloesol, yn annog cydweithio ar brosiectau bwyd arloesol ac yn cynnig help sy'n benodol i'r sector.  Rydym eisoes wedi derbyn dros 100 o ymholiadau gan fusnesau ers lansio'r cynllun.

29. Er mwyn helpu i fynd â'r sector yn ei flaen, rydym bellach yn aelodau llawn o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Dyma bartneriaeth rhwng y llywodraeth a diwydiant a bydd y Bwrdd yn rhoi cyfeiriad strategol i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Polisi Bwyd gyda chynrychiolwyr pob Gweinidog yn aelodau ohono i sicrhau synergedd a chysondeb rhwng polisïau ac i helpu i roi'r cynllun gweithredu ar waith.

30. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau eleni i ddathlu'r cynnyrch gorau o Gymru, gan gynnwys dathlu llwyddiant enillwyr Gwobrau'r Gwir Flas llynedd. Cafodd 174 o wobrau'r Gwir Flas eu dyfarnu i gynnyrch o Gymru eleni, gyda deg o'r rheini'n teilyngu'r wobr 3 seren. Yn y gystadleuaeth eleni, gwelwyd 25% yn fwy o ymgeiswyr o Gymru. O dan faner Bwyd a Diod Cymru, rydym newydd gynnal taith i bobl sy'n ysgrifennu am fwyd o gwmpas Cymru, lle cafodd bwyd a diod gorau Cymru (statws PFN) eu rhoi o'u blaenau.

31. Gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, rwyf hefyd wedi lansio Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd ar gyfer 2015-2020. Ei brif sylw yw sicrhau, er lles ein heconomi, bod mwy o fwyd lleol a rhanbarthol yn ymddangos yn ein siopau ac ar ein bwydlenni. Rydym yn buddsoddi dros £2.5 miliwn yn y ddwy flynedd nesaf i sicrhau bod gan Gymru bresenoldeb amlwg o hyd mewn cyfres o sioeau masnach Prydeinig a Rhyngwladol pwysig. Gwnaeth y sioeau masnach hyn yn 2014/15 esgor ar bron £6 miliwn o fusnes ychwanegol i gwmnïau o Gymru, a gwerth dros £16 miliwn o gyfleoedd ychwanegol.

32. Mae Fforwm Categori Bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi bod yn gweithio hefyd ar Strategaeth Fwyd gan ddechrau ar broses i gaffael bwyd ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru. Bydd y lotiau cyntaf yn dechrau ar 1 Chwefror 2016 ac yn dechrau gyda Brechdanau Parod, Llenwadau Brechdanau a Phrydau ar Blat wedi'u Rhewi.

33. Rydym wedi dechrau gweithio hefyd ar hyrwyddo ein Siarter Datblygu Cynaliadwy a Cymru Effeithlon ymhlith cynhyrchwyr bwyd a diod. Rydym yn parhau i hyrwyddo bwyd a diod iach mewn ysgolion ac yn dechrau gweithio ar strategaeth bwyd a maetheg ar y cyd â'r Adran Addysg.

**Ffermio Organig**

34. O safbwynt cynhyrchu organig, mae'n dda gennyf ddweud i Gyfeiriad Cyffredinol y Rheoliad Organig Ewropeaidd newydd gael ei dderbyn trwy bleidlais y mwyafrif yn y Cyngor Amaeth a Physgodfeydd yn Luxembourg ym mis Mehefin. Caiff manylion y Cyfeiriad eu datblygu a'u negodi pan gyflwynir y rheoliadau gweithredu a byddaf yn parhau i weithio gyda dirprwyaeth y DU i sicrhau nad yw ffermwyr organig Cymru'n dioddef unrhyw anfantais oherwydd y rheoliadau newydd.

35. Fel rwyf eisoes wedi'i ddweud, mae Glastir Organig wedi dechrau, gyda thros 500 o gontractau Glastir Organig yn dod yn fyw yn gynharach eleni. Daeth cyfnod ymgeisio newydd Glastir Organig i ben ar 2 Medi ac yn y cyfnod hwnnw daeth 84 o geisiadau i law. Yr hyn oedd yn galonogol oedd bod 61 o'r ceisiadau hynny gan ffermwyr oedd yn newydd i gynhyrchu organig. Mae hyn yn cyfiawnhau fy mhenderfyniad i ddechrau'r cyfnod ymgeisio cyn cymeradwyo'r Rhaglen Datblygu Gwledig am ei fod wedi sefydlogi nifer y ffermwyr organig yng Nghymru a cheir rhai arwyddion bellach bod y sector yn tyfu.

**Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth**

36. Gofynnodd y Pwyllgor imi am y diweddaraf am y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth. Yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd gan y Panel ddeg o aelodau a Chadeirydd. Bydd Undebau'r Ffermwyr ac UNITE yn cael bod yn aelodau'n awtomatig ond caiff yr aelodau annibynnol, gan gynnwys y Cadeirydd annibynnol, eu dewis trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Cefnogir gwaith y Panel gan is-bwyllgor parhaol sy'n gyfrifol am roi cyngor ar ddatblygu gyrfa a sgiliau. Bydd y broses penodiadau cyhoeddus yn dechrau ar 23 Hydref 2015 a disgwylir i'r Panel fod yn ei le erbyn dechrau 2016.

37. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf ar y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol. Roedd mwyafrif yr ymatebion o'i blaid. Fy mwriad yw gweld y Gorchymyn yn codi cyflogau gweithwyr Gradd 2-6 a chategorïau eraill ryw 6%, sy'n gyfwerth â 2% o godiad bob blwyddyn rhwng 2012 a 2015. Yn y gorchymyn cyflogau newydd, codir cyflogau Gradd 1 i 2c uwchlaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.  Disgwylir i'r Gorchymyn ddod i rym ym mis Rhagfyr 2015 gan bara mewn grym tan y caiff gorchymyn cyflogau newydd ei wneud ar sail argymhellion y Panel.

**Lles Anifeiliaid**

38. Cyhoeddais Gynllun Gweithredu cyntaf y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ym mis Gorffennaf 2015 gan bennu blaenoriaethau'r flwyddyn a'r prif gamau ar gyfer eu gwireddu, yn unol â chytundeb Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau strategol. Mae'r cynllun yn nodi'r meysydd polisi sydd wrthi'n cael eu datblygu ac a fydd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gydol y flwyddyn.

39. Mae'r Grŵp wedi'i gwneud yn flaenoriaeth sicrhau yr eir i'r afael â phob agwedd ar y Fframwaith mewn ffordd gytbwys. I sicrhau hynny, mae'r Grŵp wedi cadarnhau er bod cysylltiadau da o fewn y sector da byw, bod angen gwneud mwy i gryfhau'r cysylltiadau â'r sector lles. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ac mae cyfarfod adeiladol eisoes wedi'i gynnal â Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i fynd â'r maen i'r wal.

40. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailasesu'r berthynas a'r ffordd o weithio â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), gan gynnwys gwella llywodraethiant, trefniadau cyllido, eu cymorth polisi a'r Concordat Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd sydd wedi'i lofnodi gan holl Weinyddiaethau'r DU.

41. Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o weithgor sy'n gwerthuso'r gweithdrefnau rhwng Gweinyddiaethau gwahanol y DU ac â'r APHA i wella llywodraethiant, tryloywder ariannol a ffyrdd cyffredinol o weithio. Mae'n bwysig rhoi blaenoriaethau Cymru ar waith mewn ffordd gost effeithiol. Yr un pryd, mae'n hanfodol sicrhau bod blaenoriaethau er budd iechyd a lles anifeiliaid Cymru'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a bod lefel o gydnerthedd ar draws y DU i ddelio'n effeithiol ag unrhyw achos o glefyd egsotig ar anifeiliaid yn y dyfodol.

**TB Gwartheg**

42. Ym mis Mehefin 2015, roedd bron 95% o fuchesi Cymru heb TB.  Mae'r duedd gyffredinol o ran achosion newydd a nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu difa i reoli TB yn fras yn mynd am i lawr. Rhwng 2008 a 2014, gwelwyd 29% o ostyngiad yn nifer yr achosion newydd a gostyngiad o 44% yn nifer yr anifeiliaid gafodd eu difa.

43. Rydym wedi cyhoeddi dangosfwrdd TB i gyhoeddi data mewn ffordd weledol a hawdd ei deall, gan nodi'n taith at ddileu TB fesul chwarter. Mae pedwaredd flwyddyn y prosiect brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn mynd rhagddi. Hyd yma, mae pum cylch brechu wedi'u cynnal; ac mae 841 o foch daear wedi'u brechu. Cafodd 1,316 eu brechu yn 2014, 1,352 yn 2013 a 1,424 yn 2012.

44. Rwyf hefyd newydd benderfynu newid ein deddfwriaeth er mwyn inni gael gyhoeddi gwybodaeth am leoliad buchesi TB, er mwyn i bobl allu cymryd y camau priodol i amddiffyn eu hanifeiliaid a dysgu pobl am y risg o brynu anifeiliaid â haint cudd arnynt.

45. Byddwn yn parhau i gadw at ein system bresennol ar gyfer pennu iawndal TB a bydd fy swyddogion yn cyflwyno mesurau a fydd yn cosbi ffermwyr gwartheg sy'n dilyn arferion drwg. Mae ein hymgynghoriad – sy'n para tan 6 Tachwedd – yn gofyn faint o iawndal y dylem ei dalu pan welir bod arferion drwg wedi cyfrannu at ledaenu TB.

46. Mae'r rhaglen Cymorth TB i filfeddygon wrthi'n cael ei gyflwyno ledled Cymru ac yn rhoi mwy o ddewis i ffermwyr. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen hyfforddi achrededig fel rhan o Cymorth TB i filfeddygon ar y cyd â'r APHA a'r darparwr hyfforddiant Improve International. Mae'r hyfforddiant dwyieithog yn cael ei gyflwyno'n raddol yr hydref hwn ac rydym yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer cynnal 300 o unedau hyfforddi gyda'r gobaith y bydd pob milfeddygfa a'r rhan fwyaf o filfeddygon yn y wlad yn ennill cymwysterau Cymorth TB.

**EID Cymru**

47. Ar drywydd gwahanol, bydd EIDCymru yn helpu ffermwyr a rheolwyr tir Cymru i gynyddu'u helw trwy drefniadau adrodd mwy effeithlon ac i gael at fwy o ddata. Bydd EIDCymru yn cael ei ddefnyddio o fis Tachwedd mewn marchnadoedd da byw a lladd-dai i wneud yn siŵr fod y system yn gweithio'n effeithlon mewn mannau sy'n trin llawer o anifeiliaid. Bydd pob ceidwad defaid yn gorfod gweithredu'r system newydd yn llawn ym mis Ionawr 2016, hynny i gyd-fynd â'r newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth Cofnodi, Adnabod a Symud Defaid a Geifr (SAGRIMO).

48. Rydym am fynd ati i roi EIDCymru ar waith mewn ffordd strategol a rheoledig, gan ddysgu gwersi'r Animal Recording and Movement Service (ARAMs) yn Lloegr. Rhaid i'r system allu trosglwyddo rhifau tagiau clust a manylion daliadau i'r System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid, sef cronfa ddata ganolog symudiadau anifeiliaid Cymru, Lloegr a'r Alban. Rydym wedi llofnodi contract gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig a'u contractwyr TG i ddarparu'r gofynion hyn inni yn unol â'n hamserlen. Bydd EIDCymru yn cyfnewid data am symudiadau trawsffiniol â chronfa ddata symudiadau defaid Defra, ARAMs. Mae swyddogion yn cydweithio'n glos â chontractwr Defra, South Western, i wneud hyn.

**Deddf Tir Comin 2006**

49. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth arwyddocaol hefyd i amddiffyn tir comin ac i hyrwyddo ffermio cynaliadwy, mynediad i'r cyhoedd at gefn gwlad a buddiannau natur.

50. Y flaenoriaeth ar gyfer rhannau eraill y Ddeddf Tir Comin yw galluogi ceisiadau i gywiro camgymeriadau a datgofrestru tiroedd comin sydd wedi'u cofrestru trwy gamgymeriad. Rwy'n gobeithio y bydd yr elfennau hyn mewn grym erbyn haf 2016. Rydym wrthi hefyd yn datblygu system ffioedd ar gyfer ceisiadau o dan Ran 1 y Ddeddf, sefydlu Cofrestrau Tir Comin Electronig a sefydlu Cynghorau Tir Comin.

**Rebecca Evans AC**
**Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Hydref 2015**

**Vaughan Gething AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd**
**Deputy Minister for Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/VG/1900/15

Alun Ffred Jones AM
Chair
Environment and Sustainability Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

13 July 2015

Dear Alun,

Thank you for your letter of 9 June regarding the European Commission's proposals for genetically modified food and feed. This follows your discussions with my ministerial colleague Rebecca Evans AM, Deputy Minister for Farming and Food, at your Committee meeting on 20 May. This letter and enclosed Annex have also been agreed by the Deputy Minister for Farming and Food given the potential implications of the proposals for Welsh agriculture.

The Food Standards Agency (FSA) is the competent authority for genetically modified (GM) food and feed, and as a non-Ministerial Government Department advises the National Assembly for Wales and Welsh Ministers through me as Deputy Minister for Health. The Deputy Minister for Farming and Food also has an interest in this issue as Welsh Ministers are the competent authority in Wales for the purposes of the deliberate release and placing on the market of genetically modified organisms.

The FSA advise that the European Committee's proposals to reform the authorisation process for GM food and feed by amending Regulation 1829/2003 is at a very early stage and there is insufficient clarity at the present time on how any proposal would work in practice, including what impact it may have in Wales and on Welsh agriculture.

The FSA and the Welsh Government have considered the questions raised by the Committee and their responses are provided in the attached Annex.

While I understand your concerns about the impact of these proposals on Welsh agriculture, it is not possible to provide detailed responses at this stage of the process. More information should become available as these proposals develop.

Yours sincerely

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Deputy Minister for Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Vaughan.Gething@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**ANNEX A**

**Environment and Sustainability Committee Questions on the Issue of GM Food and Feed (*Allowing Member States to Restrict/Ban the Use of GM Food and Feed Products in their Own Territory*)**

**Responses from the Food Standards Agency and the Welsh Government on the Questions Raised**

**QUESTION 1: Is the Welsh Government content that it would have sufficient power under the new proposals to introduce a ban in relation to the use of GM food and feed in Wales even if the UK Government did not support a ban?**

In terms of the Welsh Ministers' existing powers, European Communities (Designation) (No2) Order 2005 designates Welsh Minister for the purposes of section 2 (2) of the European Communities Act 1972 in relation to food and feed. However, any assessment as to whether the power conferred by this designation order would enable Welsh Ministers to ban the use of GM food and feed will require detailed consideration as the proposals become available. The proposals are at an early stage, and it is therefore premature to consider whether Welsh Ministers' powers are sufficient.

**QUESTION 2: Is the Welsh Government considering introducing such a ban if permitted under the new proposals?**

The EU authorisation of GMOs permitted in food is based on assuring the food can be consumed safely. This is undertaken by the European Food Safety Authority (EFSA). The FSA has confidence in the work of EFSA in carrying out the centralised risk assessment of GMOs. Each GMO is unique therefore safety is determined on a case-by-case basis. To date all the evidence suggests that food and feed derived from GMOs is as safe as that from non-GM sources.

As mentioned above, the proposals are at an early stage and more detailed consideration of the implications of the proposals is needed. The Welsh Government maintains a precautionary approach to GM crop cultivation that is consistent with UK and EU law. This approach aims to protect a sustainable agriculture industry in Wales. Food and drink manufacturing is the cornerstone of our rural economy and it is vital that we protect this sector and preserve consumer confidence in our quality and safe produce and products. This means taking a precautionary approach to the potential impacts of new technologies like GM on our environment and the associated economic impact. The Welsh Government contends socio-economic issues to be important factors in the consideration of GM crop approvals, and believes research on GM and other advanced plant breeding techniques offers potential to deliver environmental, social and economic benefits in future. This position should underpin our approach to the proposal relating to GM food and feed. We should therefore consider use of GM food and feed on a case by case basis, on the basis of the science available, and consider any impacts on health and the environment, as well as socio-economic factors.

**<u>QUESTION 3</u>: What consideration has the Welsh Government given to the implications of a national ban of GM food and feed on Welsh agriculture?**

Factors to consider include: impact on farming and food industry in Wales; impact on the single market; international trade with for example US; cross border trading limited with potentially varying approaches within the UK; impact on supply chain; better regulation – no impact assessment for the proposal; GM regulation to be science based.

The re-nationalisation of the decision–making for GM food and feed brings potential implications for government and industry. Concerns include single market compatibility and WTO compliance. The EU livestock industry, including in the UK and Wales, relies heavily on animal feed protein sources from outside the EU; including countries in North and South America, where a large proportion of the crops grown, such as maize and soya, are GM. Figures from industry sources indicate that, in 2013, at least 85% of the EU's compound feed production was labelled to indicate that it contained GM, or GM-derived, material. The UK, and Welsh, livestock sector relies heavily on imported GM animal feed. Industry estimates the price difference between GM and non-GM feed / cost differential between GM and non-GM feed to be around 30% and this might increase with introduction of restrictions or a ban.

The Welsh Government acknowledges that, to date, no proposed grounds to restrict the use of GM food and feed have been suggested by the European Commission. Any proposed restriction would rely on measures that are in conformity with European Union (EU) law, reasoned, proportional and non-discriminatory, and in addition based on compelling grounds.

This means taking a precautionary approach to the potential impacts of new technologies like GM. We will consider the use of GM food and feed and any resulting implications on a case by case basis, on the basis of the science available, the impact on health and the environment, as well as socio-economic factors.

The FSA report the use of GMs in food is currently limited in Wales and the implications on Welsh agriculture are, therefore, likely to be minimal. The implications of a ban on GM feed, however, will have a significant impact on Welsh agriculture.

Wales is not self –sufficient in terms of animal protein feed and like the rest of the UK and the EU itself we are dependent on animal feed imports from third countries. The UK currently imports upwards of 3 million tonnes of animal feed per year, primarily soya. This constitutes 70% of the total UK requirement for animal protein feed. Any measures enacted under this proposal could adversely affect the supply and cost of animal feed imported into the UK.

Non-GM animal feed carries a price premium, which may increase with introduction of restrictions or a ban. The EC proposals might result in adverse impact on the supply and cost of animal feed imported into the UK, and result in an uncompetitive industry in Wales.

**<u>QUESTION 4</u>: Has the Welsh Government undertaken any assessment of the percentage of Welsh farmers currently using GM food and feed?**

As advised by the FSA, although use of GMs in food is limited in Europe, use of GMs in animal feed is significant, for example the EU is a major user of imported GM soya for animal feed. The UK currently imports approx. 3 million tonnes of animal feed per year, primarily soya, which constitutes 70% of its animal protein feed requirement.

**<u>QUESTION 5</u>: Will support be made available to parts of the industry affected by any bans?**

Please refer to the answer provided at Question one – the FSA report the EC proposals are at a very early stage, and there is insufficient clarity at the present time on how any proposal would work in practice, including what impact it is likely to have in Wales and on Welsh agriculture. It is therefore premature to confirm whether Welsh Ministers' powers are sufficient to introduce a ban in relation to the use of GM food and feed in Wales.

Vaughan Gething AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Deputy Minister for Health

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/VG/0807/15

David Melding AM
Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

23 September 2015

Dear David,

Thank you for your letter of 8th July to Carl Sargeant AM, Minister for Natural Resources, regarding the European Commission's proposals for genetically modified food and feed. I am responding as this matter falls within my portfolio.

The Food Standards Agency (FSA) is the competent authority for genetically modified (GM) food and feed, and as a non-Ministerial Government Department advises the National Assembly for Wales and the Welsh Ministers through me as Deputy Minister for Health. The Deputy Minister for Farming and Food also has an interest in this issue as the Welsh Ministers are the competent authority in Wales for the purposes of the deliberate release of genetically modified organisms into the environment.

You asked specifically about the ability of devolved administrations to take their own decisions in relation to this proposed legislation. The FSA advises that the European Commission's proposals to reform the authorisation process for GM food and feed by amending Regulation 1829/2003 is at an early stage and there is insufficient certainty at the present time as to how the proposals would work in practice.

The Welsh Ministers have existing powers in relation to food and animal feed in the context of the European Union. The European Communities (Designation) (No2) Order 2005 designates the Welsh Minister for the purposes of section 2 (2) of the European Communities Act 1972 in relation to food and feed. The Welsh Ministers also have powers in relation to "*measures relating to the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and trans-boundary movements of genetically modified organisms*" under the European Communities (Designation) (No.4) Order 2003 No.2901.

Any assessment as to whether the power conferred by these designation orders would be sufficient to allow the Welsh Ministers to "take their own decisions" will involve a detailed consideration of the finalised EU regulation.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Vaughan.Gething@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

You also asked about the discussions the Welsh Government have had with the UK Government. The FSA as the competent authority is in regular dialogue with both UK Government and the European Commission regarding this proposal. The Right Honourable Elizabeth Truss, Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, wrote to me recently seeking my views on the proposal prior to the EU Agriculture and Fisheries Council meeting in July.

The Welsh Government supports the UK Government's position which is not to support the proposal to amend Regulation 1829/2003 because the analysis has identified a number of significant concerns:

- it undermines the principle of the EU single market, which we support. It could impact on existing trade flows in GM products into and within the EU;
- national bans for non-safety reasons undermine the principles of science-based regulation, and of allowing fair market access for safe products;
- to date we have not been able to identify the non-safety grounds which might be WTO compliant or defensible under EU law;
- the UK livestock sector is heavily dependent on imported GM feed, using upwards of 3 million tonnes per year (70% of total UK animal protein feed). If a number of Member States banned the use of GM food and feed, the EU market could become far less attractive to the main exporting countries (Brazil, Argentina and the USA) and the effect on UK supplies and costs is unknown;
- the negative impact on wider international trade; and
- it has already had a detrimental impact on negotiations for the EU US Transatlantic Trade Investment Partnership.

I note the concerns of the other Assemblies outlined in your letter. Our concerns regarding the proposal, set out above, suggest a degree of similarity, particularly regarding the proposal's compliance with EU-law and the principle of the single market.

I am copying this letter to the Chair of the Environment and Sustainability Committee.
Yours sincerely

**Vaughan Gething AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Deputy Minister for Health

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2015

Annwyl Carl

**Cynnig am Reoliad Ewropeaidd ar Organebau a Addaswyd yn Enetig**

Yn ein cyfarfod ar 22 Mehefin 2015, gwnaethom ystyried cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Rheoliad newydd ynghylch defnyddio bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

Nodwyd nad oes unrhyw awgrym ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y Rheoliad arfaethedig. Gan fod materion sy'n gysylltiedig ag amaeth wedi'u datganoli, a allwch gadarnhau mai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn penderfynu ar y mater hwn? Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech ddarparu manylion am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o seneddau a chynulliadau rhanbarthol wedi mynegi pryderon am y cynigion, gan gynnwys seneddau Thüringen (yr Almaen), Rwmania ac Iwerddon. Dyma grynodeb o bryderon Senedd Talaith Thüringen:

> "Bearing in mind the very strict legal requirements set out by the Commission in its proposal, it is highly questionable whether it is actually possible for a Member State to adopt opt-out measures in compliance with EU-law, especially with regards to the international obligations of the Union. Questionable is also to what extent the involvement of all 28 EU states in the mandatory notification and control procedure contributes to fulfil the intended objectives."

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddai gennym ddiddordeb clywed i ba raddau, os o gwbl, yr ydych chi'n cytuno â'r pryderon hyn.

Yn gywir



David Melding AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 4.3

**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/RE/2257/15

Alun Ffred Jones AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd
a Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd

16 Medi 2015

Annwyl Alun Ffred,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod yr Adolygiad Blynyddol o'r Rheolaethau ar Fewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid: 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2014 wedi'i gyhoeddi a'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno yn unol ag Adran 10a o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae'r adolygiad o'r rheolaethau ar fewnforio cynhyrchion anifeiliaid i Brydain yn rhoi manylion ynghylch y camau y mae'r Llywodraeth ac eraill yn eu cymryd i amddiffyn y DU rhag mewnforio clefydau anifeiliaid. Ehangwyd cwmpas yr adroddiad i gynnwys mewnforio anifeiliaid byw o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a elwir yn drydydd gwledydd. Bydd yr adroddiad hwn a rhifynnau yn y dyfodol yn ceisio darparu asesiad cliriach o effeithiolrwydd rheolau mewnforio.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Adolygiad ar gael ar-lein.

Yn gywir,
Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

# Disgrifiad o system reolaeth y DU ar fewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a gwerthuso perfformiad hynny

Ebrill 2012 – Mawrth 2014

Medi 2015

www.defra.gov.uk

Department of Agriculture and Rural Development
www.dardni.gov.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Scottish Government

Department for Environment Food & Rural Affairs

# Disgrifiad o system y DU o reolaeth ar fewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a gwerthuso perfformiad hynny (Ebrill 2012 – Mawrth 2014)

**Cyflwynwyd i'r Senedd mewn perthynas ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002)**

**Medi 2015**

© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddalwyr yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn ITAP@defra.gsi.gov.uk

ISBN Print 9781474124195
ISBN y We 9781474124201

ID SGD007295 09/15

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr
Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 1

**Pennod 1 –** Cyflwyniad a chwmpas yr adroddiad 3

**Pennod 2 –** Rolau a chyfrifoldebau awdurdodau cymwys a gorfodi canolig y DU 4

**Pennod 3 –** Asesu risg 7

**Pennod 4 –** ATAL: Rheolaeth gyn-ffiniol y DU 10

**Pennod 5 –** DIOGELU ac YMATEB: Rheoli ffiniau'r DU 16

**Pennod 6 –** SICRWYDD: Rheolaeth ôl-ffiniol y DU 24

**Pennod 7 –** Lleihau'r risg 26

**Atodiad A –** Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd 31

**Atodiad B –** Safleoedd Archwilio Ffiniau'r DU (BIPs) 33

**Atodiad C –** Monitro Afiechydon Rhyngwladol – Asesu Achosion Cychwynnol ar gyfer FMD yn Rwsia 35

**Atodiad D –** Ystadegau ar fewnforio cynnyrch anghyfreithlon 37

**Atodiad E –** Geirfa o dalfyriadau ac acronymau cyffredin 42

# Crynodeb Gweithredol

Pleser yw cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol, sef yr unfed ar ddeg a gyhoeddwyd gennym i ddisgrifio'r camau a gymerir gan y Llywodraeth ac eraill i atal afiechydon anifeiliaid rhag cyrraedd y DU. Mae'r cyd-destun ar gyfer rheoli mewnforion yn gymhleth ac mae angen ei addasu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau byd-eang mewn risgiau afiechydon a phatrwm ehangol masnach ryngwladol.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae'r system o reoliadau mewnforio a mesurau diogelu eraill, yn gweithio; mae'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer y rheoliadau ac yn adnabod yr asiantaethau allweddol ledled llywodraethau canolig a lleol sydd ynghlwm â'r gwaith hwn. Ein bwriad yw peidio ag ailadrodd y wybodaeth hon mewn adroddiadau eraill yn y dyfodol gan ganolbwyntio'n hytrach ar ddeilliannau penodol.

## Llwyddiannau

- **Nod y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth i werthuso rheoli mewnforion i'r DU**

  Daeth archwilwyr o Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r casgliad fod gan y DU system reoli effeithiol ar fewnforion a nwyddau teithiol yn unol â gofynion deddfwriaeth yr UE. Mae eu canfyddiadau'n ategu'r rhai a gwblhawyd mewn gwaith archwilio o'n Safleoedd Archwilio Ffiniau (BIPs)[1] gan Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (sef Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion erbyn hyn).

  Sicrheir effeithiolrwydd y mesurau rheoli a digonolrwydd cyfleusterau'r BIP gan:

  – gydweithio agos rhwng y gwahanol awdurdodau cymwys

  – rhaglen hyfforddi benodol sy'n gysylltiedig â'r adolygiad parhaus o weithdrefnau a chyfarwyddiadau

  – y system ddilysu sydd mewn grym a system archwilio esblygol sy'n ystyried effeithiolrwydd y mesurau rheoli.

- **Asesu Risg – deall y risg**

  Parhaodd Defra i fonitro sefyllfa afiechydon rhyngwladol a chynhyrchu 53 o Asesiadau Afiechydon Cychwynnol ar ystod o achosion cychwynnol byd-eang. Cyflwynodd Defra fanylion yr achosion cychwynnol newydd i'r BIPs a Llu'r Ffiniau i sicrhau bod holl fesurau rheoli rheoliadol a gwrth-smyglo wrth y ffiniau'n medru ymateb i risgiau newydd neu newidiol o ran iechyd anifeiliaid ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y llwybrau a'r nwyddau sy'n cynnig y risgiau mwyaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaeth achos o'n hymateb i achos cychwynnol o afiechyd, sef *Ffliw Adar Pathogenedd Uchel* yn Israel.

- **Bioddiogelwch (Lloegr)**

  Cynhaliwyd cyfarfodydd Bioddiogelwch Gweinidogol Misol i sicrhau cynnydd amserol wrth ymateb i risgiau bioddiogelwch posib a chynnig trosolwg a chyfarwyddyd strategol. Mae dull newydd o asesu risgiau wedi sicrhau y gellir asesu risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effaith.

- **'Strategaeth Orfodi' Defra a Llu'r Ffiniau[2]**

  Mae Defra a Llu'r Ffiniau wedi cynhyrchu 'Strategaeth Orfodi' newydd sy'n diffinio amcanion ar y cyd er mwyn lleihau'r risgiau a achosir wrth fewnforio cynnyrch anifeiliaid

[1] Safleoedd mynediad a gymeradwyd yn y DU ar gyfer anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid. Rhoddir rhestr o holl BIPs y DU yn Atodiad B
[2] Cwblhawyd ym mis Hydref 2014

yn anghyfreithlon, i'r lefel isaf bosib. Amcan y strategaeth yw gwella'r gallu'n barhaus i gynnal dadansoddiad effeithiol ac i ddatblygu gwell dull o adrodd cudd-wybodaeth gan arwain at ymyriadau mwy effeithiol ac yn seiliedig ar risg wrth ddarganfod mewnforion anghyfreithlon.

- **Adolygiad Strategol o Gyfathrebu**

  Cwblhawyd yr adolygiad yn 2014 yn dilyn cyfnod o ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol a diben y cyfnod cyntaf oedd atgyfnerthu a chanoli cyfarwyddyd ynglŷn â'r we wrth iddo gael ei symud i Gov.uk.

## Effeithiolrwydd cyffredinol mesurau rheoli mewnforion

- **Gwerthiant masnachol**

  Cwblhawyd gwiriadau ymarferol ar bob llwyth o anifeiliaid byw a chanran neilltuol o gynnyrch. Mae'r lefel o waith gorfodi a gwblhawyd yn y BIPs wedi aros yn gyson o isel o safbwynt mewnforio cynnyrch anifeiliaid. Roedd y nifer o becynnau o gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn 2013/14 ychydig yn uwch yn unig na 2012/13 (i fyny 0.9%). O ran anifeiliaid byw, cafwyd gostyngiad yn y nifer o fewnforion yn 2013/14 o 31% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

  Ar gyfer mewnforion y trydedd wlad o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid parhaodd lefel uchel o gydymffurfiaeth â'n rheolau mewnforio. Yn ystod 2012/13 1.3% yn unig o'r holl becynnau o gynnyrch anifeiliaid a wrthodwyd a 1.4% yn ystod 2013/14. Yn 2012/13 gwrthodwyd 0.9% o anifeiliaid byw a 1% yn 2013/14.

  Os bu i gynnyrch anifeiliaid gynnig risg gyhoeddus neu i iechyd anifeiliaid, parhaodd y weithred o ddinistrio'r llwyth fel y weithred orfodi fwyaf cyffredin. Gydag anifeiliaid byw, allforiwyd y rhan fwyaf o becynnau yn eu holau.

- **Mewnforion personol**

  Llwyddodd perthynas weithio agos gyda Llu'r Ffiniau i sicrhau ymyriadau effeithiol ac yn seiliedig ar risg. Rhwng 2011/12 a 2012/13 mewn meysydd awyr a phorthladdoedd cynyddodd y nifer o atafaeliadau o gynnyrch a fewnforiwyd yn anghyfreithlon 8%; a rhwng 2012/13 a 2013/14, 23%.

  Roedd y rhan fwyaf o'r mewnforion anghyfreithlon a ganfuwyd gan Lu'r Ffiniau yn fach iawn ac fel arfer yn roddion gan deithwyr yn ymweld â theulu neu atafaeliadau gan dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r DU am y tro cyntaf. Nwyddau a gludwyd yn anfwriadol oedd y rhan helaeth gan deithwyr nad oedd yn ymwybodol o waharddiadau cyfredol yr UE, er gwaethaf ymgyrchoedd hysbysebu.

# Pennod 1 – Cyflwyniad a chwmpas yr Adroddiad

1.1 Dyma'r unfed adolygiad ar ddeg o fesurau rheoli mewnforion y Deyrnas Unedig (DU) yn unol ag adran 10A[3] o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002). Mae'r adolygiad mwyaf diweddar (yn cwmpasu Ebrill 2011 – Mawrth 2012 ar gael yn: gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/211243/pb13879-animal-import-controls-201307.pdf.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn arbennig â dwy flynedd ariannol Ebrill 2012 – Mawrth 2014. Mae hyn yn dilyn adolygiad o strwythur a chynnwys adroddiadau diweddar gyda'r nod o ddarparu golwg fwy cynhwysfawr o'r camau a gymerir gan y Llywodraeth ac eraill i ddiogelu'r DU rhag mewnforio afiechydon anifeiliaid. Rydym wedi ymestyn hyd a lled yr adroddiad i gynnwys mewnforion o anifeiliaid byw o wledydd o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) a elwir yn drydydd gwledydd. Bydd yr adroddiad hwn ac unrhyw argraffiad i'r dyfodol yn anelu hefyd at gynnig asesiad mwy clir o effeithiolrwydd ein rheolau mewnforio.

1.3 Ein bwriad yw defnyddio'r adroddiad estynedig hwn fel dogfen gyfeiriol, sy'n amlinellu'r sail gyfreithiol ar gyfer rheoli mewnforion ynghyd â rolau a chyfrifoldebau'r prif sefydliadau llywodraethol sydd ynghlwm. Dylai adroddiadau yn y dyfodol a gyflwynir i'r Senedd dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid fod yn fyrrach ond yn canolbwyntio ar ddeilliannau neilltuol a pholisi a datblygiadau ymarferol.

1.4 Paratowyd yr adolygiad hwn gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) gyda chyfraniadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), Adrannau Amaeth/Materion Gwledig y Llywodraethau Datganoledig, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA)[4] a Llu'r Ffiniau.

1.5 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion:

- yr awdurdodau cymwys sydd ynghlwm â mesurau rheoli mewnforion (Pennod 2)
- sut mae'r awdurdodau cymwys hynny a chyrff eraill yn cydweithio i sicrhau bod gwybodaeth ac adborth yn cael ei gyfnewid o'r holl ganlyniadau perthnasol a'r mesurau rheoli mewnforion swyddogol (Penodau 3 a 7)
- sut mae'r DU yn monitro ac yn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith yr UE a chyfraith genedlaethol (Pennod 4)
- sut mae'r DU yn gorfodi'r mesurau rheoli hyn i atal neu leihau'r risg o afiechydon gael eu mewnforio i'r DU (Penodau 5 a 6)
- gweithrediadau a wnaed i wella perfformiad gweithgarwch rheoli (Pennod 7)
- perfformiad y system rheoli mewnforio drwy asesiad cyffredinol (Crynodeb Gweithredol).

1.6 Tra y cymerwyd gofal i sicrhau bod y dolenni i'r we sydd yn yr adroddiad hwn yn gywir wrth i ni gyhoeddi, gall rhai newidiadau ddigwydd.

1.7 Am ragor o wybodaeth ar adroddiadau adolygiad blynyddol mewnforio, cysylltwch â
Paul Dray
Tîm Mewnforion a Masnach yr UE, Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid, Defra
Ffôn: 020 7238 5413
E-bost: Paul.Dray@defra.gsi.gov.uk

[3] legislation.gov.uk/ukpga/1981/22/section/10A
[4] bellach yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, a lansiwyd ar 1 Hydref 2014)

# Pennod 2 – Rolau a chyfrifoldebau awdurdodau cymwys a gorfodi'r DU ar gyfer rheoli mewnforio

2.1 Mae masnach mewn anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid yn cynrychioli cyfraniad sylweddol i economi'r DU ond gallant hefyd olygu cyflwyno afiechydon anifeiliaid i'r DU a all fod yn niweidiol i iechyd dynol ac anifeiliaid. Gall afiechydon fel *Clwy'r Traed a'r Genau* (FMD) a *Ffliw Adar Pathogenaidd Iawn* (HPAI) gael eu cyflwyno i'r DU gan anifeiliaid neu gynnyrch anifeiliaid (yn enwedig rhai sy'n cynnwys llaeth neu gig). Gall afiechydon o'r fath gael effaith ddinistriol ar ein stoc o dda byw a'r amgylchedd. Gall cynnyrch anifeiliaid fod yn risg hefyd i iechyd dynol ar ffurf afiechydon, gweddillion, halogion (e.e. o bysgod, mêl a chrwyn anifeiliaid sydd heb eu trin). Gall yr effeithiau fod yn rhai economaidd hefyd: amcangyfrifir y bu i Glwy'r Traed a'r Genau 2001 gostio £3 biliwn i'r llywodraeth, amaethyddiaeth ac i'r gadwyn fwyd.

2.2 Felly, amcanion system rheoli mewnforio i'r DU yw:

- datblygu a gweithredu polisïau sy'n cynnig cydbwysedd o ran y budd o fewnforio anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid i'r DU gyda'r angen i leihau'r risg y cyflwynir afiechydon i'r wlad *drwy'r* anifeiliaid neu'r cynnyrch hynny
- i ddatblygu a gweithredu polisïau yn ymwneud â threfn wirio milfeddygol ledled yr UE sy'n sefydlu'r rheolau ar gyfer mewnforio anifeiliaid a chynnyrch anifeiliad o'r tu allan i'r UE
- i gynnal gwiriadau yn seiliedig ar risgiau ar gyfer mewnforion anghyfreithlon o gynnyrch anifeiliaid
- i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r rheolau ar gyfer mewnforion personol.

2.3 Y prif awdurdodau sydd ynghlwm â mesurau rheoli mewnforio swyddogol yw Defra, yr FSA ac Adrannau Amaeth/Materion Gwledig yn y Llywodraethau Datganoledig. Cynhelir mesurau rheoli ar safleoedd dod i mewn i'r wlad gan AHVLA (DU), Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd a Llu'r Ffiniau (DU) a DARD (Gogledd Iwerddon). Mae Awdurdodau Lleol mewndirol a HMRC hefyd ynghlwm mewn gweithgarwch clirio tollau.

2.4 Mae **Defra**[5] yn awdurdod canolig sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau afiechydon anifeiliaid sy'n gysylltiedig â mewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid. Gwna'r Adran hon y gwaith hwnnw drwy sicrhau bod rheolau mewnforio'r UE ar gyfer anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid yn cydweddu a bod mewnforwyr yn cydymffurfio â nhw, a bod ein cyrff gorfodi'n cynnal gwiriadau gofynnol deddfwriaeth yr UE ar y safleoedd dod i mewn i'r wlad. Er mai gweithio'n uniongyrchol yn Lloegr yn unig mae Defra, mae'n cydweithio'n agos â Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn gyffredinol yn arwain ar drafodaethau yn yr UE ac yn rhyngwladol. Mae'r Llywodraethau Datganoledig yn gyfrifol am baratoi deddfwriaeth a gorfodi cyfatebol o fewn eu gwledydd eu hunain.

5 gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs

2.5 **FSA**[6] yw'r awdurdod cymwys canolig ar gyfer diogelwch bwyd ac mae iddo swyddogaeth statudol i ddiogelu iechyd cyhoeddus a diddordebau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a diod. Mae'r Asiantaeth felly'n gyfrifol am bolisi iechyd cyhoeddus ar reoli mewnforio cynnyrch anifeiliaid. Mae'r FSA yn sicrhau bod bwyd a fewnforiwyd yn ddiogel i'w fwyta a chynhelir mesurau rheoli ar ffiniau'r DU ac yn y mewndir. Mae'r Asiantaeth yn darparu canllaw polisi i fewnforwyr a Swyddogion Iechyd Porthladdoedd ac mae'n gyfrifol am baratoi deddfwriaeth ar faterion iechyd cyhoeddus yn ymwneud â bwyd a gweithredu mesurau diogelwch yr UE (yn cynnwys samplo cynnyrch pysgod a fewnforir ar gyfer gweddillion milfeddygol).

2.6 Mae **Llu'r Ffiniau**[7] yn gyfrifol am ddarparu mesurau rheoli gwrth-smyglo mewn tollau ar[8] fynedfeydd i mewn i'r DU[9] ( ar wahân i fannau a ddyluniwyd fel BIPs) er mwyn atal mewnforion anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys  darganfod a chipio cynnyrch anifeiliaid anghyffreithlon mewn cludiant, mewnforion personol a phost. Mae Llu'r Ffiniau yn ystyried hysbysiadau newydd am afiechydon yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig ag achosion cychwynnol difrifol, er mwyn medru hysbysu ei gweithgareddau a gweithrediadau a dargedir, ac i asesu a oes angen lefelau uwch o wiriadau gwrth-smyglo.

2.7 Mae **AHVLA** (Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion erbyn hyn) yn asiantaeth weithredol sy'n gweithio ar ran Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Diben yr asiantaeth yw cefnogi diwydiant ffermio iach a chynaliadwy ledled y DU ac i ddiogelu cymdeithas rhag bygythiadau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid. Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am oruchwylio, monitro a gweinyddu trefniadau gwiriadau milfeddygol ar anifeiliaid byw a rhai cynnyrch anifeiliaid mewn BIPs.

2.8 **Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (PHA)**[10] **ac Awdurdodau Lleol**yw partneriaid darparu mesurau rheoli swyddogol Defra a'r FSA. Maent yn gyfrifol am[11] wiriadau milfeddygol a diogelwch bwyd ar gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd, sy'n cyrraedd cyfleusterau Safle Archwilio ar y Ffin (BIP) a leolir mewn rhai porthladdoedd a meysydd awyr yn y DU. Cynhelir gwiriadau gan filfeddygon a Swyddogion Iechyd Porthladdoedd (Swyddogion Iechyd Amglycheddol arbenigol), a gyflogir fel arfer gan yr awdurdod lleol neu'r PHA. Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan hanfodol hefyd wrth adnabod a rheoli cynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon i'r DU a'i roi ar y farchnad fewndirol mewn manwerthu, arlwyo, stondinau marchnad neu fannau tebyg.

2.9 Mae prosesau datgan tollau **HMRC's**[12] ar gyfer mewnforion nad ydynt o'r UE yn sicrhau bod holl gynnyrch anifeiliaid wedi eu cyhoeddi â Dogfen Mynediad Filfeddygol Gyffredin[13] cyn i'r llwyth gael ei glirio drwy'r tollau yn y DU[14].

[6] food.gov.uk/the-website-of-the-food-standards-agency
[7] gov.uk/government/organisations/border-force
[8] Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 yn cynnig y sail gyfreithiol ar gyfer y gweithgarwch hwn
[9] Mae gan DARD gyfrifoldeb yng Ngogledd Iwerddon, mewn BIPs a safleoedd mynediad eraill
[10] gov.uk/port-health-authorities-monitoring-of-food-imports and porthealthassociation.co.uk/
[11] dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli afiechydon) 1984, c 22
[12] Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hmrc.gov.uk/
[13] gov.uk/overseas-veterinary-certificates-and-border-inspection-posts
[14] DARD sy'n cwblhau'r gweithgareddau hyn yng Ngogledd Iwerddon

2.10 Yng Ngogledd Iwerddon, **yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD)** sy'n gyfrifol am orfodi ar ffiniau ynghyd â chyhoeddusrwydd. Mae BIPs[15] dan oruchwyliaeth uniongyrchol DARD. Mae'r cyfrifoldeb am gynnyrch pysgota wedi ei ddatganoli i Gynghorau Dosbarth[16]; mae'r cyfrifoldeb am bob cynnyrch anifail arall a mewnforion o anifeiliaid byw yn parhau yn nwylo DARD. Mae PHA Belfast yn cynnal gwiriadau pysgod a chynnyrch pysgod. Mae Milfeddygon Swyddogol a gyflogir gan DARD yn cynnal gwiriadau ar anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid (ar wahân i gynnyrch pysgod) mewn BIPs. Nid yw BIPs Belfast wedi'u cymeradwyo ar gyfer anifeiliaid byw. Mae Cangen Archwilio Porthladd Gwasanaeth Milfeddygol DARD yn gyfrifol am ddarganfod cynnyrch anifeiliaid anghyfreithlon (mewnforion personol) ym mhob safle dod i mewn i'r wlad yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan y gangen bresenoldeb parhaol ym mhob un o'r prif borthladdoedd a meysydd awyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae DARD hefyd:

- yn cynnal gwiriadau rheolaidd ym mhorthladdoedd a marinas bach o amgylch Gogledd Iwerddon
- wedi cyflwyno ci canfod er mwyn darganfod mewnforion personol anghyfreithlon ym meysydd awyr Gogledd Iwerddon
- yn medru cefnogi cyrff gorfodi eraill ac yn cynnig help wrth gefn i gyrff fel Mewnfudo EM, Llu'r Ffiniau a FSANI.

2.11 Mae rhagor o wybodaeth ar reolaeth a threfniant y systemau rheoli ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid ar gael yng Nghynllun Rheoli Cenedlaethol Aml-Flynyddol y DU[17] (yn unol â gofyniad Rheoliad 882/2004) a Phroffil Gwlad y DU[18].

2.12 Rhoddir crynodeb o'r modd y rhennir y cyfrifoldeb am reolaeth swyddogol mewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid isod.

| **Awdurdodau Cymwys**: Deddfwriaeth, Polisi a Chydgordio | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Defra** | **FSA** | **Llywodraeth Cymru** | **Llywodraeth Yr Alban** | **DARD Gogledd Iwerddon** |
| **Lefel Ranbarthol**: Gorfodi (Gwiriadau mewnforio, gwiriadau gwrth-smyglo, monitro a gwyliadwriaeth) | | | | |
| **AHVLA** | **DARD Gogledd Iwerddon (Gwasanaeth Milfeddygol)** | **PHAs** | **Awdurdodau Lleol** | **Llu'r Ffiniau** |

2.13 Mae rhagor o wybodaeth am y ffyrdd y mae'r Adrannau a'r asiantaethau hyn yn cydweithio ym Mhennod 7.

15 BIP Porthladd Belfast a BIP Maes Awyr Rhyngwladol Belfast
16 yn gyfystyr ag Awdurdodau Lleol
17 food.gov.uk/enforcement/regulation/europeleg/feedandfood/ncpuk
18 ec.europa.eu/food/fvo/controlsystems_en.cfm?co_id=GB

# Pennod 3 – Asesu risg

3.1 Mae Defra yn monitro unrhyw achosion cychwynnol o afiechydon anifeiliaid sylweddol, neilltuol a newydd yn fyd-eang. Defnyddir y system rhybuddio cynnar hon i asesu'r risg y gallai afiechydon gael eu cyflwyno i'r DU drwy fasnach anifeiliaid neu gynnyrch anifeiliaid (cyfreithiol neu beidio), drwy symud bywyd gwyllt, neu drwy symud anifeiliaid fel pryfetach ac adar gwyllt a allai gario afiechyd. Mae Defra'n defnyddio'r asesiadau hyn o achosion cychwynnol i'w cynorthwyo i benderfynu sut i reoli neu leihau'r risgiau.


3.2 Pan ddaw Defra yn ymwybodol o achos newydd o afiechyd anifeiliaid mewn gwlad arall gall gynnal asesiad cychwynnol o afiechyd newydd. Rhoddir blaenoriaeth i achosion o afiechydon cychwynnol mewn Aelod-Wladwriaeth o'r UE, gwlad sy'n ffinio â'r UE neu un o bartneriaid masnach trydydd gwlad y DU. Mae Defra'n gweithio gyda Llu'r Ffiniau a phartneriaid eraill sy'n darparu i sicrhau bod eu gweithgarwch gorfodi a thargedu yn ystyried y risg(iau) presennol ac yn gweithredu'n unol â fframweithiau gweithredol sefydliadol o flaenoriaeth cytunedig. Er enghraifft, yn ystod 2013/14 adroddodd Defra ar yr HPAI yn yr Eidal (UE), Awstralia (trydydd gwlad) a FMD yn Rwsia (ar ffin yr UE).

3.3 Cynhelir monitro dyddiol o achosion newydd o afiechydon gan arbenigwyr gwyddonol AHVLA a all gwblhau asesiadau risg yn sydyn *ar hap* ar ran Defra. Mae'r asesiadau risg hyn yn defnyddio adroddiadau swyddogol (y Llywodraeth) yn ogystal â hysbysiadau afiechyd yr UE, ond mae ffynonellau answyddogol o wybodaeth (y diwydiant neu adroddiadau ar y rhyngrwyd) hefyd yn bwydo i mewn i wyliadwraeth ar gyfer digwyddiadau anarferol. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar gov.uk/government/collections/animal-diseases-international-monitoring. Rhoddir enghraifft o asesiad o afiechyd cychwynnol ar gyfer FMD yn Rwsia yn Atodiad C.

3.4 Rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2014 cwblhawyd a chyhoeddwyd 53 o Asesiadau o Afiechydon Cychwynnol gan Defra ar afiechydon fel FMD, HPAI, *Anemia Heintus Ceffylaidd*, *Y Gynddaredd* a *Chlwy Affricanaidd y Moch* (ASF). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: gov.uk/government/collections/animal-diseases-international-monitoring.

3.5 Isod rhoddir llwybr risg nodweddiadol – yn yr achos hwn ar gyfer mewnforio moch byw o wledydd lle mae ASF yn bodoli. Tra bod rheolau masnach yr UE yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'n pryderon ynghylch mewnforio anifeiliaid byw, cynnyrch, a ffyrdd cludo eraill o ledaenu afiechydon, dengys y llwybr hwn bod yna rai ffyrdd cludo neilltuol yn parhau heb eu rhwymo gan ddeddfwriaeth (e.e. ffyrdd cludo sydd yn anghyfreithlon neu'r symudiad o anifeiliaid gwyllt neu foch a symudir fel anifeiliaid anwes drwy gamgymeriad). Yn yr achos hwn efallai y bydd angen i awdurdodau'r DU ystyried a ddylid cymryd mesurau rhagofalus i liniaru'r risgiau hyn.

# Y risg o gyflwyno ASF i'r DU drwy fasnach neu symud moch byw



3.6 Mae'r diagram isod yn dangos y rhaniad o ran cyfrifoldeb a gweithgarwch sydd ynghlwm â'r broses asesu risg

| Asesiad Risg | Gweithgarwch | Cwblhawyd gan |
|---|---|---|
| **Atal:** Cyn-ffiniol | Deddfwriaeth UE ac archwiliadau FVO; Cydweithredu yn yr UE ac yn rhyngwladol; Sganio'r gorwel; Cymeradwyaeth Trydedd Wlad; Cymeradwyaeth safle Trydedd Wlad; Tystysgrifau Iechyd Mewnforio | EU (yn cynnwys Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth), DEFRA, WG, SG, DARD, AHVLA |
| **Diogelu ac Ymateb:** Ffiniau'r DU | Blychau a cherbydau archwilio; Cargo Archwilio (Dangos); Nwyddau archwiliad Gwiriadau dogfennol, ID a Gweithredol; Teithwyr yn cyrraedd (anifeiliaid anwes[19]) (Anifeiliaid anwes[19]); Cwarantin | AHVLA, Awdurdodau Lleol, Cwmnïau Fferis, Llu'r Ffiniau-HMRC, Awdurdod Iechyd Porthladd |
| **Sicrwydd:** Ôl-ffiniau'r DU | Monitro; Gwyliadwriaeth | FSA, AHVLA, Awdurdodau Lleol, Ffermwyr/Perchnogion Tir, Gweithredwr busnes bwyd |
| **Cynnal**[19] | Rheolaeth lefel fferm; Archwiliad (fferm); Archwiliad (lladd-dy); Archwiliad (cludiant); Ardystiad cyn allforio; Rheoli a gwaredu | FSA, AHVLA, Awdurdodau Lleol, Ffermwyr/Perchnogion Tir, FSA |

19 Mae'r ardaloedd tywyll y tu hwnt i bwrpas yr adroddiad hwn

# Pennod 4 – ATAL: Rheolaeth gyn-ffiniol

## Deddfwriaeth UE

4.1 Mae Rheoliad Comisiwn 882/2004[20] ar fesurau rheoli swyddogol yn cynnig meini prawf ar gyfer trefniant a gweithredu system rheoli mewnforio i'r DU. Mae hyn yn cynnwys:

- ymagwedd yn seiliedig ar risg – Erthygl 3
- dynodiad o awdurdodau cymwys ar gyfer holl weithgarwch mewnforio – Erthygl 4(1)
- cydgordio a chydweithredu rhwng ac oddi mewn awdurdodau cymwys (cyfathrebu â Thollau) – Erthygl 4(3) a 4(5)
- sut y bydd yr awdurdodau cymwys yn cael eu harchwilio, yn cynnwys mesurau rheoli gan y Comisiwn – Erthygl 4(6)
- safonau sy'n ddisgwyliedig gan staff, labordai, a pha ddulliau dadansoddol ellir eu defnyddio ar gyfer mesurau rheoli swyddogol – Erthyglau 6 a 12
- gweithdrefnau wedi'u dogfennu a'u dilysu ar gyfer cwblhau mesurau rheoli swyddogol – Erthygl 8
- gofyniad i lunio adroddiadau ar y mesurau rheoli swyddogol – Erthygl 9
- amodau mewnforio – Erthyglau 47-50
- system i hyfforddi swyddogion a'u diweddaru'n rheolaidd (canfod anghenion, gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a roddwyd) – Erthygl 51
- mesurau mewn achos o ddiffyg cydymffurfio – Erthygl 54.

4.2 Mae amcanion mesurau rheoli mewnforio swyddogol y DU yn unol â nodau'r ddeddfwriaeth UE berthnasol:

- mae gwiriadau milfeddygol ar anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid o drydydd gwledydd yn cael eu cynnal yn unol â Chyfarwyddyd y Cyngor 91/496[21], Cyfarwyddyd y Cyngor 97/78[22], a deddfwriaeth genedlaethol
- mae cyfleusterau i archwilio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid wedi cael eu hadeiladu, yn llawn cyfarpar, yn cael eu cynnal a'u gweithredu yn unol â'r gofynion a osodwyd yng Nghyfarwyddyd y Cyngor 91/496 a Phenderfyniad y Comisiwn 2001/812[23]
- mae'r gwiriadau dilysu a gwblheir gan swyddogion sy'n gyfrifol am Safleoedd Archwilio Ffiniau yn cydymffurfio â gofynion erthygl 8 o Reoliad 882/2004.

Rhoddir y rhannau pwysicaf o ddeddfwriaeth yr UE yn Atodiad A.

[20] eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:165:0001:0141:EN:PDF
[21] eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:31991L0496
[22] europa.eu/legislation_summaries/food_safety/veterinary_checks_and_food_hygiene/l12059b_en.htm
[23] eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:32001D0812

## Trydydd Gwledydd a chymeradwyo safleoedd (yn cynnwys Ardystio Iechyd Menwnforion)

4.3 Ar hyn o bryd barn Defra yw y byddai yna risg fach o afiechyd egsotig yn cael ei chyflwyno o wlad a effeithiwyd gan fewnforion cyfreithiol yn sgil y system o gymeradwyo ac ardystio a osodwyd gan gyfraith yr UE ar gyfer gwledydd a gymeradwywyd i allforio i'r UE. Serch hynny, mae mewnforion anghyfreithlon (yn enwedig smyglo) yn parhau yn bryder mawr. Mae swmp y masnachu a'r materion ymarferol yn pennu'r ymagwedd seiliedig ar risg.

4.4 Rhaid i anifeiliaid a'u cynnyrch a fewnforiwyd i'r UE o drydydd gwledydd gael eu cynhyrchu'n unol â safonau anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus yr UE o leiaf. Dim ond o wledydd a gymeradwyir gan yr UE y cânt eu mewnforio, ac o sefydliadau a gymeradwywyd yn unig yn achos bwydydd. Rhaid i bob llwyth gynnwys tystysgrif anifail priodol a/neu dystysgrif iechyd cyhoeddus ac yna'i restru ar System Cofnodi Symudiadau Anifeiliaid Rhwng Gwledydd yr UE (TRACES)[24]; mae hyn yn sicrhau tracio ac archwilio cadarn. Mae anifeiliaid a'u cynnyrch yn cael eu masnachu'n rhydd o fewn yr UE ac mae'r cyfrifoldeb ar gyfer iechyd a diogelwch yn nwylo'r Aelod-Wladwriaeth sy'n allforio. Nid yw'r ffiniau'n cael eu rheoli ar gyfer masnachu rhwng Aelod-Wladwriaethau ac mae'r UE yn caniatau gwiriadau nad ydynt yn gwahaniaethu'n fwriadol, ar gyfer dibenion cydymffurfio'n unig.

4.5 Er mwyn i drydydd gwledydd gael cymeradwyaeth i'w galluogi i allforio i'r UE, cymerir sylw neilltuol, ymysg pethau eraill[25] o:

- statws afiechyd y wlad a statws iechyd y da byw ac anifeiliaid domestig eraill
- rheolau'r wlad ar atal a rheoli afiechydon, yn cynnwys ei rheolau ar ei fewnforion o wledydd eraill
- trefniant yr awdurdodau milfeddygol cymwys a'r gwasanaethau archwilio.


4.6 Gall gymeradwyaeth gwmpasu rhan neu'r cyfan o wlad nad yw'n perthyn i'r UE yn ddibynnol ar y sefyllfa mewn perthynas â'r anifail neu iechyd cyhoeddus, ynghyd â natur y cynnyrch y ceisir cymeradwyaeth amdanynt.

4.7 Mae'n ofynnol i awdurdodau cymwys y trydydd gwledydd roi sicrwydd neu warant priodol i'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â safonau iechyd a glendid anifeiliaid. Yna mae'n rhaid i'r Comisiwn asesu'r wybodaeth a gyflwynwyd. Pan dderbynnir cais am warantau sy'n sicrhau cymeradwyaeth gan y Comisiwn, fe anfonir holiadur cychwynnol yn ymwneud â'r anifeiliaid/cynnyrch dan sylw i'r awdurdodau cenedlaethol. Nod hyn yw asesu a ellir bodloni gofynion yr UE ac i gasglu gwybodaeth cyn archwiliad posibl yn y fan a'r lle gan Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO) y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rhaglen ddiweddaraf o archwiliadau trydydd gwledydd yr FVO i'w gweld yn: ec.europa.eu/food/fvo/inspectprog/index_en.htm.

24 Offeryn rheoli milfeddygol ar y we sy'n rheoli mewnforion ac allforion o anifeiliaid gwyllt a chynnyrch anifeiliaid o'r UE. Rhedir y rhwydwaith gan y CE. ec.europa.eu/food/animal/diseases/traces/index_en.htm

25 Mae hyn yn berthnasol i anifeiliaid (Cyfarwyddyd Cyngor 2004/68/EC) a chynnyrch anifeiliaid i'w bwyta gan bobl (Cyfarwyddyd Cyngor 2002/99/EC)

4.8 Mae'r diagram isod yn dangos y pwyntiau rheoli yn y broses o fewnforio cynnyrch anifeiliaid.



## Archwiliadau BIP[26] Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO)

4.9 Mae Erthygl 45 o Reoliad 882/2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal mesurau rheoli yn yr Aelod-Wladwriaethau lle digwydd y rheoli yn unol â chynlluniau rheoli cenedlaethol aml-flynyddol ac yn unol â chyfraith yr UE. I gwrdd â chyfrifoldeb FVO y Comisiwn i gynnal asesiadau ac archwiliadau rheolaidd o gyfleusterau BIPs y DU i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r safonau gofynnol a bod ymagwedd gyson ar draws yr UE. Yn ystod y cyfnod adrodd cafwyd tair ymgyrch FVO rheoli mewnforion i'r DU (manylion isod) gan gynnig argymhellion i awdurdodau cymwys y DU iddynt fedru gwella'u system reoli BIPs presennol yn fwy fyth.

| Rhif Archwilio | Teitl | Dolenni i'r Adroddiad/Crynodeb o'r gweithrediadau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **2013-6985**<br>**Awst 2013** | Gwerthuso'r BIP arfaethedig Porthladd London Gateway | ec.europa.eu/food/fvo/rep_details_en.cfm?rep_id=3179<br>Prif ganfyddiadau'r archwiliad oedd mai'r awdurdodau a aseiniwyd oedd y rhai a sicrhaodd bod digon o staff cymwys a phrofiadol ar gael i ddechrau perfformio gwaith rheoli mewnforio. Roedd cyfleusterau'r BIP, y cyfarpar a'r gweithdrefnau oll yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer y categorïau o gynnyrch cymeradwy a geisiwyd. |
| **2012-6582**<br>**Hydref 2012** | Gwerthuso gweithredu dilynol a wnaed gan yr awdurdodau cymwys mewn perthynas â'r system rheoli mewnforion/ cludiant a BIPs | ec.europa.eu/food/fvo/rep_details_en.cfm?rep_id=3003<br>Daeth archwiliad yr FVO i'r casgliad fod gan y DU system reoli effeithiol ar fewnforion a nwyddau teithiol yn unol â gofynion deddfwriaeth yr UE. Sicrheir effeithiolrwydd y mesurau rheoli a digonolrwydd cyfleusterau'r BIP gan:<br>• gydweithio agos rhwng y gwahanol awdurdodau cymwys<br>• rhaglen hyfforddi benodol sy'n gysylltiedig â'r adolygiad parhaus o weithdrefnau a chyfarwyddiadau; a'r<br>• system ddilysu sydd mewn grym a system archwilio esblygol fewnol.<br>Y prif ganfyddiad oedd y dylai'r DU ddatblygu'r system archwilio fewnol ymhellach mewn perthynas â'r system rheoli mewnforion/cludiant i sicrhau bod gofynion Erthygl 4 (6) o Reoliad 882/2004 yn cael eu bodloni. Cynhaliwyd adolygiad o'r system archwilio sydd ar waith ar gyfer cynnyrch BIP yn 2013. Crëwyd system well a'i rhoi ar waith yn 2013 er mwyn i BIPs cynnyrch fedru gwella archwiliadau. Bydd adolygiad tebyg ar y gweill yn fuan ar gyfer BIPs anifeiliad byw. |
| **2012-6606**<br>**Mehefin 2012** | Gwerthuso'r BIP arfaethedig ym Maes Awyr Caeredin | ec.europa.eu/food/fvo/rep_details_en.cfm?rep_id=2920<br>Ar sail y gwerthusiad a gwblhawyd, argymhellir y BIP arfaethedig ym maes awyr Caeredin i'w restru ym Mhenderfyniad Comisiwn 2009/821/EC gyda'r categori cymeradwyo anifeiliaid byw – anifeiliaid eraill. |

## Cydweithredu yn yr UE ac yn rhyngwladol

4.10 Mae'r rhan helaeth o'r rheolau mewnforio'n cael eu sefydlu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Pan ystyrir bod y wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau cymwys y trydydd gweledydd yn foddhaol, a bod archwiliad yr FVO yn arwain at argymhelliad da, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig addasiadau i reolau'r UE i gymeradwyo mewnforion o wlad nad yw'n perthyn i'r UE a cheisio pleidlais am hynny gan y Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid (Pwyllgor PAFF)[27] – yn cynnwys cynrychiolwyr o Brif Swyddogion Milfeddygol yr Aelod-Wladwriaethau. Mewn achos o afiechyd newydd neu newid mewn sefyllfa epidemiolegaidd, bydd mesurau "diogelu" ychwanegol yn cael eu pennu gan y Pwyllgor PAFF. Gall yr amodau gynnwys gwahardd/cyfyngu ar fewnforion o'r ardal a effeithiwyd wrth barhau i ganiatau mewnforion o ardaloedd nad ydynt wedi'u heffeithio cyn belled â bod mesurau rheoli addas mewn grym ("gweithredu'n rhanbarthol").

[26] FVO yw gwasanaeth archwilio Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Defnyddwyr y Comisiwn ec.europa.eu/food/fvo/index_en.cfm
[27] a adwaenir yn flaenorol yn Bwyllgor Sefydlog y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid ("ScoFCAH") – ec.europa.eu/dgs/health_food-safety/dgs_consultations/regulatory_committees_en.htm

4.11 Mae’r DU yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o negodi a chytuno ar bolisi a chyfraith yr UE wrth weithredu hynny ar fewnforion o drydydd gwledydd ac ar fasnachu rhwng Aelod-Wladwriaethau. Nod y DU yw dylanwadu cymaint â phosibl ar lefel yr UE ac yn rhyngwladol (e.e. yn OIE). Gwneir hyn drwy ddwy brif fforwm:

- **Pwyllgor PAFF** – datblygu sefyllfaoedd negodi ar gyfer y DU (drwy ddefnyddio dadansoddiad risg) gan ddefnyddio hynny mewn trafodaethau ym Mrwsel ar y portffolio cynyddol o reolau mewnforio sydd gan yr UE.
- **Grŵp Gwiriadau Milfeddygol y Comisiwn (VCG)** – cymryd rhan mewn cyfarfodydd i gynorthwyo’r Comisiwn wrth ddiffinio polisi a pharatoi cynigion deddfwriaethol drafft; rhoi barn arbenigol ar bob agwedd ar ddeddfwriaeth rheoli mewnforion, ei gweithrediad a’i datblygiad; cyfnewid gwybodaeth, profiad ac arfer da ar reoli mewnforion sydd yng nghwmpas deddfwriaeth yr UE; a chynnig canllaw wrth ddatblygu ymagwedd gytbwys ar gyfer yr Aelod-Wladwriaethau a rhanddeiliaid. Llwyddodd y DU i negodi’n llwyddiannus gyda’r UE ac Aelod-Wladwriaethau eraill ar y testun yn y canllaw ar gynnyrch cyfansawdd, sydd ar gael yn ec.europa.eu/food/food/biosafety/hygienelegislation/guide_en.htm ac ec.europa.eu/food/food/biosafety/hygienelegislation/docs/guide_composite_products__en.pdf.

4.12 Mae’r DU yn dylanwadu ar safonau rhyngwladol[28] Sefydliad Masnach y Byd ar iechyd anifeiliaid drwy weithio gyda’r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-Wladwriaethau eraill i ddarparu mewnbwn UE wedi’i gydgordio i’r corff sy’n gosod y safonau – Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE)[29]. Yn ychwanegol, mae’r DU yn darparu arbenigedd milfeddygol a gwyddonol i’r OIE drwy Arbenigwyr Cyfeiriol a Labordai’r OIE, grwpiau drafftio a thrwy Gomisiynau Arbenigol yr OIE.

[28] wto.org/english/thewto_e/whatis_e/what_we_do_e.htm
[29] oie.int/

**Astudiaeth Achos – achos cychwynnol o Ffliw Adar Pathogenaidd Iawn yn Israel**

Ar 8/9 Mawrth 2012, hysbysodd awdurdodau cymwys Israel y Comisiwn Ewropeaidd am ddau achos o Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI). Ar yr un pryd, bu iddynt hysbysu'r OIE[30]. Gan nad oedd Israel bellach yn rhydd o HPAI, gwaharddodd yr awdurdodau milfeddygol allforion dofednod a chynnyrch dofednod o'i thiriogaeth gyfan.

Rhoddodd awdurdodau cymwys Israel fesurau ar waith i reoli ymlediad yr afiechyd. Cynhaliwyd gwerthusiad gan y Comisiwn Ewropeaidd gan gytuno â'r mesurau mewn grym. Cafwyd rhagor o werthuso hefyd.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Pwyllgor PAFF) ar 7/8 Mai 2012 cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd gynnig i gyfyngu mewnforion i mewn i'r UE o nwyddau o Israel a effeithiwyd. Roedd hyn yn cynnwys rhanbartholi'r wlad gan felly wahardd mewnforion o'r ardal a effeithiwyd o:

- ddofednod byw a ratidau (yn cynnwys cywion diwrnod oed a wyau deor)
- wyau sy'n rhydd o bathogenau penodol
- cig dofednod, ratidau ac adar hela gwyllt pluog.

Yn ychwanegol, diwygiwyd yr amodau mewnforio ar gyfer cynnyrch cig (cig wedi ei brosesu / ei goginio) o'r ardaloedd a effeithiwyd yn Israel er mwyn sicrhau mai dim ond cig a gafodd ei drin dan wres at isafswm o 70°C drwy'r cig i gyd oedd yn gymwys i'w fewnforio. Roedd mewnforion o'r nwyddau uchod o'r ardaloedd a oedd heb eu heffeithio gan yr achos newydd o'r afiechyd yn medru parhau unwaith eto.

Diwygiwyd y ddeddfwriaeth UE berthnasol[31] yn sgil hynny.

Yn ddiweddarach yr un flwyddyn adroddodd Israel ei bod wedi llwyddo i reoli'r achos newydd o'r afiechyd felly cytunwyd y gallai mewnforion o gynnyrch cig o'r ardal a effeithiwyd heb driniaeth o wres gofynnol, yn medru parhau. Diwygiwyd y ddeddfwriaeth UE berthnasol[32] unwaith eto.

Yn gynnar yn 2014, yn dilyn cais gan awdurdodau cymwys yn Israel, cyflwynwyd cynnig pellach i Aelod-Wladwriaethau ym Mhwyllgor PAFF. Adroddwyd nad oedd cig o'r rhywogaeth a effeithiwyd a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o atal bellach ar gael ar y farchnad. Cytunwyd felly y gallai'r rhanbartholi a sefydlwyd yn 2012 gael ei ddiddymu ac y gallai mewnforio o'r wlad gyfan ailgychwyn. Ym mis Mehefin 2014 cynhaliwyd ymgyrch FVO[33] i Israel i werthuso'r mesurau rheoli iechyd anifeiliaid a oedd mewn grym ar gyfer dofednod a chynnyrch dofednod a fwriadwyd eu hallforio i'r Undeb Ewropeaidd. Ceir rhagor o wybodaeth yn ec.europa.eu/food/fvo/audit_reports/index.cfm.

Cyflwynodd Defra'r achos newydd o afiechyd a'r risgiau cysylltiedig o gig dofednod ac wyau i'r BIPs a Llu'r Ffiniau yn gynnar ym mis Mawrth 2012. Llwyddodd hyn i amlygu'r risg gynyddol o gig dofednod o'r rhanbarth. Unwaith yr oedd rhanbartholi yn ei le ac ar ôl i'r gwaharddiad gael ei godi, rhoddwyd gwybod i Lu'r Ffiniau a'r BIPs hefyd.

30 oie.int/wahis_2/public/wahid.php/Reviewreport/Review/viewsummary?fupser=&dothis=&reportid=11725

31 Rheoliad Comisiwn 532/2012 yn diwygio Atodiad II i Benderfyniad 2007/777/EC ac Atodiad I i Reoliad Rhif 798/2008 ynglŷn â chofnodion i Israel yn y rhestrau o drydydd gwledydd neu rannau felly mewn perthynas â Ffliw Adar Pathogenig Iawn eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32012R0532&from=EN

32 Penderfyniad Comisiwn 2012/479/EU yn diwygio Penderfyniad 2007/777/EC ynglŷn â chofnodion i Israel yn y rhestrau o drydydd gwledydd o ble y gall rhai cynnyrch cig gael eu cyflwyno i'r Undeb eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32012D0479&from=EN

33 cyfeirnod archwilio: 2014-7087 ec.europa.eu/food/fvo/audit_reports/details.cfm?rep_id=3331

# Pennod 5 – DIOGELU AC YMATEB: Rheoli Ffiniau'r DU

## DIOGELU: GWERTHIANT MASNACHOL

5.1 Mae anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn cynnig lefel uchel o risg oherwydd gallant drosglwyddo afiechydon dynol ac anifeiliaid difrifol. Mae rheolaeth ffiniau filfeddygol yn ffactor allweddol i sicrhau bod yr anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r DU yn ddiogel ac yn bodloni'r amodau mewnforio penodol a bennwyd gan ddeddfwriaeth y Gymuned. Gan hynny, maent yn destun mesurau rheoli penodol wrth ddod i mewn i'r wlad yn y Safleoedd Archwilio Ffiniau (BIPs)[34] lle cynhelir gwiriadau milfeddygol arnynt gan Lawfeddygon Milfeddygol Swyddogol (OVS)[35].

5.2 Mae gweithgarwch rheoli'r BIPs yn cynnwys:

- gwirio pob maniffest i gadarnhau bod anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid wedi'u nodi'n gywir.
- gwiriadau dogfennol 100% i sicrhau bod unrhyw ardystiad iechyd angenrheidiol a dogfennau cyn-hysbysu wedi'u cynnwys a'u cwblhau'n gywir.
- gwiriadau hunaniaeth 100% i sicrhau bod yr anifeiliaid neu'r nwyddau yn unol â'r hyn a ddisgrifir ar y gwaith papur atodol; a
- gwiriadau ymarferol yn cynnwys samplo a phrofion labordy i sicrhau nad yw'r llwyth a anfonwyd yn fygythiad i iechyd anifeiliaid neu i bobl.
- gweithredu'r Cynllun Monitro Cenedlaethol i ganfod gweddillion, organebau pathogenaidd neu ddeunyddiau eraill sy'n beryglus i bobl, anifeiliaid neu'r amgylchedd yn seiliedig ar y lefelau samplo presennol neu drwy'r nifer o gynnyrch anifeiliaid a ddaw drwy'r BIP neilltuol hwnnw.

5.3 Ar gyfer cynnyrch anifeiliaid mae gan yr OVS ac Archwilwyr Pysgod Swyddogol y grym i gynnal unrhyw wiriadau sy'n briodol yn eu barn nhw mewn achosion lle maent yn amau nad yw deddfwriaeth filfeddygol wedi ei fodloni neu os bydd unrhyw amheuaeth am y llwyth neu ei gyrchfan. Gall fod yna rai achosion lle bydd hi'n angenrheidiol, am gyfnod byr, gwneud cais am lefel uwch o wiriadau ar gynnyrch o rai trydydd gwledydd penodol (e.e. o ganlyniad i achos newydd o afiechyd). Dan amgylchiadau o'r fath, bydd pob BIP a gofrestrwyd fel un cymwys i ymdrin â'r cynnyrch dan sylw yn cael hysbysiad gan Defra yn ysgrifenedig o unrhyw gynnydd dros dro yn y lefel o ddadansoddiad sy'n ofynnol.

5.4 Dylid cynnal gwiriadau ymarferol ar becynnau drwy'r llwyth cyfan – gall hyn olygu gorfod gwagio'r blychau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae'r gweithdrefnau samplo wedi'u hegluro yn Atodiad II o Reoliad y Comisiwn 136/2004[36]. Dylai BIPs gyflwyno samplau i:

- ddadansoddwr cyhoeddus a benodwyd gan awdurdod lleol ar gyfer dadansoddi bwyd
- Labordai Microbioleg Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol Public Health England ar gyfer archwilio bwyd
- os yw'n briodol, i labordai eraill sydd wedi'u hachredu ar gyfer technegau dadansoddol penodol.

---

[34] Mae gan borthladdoedd a meysydd awyr yn y DU sydd â BIP gyfleusterau arbenigol a staff hyfforddedig i ddelio â mewnforion bwyd o risg uchel fel cig, cynnyrch llaeth a physgod

[35] cyflogwyd gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd perthnasol

[36] eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:021:0011:0023:en:PDF

5.5 Cynhelir gwiriadau ymarferol yn unol â'r lefel o risg a ragwelir o'r cynnyrch penodol a'u tarddiad. Mae'r ganran o becynnau a wirir wedi ei gosod yn gyfreithiol drwy Gyfarwyddyd Cyngor 97/78/EC, gan ofyn am 100% o wiriadau dogfennol a hunaniaeth ar gynnyrch anifeiliaid a fewnforir ac mae Penderfyniad Comisiwn 94/360/EC yn pennu'r lefelau o wiriadau ymarferol. Mae Cyfarwyddyd y Cyngor 91/496/EEC yn ei gwneud hi'n ofynnol bod pob anifail a fewnforir yn cael eu gwirio wrth ddod i mewn i'r UE.

5.6 Rhaid i anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid gael eu hardystio gan awdurdodau cydnabyddedig yn y gwledydd gwreiddiol. Cymeradwyir y gwledydd hyn ar sail ledled yr UE. Gellir cwblhau rhagor o wiriadau ar y cynnyrch yn y cyrchfan terfynol.

5.7 Gall llwyth o anifeiliaid byw neu gynnyrch anifeiliaid ond dod i mewn i'r DU os yw wedi cwblhau'r gwiriadau penodol yn foddhaol a bod Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin wedi ei chyhoeddi. Rhaid i bob llwyth:

- ddod o wlad a gymeradwyir
- fod â thystysgrif iechyd anifail ac/neu iechyd cyhoeddus yn atodol
- ddod o sefydliad a gymeradwyir
- ddod i mewn i'r UE drwy BIP a gymeradwyir lle cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y llwyth yn bodloni amodau'r mewnforio.

5.8 Mae deddfwriaeth yr[37] UE yn argymell y dylid rhoi[38] hysbysiad ymlaen llaw i'r BIP ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid ac anifeiliaid byw cyn iddynt gyrraedd ar diriogaeth yr UE:

- mewn porthladdoedd – ar y diwrnod gwaith blaenorol o leiaf, ac eithrio fferis lle argymhellir y dylid rhoi hysbysiad ymlaen llaw yn union cyn cyrraedd
- mewn meysydd awyr – ychydig oriau cyn i'r awyren gyrraedd ar gyfer teithiau hir ac wrth esgyn i'r awyr o'r maes awyr blaenorol ar gyfer teithiau byr[39]
- ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd – deuddeg awr cyn cyrraedd
- ar gyfer anifeiliaid byw – un diwrnod gwaith o leiaf.

5.9 Mae'r Cynllun Monitro Cenedlaethol yn adlewyrchu'r lefelau cyfredol o samplo cynnyrch anifeiliaid sy'n mynd trwy'r tollau. Diben hyn yw sicrhau nad oes modd rhagweld pa gynnyrch fydd yn cael eu samplo mewn unrhyw BIP. Gweithredir y Cynllun Monitro Cenedlaethol yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd[40].

5.10 Rhaid i bob cynnyrch anifail a fewnforir ar gyfer ei fwyta gan bobl fod ag ardystiad anifail ac iechyd cyhoeddus oni bai eu bod yn becynnau personol neu gynnyrch trwyddedig ar gyfer profi blas. Mae deddfwriaeth yr UE yn caniatau cymryd camau diogelu priodol, a all gynnwys gwahardd mewnforio cynnyrch anifeiliaid o rywogaethau sy'n agored i afiechyd o rannau o wlad neu'r wlad gyfan, os bydd achos newydd o afiechyd yn debygol o gyflwyno risg i iechyd dynol neu anifail.

5.11 Trosglwyddir gwybodaeth ynglŷn â chynnyrch nad ydynt yn cydymffurfio â'r symudiad yn allanol o gynnyrch trydedd wlad o BIPs i awdurdodau canolig mewn Aelod-Wladwriaethau eraill gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol TRACES. Pan fydd trosedd ddifrifol neu barhaus o ddeddfwriaeth filfeddygol gytbwys yr UE wedi ei hamlygu a'i gadarnhau gan y

[37] Erthygl 3(3) o Gyfarwyddyd 97/78/EC ac Erthygl 2(1) o Reoliad 136/200411
[38] ceisir ar ran gyntaf o'r CVED
[39] yn unol â Rheoliad Comisiwn 2454/199312
[40] Erthygl 8(1) o Gyfarwyddyd CE Rhif 97/78/EC

Comisiwn Ewropeaidd bydd rhaglen o wiriadau atgyfnerthol yn weithredol ar becynnau o'r un tarddiad o sefydliad yn y drydedd wlad y gwneir yr hysbysiad amdani.

5.12 Gall mesurau diogelu ar rai bwydydd penodol a fewnforir fod yn weithredol i ran neu'r holl drydedd wlad, gwahardd mewnforion o gynnyrch neilltuol yn rhannol neu'n gyfan gwbl neu osod amodau arbennig a gofynion ynghylch cynnyrch penodol. Gweithredir y mesurau hyn, boed yn rai cenedlaethol neu UE, yn Lloegr gan Ddatganiadau Argyfwng dan Reoliad 29 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 a cheir darpariaethau tebyg yng nghyfraith Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae methu â chydymffurfio â darpariaethau'r datganiad yn drosedd. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Ni chyflwynwyd unrhyw fesurau diogelu gan y DU am resymau iechyd anifeiliaid.
- Gweithredwyd naw datganiad gan y FSA am resymau iechyd cyhoeddus. Gweithredwyd y datganiadau hyn yn sgil risgiau iechyd cyhoeddus a amlygwyd. Er enghraifft, y risg o halogi gan afflatocsinau o rai trydydd gwledydd a bwyd yn deillio neu a anfonwyd o Japan a allai gynnwys lefelau ymbelydredd yn uwch na'r uchafswm a ganiateir yn yr Undeb Ewropeaidd.

## YMATEB: CRYNODEB O FESURAU RHEOLI MEWNFORIO ANIFEILIAID BYW A CHYNNYRCH ANIFEILIAID

5.13 Cwblhawyd gwiriadau ymarferol ar bob llwyth o anifeiliaid byw a chanran neilltuol o gynnyrch yn unol â'r hyn a bennir ym Mhenderfyniad Comisiwn 94/360 (1-10%, 20% neu 50% yn ddibynnol ar y cynnyrch).

5.14 Deddfwriaeth yr UE sy'n pennu lefel a natur mesurau rheoli mewnforion. Felly nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r lefel o fesurau rheoli yn ymwneud â mewnforion o gynnyrch anifeiliaid. Roedd y nifer o becynnau o gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn 2013/14 ychydig yn uwch, sef 58,724 o'i gymharu â 58,186 yn 2012/13. Yn achos mewnforion anifeiliaid byw cafwyd gostyngiad yn y nifer o becynnau o 13,545 yn 2012/13 i 9,385 yn 2013/14. Y prif reswm am hynny oedd y gostyngiad yn y nifer o gŵn a chathod a gofnodwyd fel mewnforion masnachol.

5.15 Ar gyfer mewnforion y drydedd wlad o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid parhaodd lefel uchel iawn o gydymffurfiaeth. Ar gyfer cynnyrch anifeiliaid roedd ffigurau 2013/14 yn debyg iawn i rai 2012/13 gyda 1.4% o becynnau'n cael eu gwrthod. Gwrthodwyd 243 o becynnau yn 2013/14 o'i gymharu â 260 yn 2012/13. Roedd yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn wallau dogfennol, yn fwy na dim diffyg tystysgrif iechyd neu un annilys. Y rheswm tebygol am hyn yw diffyg dealltwriaeth neu wybodaeth am reolau'r UE yn yr awdurdod allforio o'r drydedd wlad. Ar gyfer anifeiliaid byw, gwrthodwyd 117 o becynnau yn 2013/14 o'i gymharu â 95 yn 2012/13.

5.16 Os bu i becyn gynnig risg i iechyd cyhoeddus neu i iechyd anifeiliaid, cafodd ei ddinistrio. Fel arall, gwnaed y penderfyniad i ail-allforio neu ddinistrio gan y mewnforiwr, a pharhaodd dinistrio cynnyrch anifeiliaid fel y weithred orfodi fwyaf cyffredin. Gydag anifeiliaid byw, allforiwyd y rhan fwyaf o becynnau yn eu holau.

5.17 Trosglwyddwyd gwybodaeth ynglŷn â chynnyrch nad ydynt yn cydymffurfio â'r symudiad ymlaen o gynnyrch trydedd wlad o BIPs i awdurdodau rheoli mewn Aelod-Wladwriaethau eraill gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol TRACES.

5.18 Mae tablau isod yn dangos manylion y llwythi a wiriwyd a'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfuwyd.

## CYNNYRCH ANIFEILIAID

| Blwyddyn | Tystysgrifau | | | Rhai a Wrthodwyd | | Canlyniad Gwrthodiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Na | % o'r cyfanswm | Parthed-allforiwyd | Trawsffurfiwyd | Dinistriwyd |
| **2012-13** | 58,186 | 58,186 | 100.0% | 814 | 1.40% | 260 | 4 | 536 |
| **2013-14** | 58,724 | 58,724 | 100.0% | 754 | 1.28% | 243 | 3 | 503 |

## Anifeiliaid Byw

| Blwyddyn | Tystysgrifau | | | Rhai a Wrthodwyd | | Canlyniad Gwrthodiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Na | % o'r cyfanswm | Parthed-allforiwyd | Lladd | Ewthanasia[41] |
| **2012-13** | 13,545 | 13,545 | 100.0% | 117 | 0.86% | 109 | 0 | 7 |
| **2013-14** | 9,385 | 9,385 | 100.0% | 95 | 1.01% | 87 | 0 | 8 |

5.19 Rhoddir rhaglen o wiriadau atgyfnerthol ar waith[42] pan fydd Aelod-Wladwriaeth yn hysbysu'r Comisiwn o drosedd difrifol neu barhaus o ddeddfwriaeth filfeddygol gytbwys yr Undeb. Os caiff ei gadarnhau gan wasanaethau'r Comisiwn, bydd rhaglen o wiriadau atgyfnerthol yn weithredol ar becynnau o'r un tarddiad o sefydliad yn y drydedd wlad y gwneir yr hysbysiad amdani. Er enghraifft byddai hysbysiad yn ymwneud â halogi microfiolegol yn golygu methiannau hylendid a byddai'n rhesymol i'r holl gynnyrch a ddaw o'r un sefydliad brofi gwiriad atgyfnerthol.

5.20 Mae'r FSA yn monitro System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)[43] sydd yn aml yn ddull effeithiol i sicrhau llif o wybodaeth ar draws ffiniau ac ymateb yn gyflym pan ganfyddir risgiau i iechyd cyhoeddus yn y gadwyn fwyd. Gall gwybodaeth hanfodol a drosglwyddir drwy RASFF arwain at gynnyrch yn cael eu galw'n ôl o'r farchnad. Yn dilyn dadansoddiad yr hysbysiadau RASF[44] mae'r FSA yn gofyn i Awdurdodau Lleol felly i ddiweddaru eu rhaglen samplo iechyd lleol a phorthladd[45].

5.21 O fewn sgôp y rhaglen hon, mae Awdurdodau Iechyd lleol a Phorthladd yn cynnal samplo cynnyrch yn unol â blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol. Adroddir canlyniadau samplo i'r FSA drwy System Wyliadwraeth Bwyd y DU[46] ac wedi arfer:

- adnabod risgiau iechyd cyhoeddus, cudd-wybodaeth a materion parhaus o orfodi a ffynhonnell o adrodd cenedlaethol
- hysbysu a pharatoi archwiliadau FVO
- dylanwadu ar flaenoriaethau i'r dyfodol a chynnig trosolwg cenedlaethol o ganlyniadau samplo iechyd lleol a phorthladd. Yn ei dro, mae hyn yn sicrhau ymagwedd genedlaethol a chydlynol ar gyfer bwyd a fewnforir a'r goblygiadau ar y gadwyn fwyd.

# YMATEB: Crynodeb o fesurau rheoli mewnforio plasm cenhedlu

5.22 Llywodraethir mesurau rheoli cynnyrch plasm cenhedlu gan ystod o reoliadau UE a domestig sefydledig (yn benodol i'r sector da byw). Addasir hyn gan y Rheoliad Iechyd Anifeiliaid arfaethedig yr UE sy'n ceisio darparu strwythur rheoliadol trosfwaol ar gyfer iechyd anifeiliaid.

41 Pysgod a Gastropoda.
42 yn unol ag Erthygl 24 o Gyfarwyddyd Cyngor 97/78/EC
43 ec.europa.eu/food/safety/rasff/portal/index_en.htm
44 ec.europa.eu/food/safety/rasff/how_does_rasff_work/notifications_process/index_en.htm
45 a gomisiynwyd gan yr FSA drwy raglen samplo bwyd Cenedlaethol yn seiliedig ar risg food.gov.uk/enforcement/monitoring/samplingresources/samplingandsurveillance
46 food.gov.uk/enforcement/monitoring/fss

5.23 Ni fu unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn y rheoliadau yn ymwneud â mewnforio a'r masnach o gynnyrch plasm cenhedlu ers 2007. Serch hynny, bu rhai datblygiadau mewn technoleg a masnach yn y sector bridio artiffisial. Mae Rheoliad Iechyd Anifeiliaid arfaethedig yr UE yn cynnig cyfle amserol i adolygu'r risgiau newidiol.

5.24 Rhaid i gynnyrch plasm cenhedlu sy'n dod i mewn i'r DU o drydedd wlad wneud hynny drwy BIP a bodloni rhai amodau neilltuol, yn benodol i'r nwyddau, er mwyn cael dod i mewn. Gwirir 100% o becynnau gan Filfeddygon Swyddogol wrth gyrraedd a rhoddir caniatâd iddynt gael eu cludo ymlaen dim ond os bydd y gwiriadau hynny'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

5.25 Rhaid i gynnyrch plasm cenhedlu sy'n cael ei fasnachu neu ei symud o fewn yr UE gael ei nodi ar TRACES a'i ardystio ei fod yn cydymffurfio ag amodau iechyd gan Filfeddyg Swyddogol yn eu tarddle. Rhaid iddynt fod wedi dod o ganolfan a gymeradwyir, neu yn achos embryonau, tîm casglu a gymeradwyir. Cynhelir asesiadau risg ar becynnau a chwblheir gwiriadau dogfennol. Nid yw'n ofynnol gwirio symudiadau rhwng Aelod-Wladwriaethau wrth gyrraedd, ond gall llwythi risg uchel wynebu gwiriadau ar ôl mewnforio gan staff AHVLA.

5.26 Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r tîm gweithredu cynnyrch plasm cenhedlu AHVLA wedi ail-leoli bellach yng Nghanolfan Masnach Ryngwladol yng Nghaerliwelydd (Carlisle). Mae'r tîm yn cydgordio archwiliadau o ganolfannau a storfeydd o semen a thimau casglu embryonau. Maent yn prosesu ac yn asesu tystysgrifau TRACES hefyd[47] ar gyfer llwythi o gynnyrch plasm cenhedlu, a rhoddir manylion isod.

| Blwyddyn | Tystysgrifau TRACES a gyhoeddwyd | | | Rhai a Wrthodwyd | | Canlyniad Gwrthodiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Na | % o'r cyfanswm | Parthed-allforiwyd | Trawsffurfiwyd | Dinistriwyd |
| **2012-13** | 374 | 374 | 100.0% | 5 | 1.34% | 3 | 0 | 2 |
| **2013-14** | 383 | 383 | 100.0% | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0 |

5.27 Mae'r mesurau rheoli wedi aros yn gymharol ddinewid dros y cyfnod adrodd. Mae llwythi nad ydynt yn cydymffurfio'n cael eu hail-allforio neu eu dinistrio. Mae problemau gyda gwiriadau gwaith papur o Aelod-Wladwriaethau eraill yn yr UE yn cael eu trafod gyda'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am ddarparu'r ardystiad iechyd.

## Gwaith cysylltiedig – Awdurdodi a thrwyddedu Cynnyrch Anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl

5.28 Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABPs) yn gorff cyflawn neu rannau o gorff yr anifail, cynnyrch anifeiliaid neu gynnyrch eraill a gymerwyd o anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. Rhaid iddynt gael eu defnyddio, gafael, storio, cludo, adnabod, a'u gwaredu yn unol â'r rheoliadau llym sydd â'r nod o atal a lleihau risgiau i iechyd cyhoeddus ac anifeiliaid a gyfyd yn sgil y cynhyrchion hyn, ac yn neilltuol i ddiogelu'r bwyd a'r gadwyn fwyd.

5.29 Mae'r gofynion ar gyfer masnach a mewnforio ABPs a chynnyrch nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl wedi eu hamlinellu a'u gweithredu yn Rheoliadau'r Comisiwn 1069/2009[48] a 142/2011[49].

5.30 Mae'r fasnach a mewnforio o ABPs nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl yn gytbwys â dogfennaeth fasnachol benodol yn bennaf, neu dystysgrifau/datganiadau iechyd; yn enwedig mewn perthynas ag ABPs a fwriedir i'w defnyddio fel bwyd anifeiliaid. Mae'n

[47] Mae'r data hwn yn rhan o ystadegau'n cyfeirio at gynnyrch anifeiliaid sydd wedi eu cynnwys ar dudalen 19
[48] eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:300:0001:0033:EN:PDF
[49] eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2011:054:0001:0254:EN:PDF

ofynnol dan y Rheoliadau hefyd i rai nwyddau penodol gael eu hawdurdodi gan yr awdurdod cymwys cyn mewnforio o wlad nad yw'n rhan o'r UE neu y gellir symud i Aelod-Wladwriaeth arall.

5.31 Fodd bynnag, oherwydd yr ystod eang o ABPs a'r sawl defnydd sydd iddo mewn diwydiant ac o amgylch y byd, nid oes modd i'r rhain oll gael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth gytbwys bresennol yr UE. I hwyluso masnach mae Rheoliadau masnach 1069/ 2009 ac 142/2011 yn galluogi awdurdodau cymwys i awdurdodi mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gosod eu rheolau eu hunain lle nad oes amodau cytbwys mewn grym, lle teimlant y dylid gwneud hynny. Y ddwy brif ddeddfwriaeth genedlaethol yw:

- Y Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011, sy'n datgan yn Rhan 3 15(5) bod, os nad oes gofynion cyfreithiol yn gysylltiedig â'r llwyth, ni ddylai'r llawfeddyg milfeddygol swyddogol gyhoeddi Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED) oni bai bod y mewnforio wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig dan y paragraff hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a gaiff ond cymeradwyo awdurdod os yw'n fodlon nad yw'r llwyth yn peri risg i iechyd dynol neu anifail, neu i statws iechyd anifeiliaid y DU.
- Mae Gorchymyn Mewnforio Cynnyrch Anifeiliaid a Chynnyrch Dofednod 1980 yn datgan yn Erthygl 4 bod dod â chynnyrch anifail neu ddofednod i'r DU o rywle o'r tu allan i'r DU wedi ei wahardd ac eithrio dan awdurdod trwydded ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog priodol ac yn unol ag amodau'r drwydded honno.

5.32 Mae AHVLA yn delio ag ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac yn medru hefyd cyhoeddi trwyddedau cytunedig ac awdurdodi ar ran Defra. DARD sy'n cwblhau'r gweithgareddau hyn yng Ngogledd Iwerddon.

5.33 Enghreifftiau o ABPs nad ydynt ar gyfer eu bwyta gan bobl, sydd wedi'u hawdurdodi i'w mewnforio yw:

- cynnyrch gwaed a broseswyd ar gyfer cynhyrchu dyfeisiadau meddygol
- gwaed adar ar gyfer tynnu DNA
- safnau pysgod ar gyfer cynhyrchu gelatin
- coluddion ar gyfer cynhyrchu tannau ar offerynnau cerddorol
- cywion ieir wedi eu rhewi ers diwrnod fel bwyd i adar ysglyfaethus ac ymlusgiaid
- atchwanegiadau iechyd i anifeiliaid anwes
- meinwe moch ar gyfer ymchwil a dibenion diagnostig.

| **Awdurdodiadau a thrwyddedau a gyhoeddwyd ar gyfer mewnforio ABPs na fwriadwyd ar gyfer eu bwyta gan bobl (Ebrill 2012 – Mawrth 2014)** | | | |
|---|---|---|---|
| Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
| 1,303 | 0 | 1 | 114 |

# DIOGELU: MEWNFORION PERSONOL[50]

## Rheolau mewnforio ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid o wledydd o'r tu allan i'r UE

5.34 Mae Rheoliad Comisiwn 206/2009[51] yn amlinellu'r rheolau mewnforio ar gyfer llwythi o gynnyrch anifeiliaid o wledydd o'r tu allan i'r UE. Mae'r rheoliad yn berthnasol i

50 gov.uk/personal-food-plant-and-animal-product-imports
51 eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:32009R0206

becynnau personol heb fod yn rhai masnachol sydd yn rhan o nwyddau teithio'r teithiwr, neu a yrrir fel llwythi bach i bobl breifat, neu a archebir o bell a 'u danfon i'r cwsmer. Yn Lloegr caiff y rhain eu gorfodi'n genedlaethol gan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (TARP)[52]. Mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu rheoliadau eu hunain sydd yn debyg iawn i'r rhain.

5.35 Mae Llu'r Ffiniau yn darparu mesurau rheoli gwrth-smyglo sy'n seiliedig ar risg i atal mewnforio anghyfreithlon o gynnyrch anifeiliaid ar safleoedd mynediad i'r DU o wledydd nad ydynt yn perthyn i'r UE. Mae hyn yn cynnwys mewnforion sy'n tramgwyddo'r nifer a gonsesiynir ar gyfer nwyddau a gludir ym magiau teithwyr er defnydd personol a phecynnau a anfonir drwy'r post i unigolion preifat, yn ogystal â chargo. Mae gweithgarwch gwrth-smyglo a thactegau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod Llu'r Ffiniau yn parhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r achosion newydd mwyaf difrifol a bod y lefel o adnoddau a ddefnyddir yn cyfateb yn briodol i'r asesiadau risg mwyaf cyfredol ac yn unol â blaenoriaethau gweithredol sefydliadol. DARD sy'n gyfrifol am fesurau rheoli yng Ngogledd Iwerddon.

5.36 Cyflogir staff Llu'r Ffiniau fel staff gwrth-smyglo amlddefnydd, gyda chyfrifoldeb am ymdrin ag ystod o risgiau wrth y ffin, yn cynnwys delio â mewnforion anghyfreithlon o gynnyrch anifeiliaid.

5.37 Defnyddir staff Llu'r Ffiniau yn symudol ac yn hyblyg i ymdrin â phob safle mynediad. Mewn prif borthladdoedd a meysydd awyr cânt eu cefnogi gan y defnydd o dechnoleg pelydr-x a chŵn synhwyro sydd wedi eu hyfforddi i ddarganfod unrhyw gynnyrch anifeiliaid. Defnyddir cŵn synhwyro'n hyblyg mewn Sianelau Tollau ac ardaloedd o ad-hawlio bagiau yn unol â'r asesiadau risg mwyaf cyfredol. Mae cŵn synhwyro'n gweithio mewn siediau cargo hefyd yn ogystal â neuaddau ceir a lonydd lorïau. Mae cŵn yn neilltuol o lwyddiannus yn adnabod cynnyrch anifeiliaid a guddiwyd mewn bagiau ac wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddelio â nifer fawr o deithwyr a'u bagiau. Gall y nifer o gŵn sydd ar gael i'w defnyddio amrywio yn ddibynnol ar yr angen i gael cŵn newydd yn sgil ymddeol cŵn neu salwch a'r nifer o gŵn a'u meistri sy'n hyfforddi ar unrhyw adeg.

5.38 Er ei bod hi'n anghyfreithlon i deithwyr fewnforio cynnyrch anifeiliaid o'r rhan fwyaf o wledydd y tu allan i'r UE, mae'r llwybr hwn yn un sy'n cynnig risg wrth i deithwyr, yn fwriadol neu'n anfwriadol, dorri'r rheolau.

## YMATEB: CRYNODEB O FESURAU RHEOLI MEWNFORIO ANIFEILIAID BYW A CHYNNYRCH ANIFEILIAID

5.39 Mae'r nifer o atafaeliadau gan Lu'r Ffiniau o gynnyrch anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon wedi eu nodi yn Atodiad D. Rhwng 2011/12 a 2012/13 mewn meysydd awyr a phorthladdoedd cynyddodd y nifer o atafaeliadau o gynnyrch a fewnforiwyd yn anghyfreithlon 8%; a rhwng 2012/13 a 2013/14, 23%. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd bod yna lefel uwch o risg o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r cyfyngiadau na phan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y gwiriadau hyn yn gyntaf i Gyllid a Thollau EM ym mis Ebrill 2003 yn dilyn achosion *Clwy'r Traed a'r Genau* yn 2001.

5.40 Daw'r prif fygythiad oddi wrth gig anghyfreithlon (yn cynnwys cig gwyllt) a chynnyrch llaeth, a gyrrir hyn o bosib gan alw cynyddol o siopau bwyd ethnig sy'n cyflenwi amrywiaeth o gynnyrch arbenigol a thraddodiadol. Fel enghraifft o wiriadau Llu'r Ffiniau, ym mis Mai 2014, archwiliodd swyddogion flwch yn nociau Tilbury a oedd wedi ei anfon

52 legislation.gov.uk/uksi/2011/1197/contents/made

yn ddiweddar o Nigeria. Canfuwyd tua 34kg o grwyn anifeiliaid a 26kg o gynnyrch cig coch.

5.41 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd y rhan fwyaf o'r mewnforion anghyfreithlon a ganfuwyd gan Lu'r Ffiniau yn isel ac fel arfer yn rhoddion gan deithwyr yn ymweld â theulu (neu'n dychwelyd ar ôl ymweld â theulu dramor) neu atafaeliadau gan dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r DU am y tro cyntaf gyda chynnyrch bwyd ar gyfer digwyddiad arbennig, neu'n syml yn fwyd i'w hatgoffa am eu mamwlad. Nwyddau a gludwyd yn anfwriadol oedd y rhan helaeth gan deithwyr nad oedd yn ymwybodol o reolau a gwaharddiadau cyfredol mewn grym ar gyfer mewnforio cynnyrch anifeiliaid, er gwaethaf ymgyrchoedd hysbysebu'r llywodraeth.

5.42 Roedd y nifer mwyaf o atafaeliadau gan deithwyr yn dychwelyd o Dde a Dwyrain Asia, y Dwyrain Canol a Phell a Dwyrain Ewrop. Mae digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon (yn cynnwys dathliadau a thymhorau myfyrwyr) yn adegau pryd y disgwylir i'r lefel o atafaeliadau gynyddu efallai. Amrywiodd y rhain mewn maint a math o gynnyrch, o gig amrwd heb ei becynnu a chaws ffres i ddiodydd llaeth a chiwbiau stoc. Parhaodd y rhan helaeth o'r atafaeliadau i fod yn llai na 20kg gan ddilyn y patrwm arferol o grwpiau teuluol bach, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r DU.

# Pennod 6 – SICRWYDD: Rheolaeth ôl-ffiniol y DU

## MESURAU RHEOLI MEWNDIROL MONITRO A GWYLIADWRAETH

### FSA – Gorfodi a Chudd-wybodaeth

6.1 Mae'r lefelau, ffocws ac amledd y mesurau rheoli mewnforio mewndirol yr FSA[53] yn seiliedig ar risg ac yn cael eu bwydo gan ffactorau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mesurau diogelu'r UE
- Hysbysiadau System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)
- cudd-wybodaeth leol neu flaenoriaethau.

Gall hyn gynnwys canlyniadau samplo iechyd porthladd hanesyddol o'r rhaglen Samplo Genedlaethol a Chydgordiol o Fwyd a Bwyd Anifeiliaid yn seiliedig ar risg.

6.2 Cangen Ddigwyddiadau'r FSA yw pwynt cyswllt y DU ar gyfer hysbysiadau RASFF[54] – offeryn allweddol i sicrhau llif o wybodaeth ar draws ffiniau ac ymateb yn gyflym pan ganfyddir risgiau i iechyd cyhoeddus yn y gadwyn fwyd. Defnyddir system RASFF yr UE gan FSA i hysbysu ac annog gweithredu gan y Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw Aelod-Wladwriaeth arall.

6.3 Mae Rhybuddion Bwyd yn rhoi gwybodaeth i'r FSA er mwyn iddynt fedru cysylltu ag Awdurdodau Lleol a defnyddwyr ynglŷn â phroblemau yn gysylltiedig â bwyd anifeiliaid a bwyd ac, mewn rhai achosion, darparu manylion am y gweithredu penodol i'w ymgymeryd. Rhoddir y gwahanol gategoriau o rybuddion a gwybodaeth a gyhoeddir fel a ganlyn:

- **Rhybuddion Bwyd er Gweithredu** – a gyhoeddir pan fydd digwyddiad angen gwaith gorfodi gan Awdurdodau Lleol
- **Hysbysiadau Gwybodaeth am Dynnu Cynnyrch yn Ôl a Hysbysiadau Gwybodaeth Adalw Cynnyrch** – tynnu sylw Awdurdodau Lleol at ddigwyddiad
- **Rhybuddion Alergedd** – a gyhoeddir pan fydd yn ofynnol tynnu bwydydd yn ôl neu eu hadalw a bod risg i ddefnyddwyr, oherwydd bod y label ar goll neu yn anghywir neu bod risg o adwaith alergaidd difrifol.

6.4 Rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2014, cyhoeddodd y DU 57 o hysbysiadau 'rhybuddion' neu 'wybodaeth' drwy system RASFF yr UE. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae cynnyrch bwyd o wledydd o'r tu allan i'r UE yn tramgwyddo gofynion diogelwch cyhoeddus ac iechyd anifeiliaid a chawsant eu gwrthod. Mae gan yr UE weithdrefn weithredu safonol mewn grym i rybuddio gwledydd o'r tu allan i'r UE am broblemau yn ymwneud â bwyd. Fel mater o drefn, mae RASFF yn rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladd ac Awdurdodau Lleol mewn porthladdoedd a meysydd awyr er mwyn eu cynorthwyo i dargedu eu gwiriadau ar becynnau o fwydydd a fewnforir sydd ar fin cyrraedd.

53 yn dilyn mesurau rheoli ffiniau
54 ec.europa.eu/food/safety/rasff/index_en.htm

### Goblygiadau ar Awdurdodau Lleol

6.5 Dylai pob mewnforiwr gael eu hadnabod a'u cofrestru fel Gweithredwyr Busnes Bwyd/ Bwyd Anifeiliaid. Dylent gael eu cynnwys ar y rhaglen ymyriadau bwyd/bwyd anifeiliaid ar gyfer yr awdurdod lleol. Dylai sefydliadau sydd yn gyrchfannau cyntaf ar ôl mewnforio gael eu hadnabod a'u cofnodi. Gall y rhain gynnwys sefydliadau a ddefnyddir ar gyfer storio, prosesu, a/neu drin, prynu neu werthu cynnyrch anifeiliaid.

6.6 Dylai gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwaith rheoli mewnforion gael eu datblygu yn unol â'r Fframwaith Cytundeb ar Orfodi Awdurdod Lleol, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (a Chanllaw Ymarfer) a dogfennau canllaw Defra cysylltiedig. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried bwyd a fewnforiwyd a gynigir ar werth gan fusnesau bwyd fel elfen arferol o archwiliadau lendid a safonau bwyd. Dylent hefyd archwilio a chymryd camau priodol mewn perthynas â mewnforion anghyfreithlon (a honnir), mewnforion a allai beri risg i iechyd cyhoeddus neu i anifeiliaid a mewnforion sy'n methu â bodloni gofynion diogelwch bwyd.

6.7 Mae yna drefniadau cudd-wybodaeth a rhannu mewn grym, i Lu'r Ffiniau fedru trosglwyddo manylion atafaeliadau ymlaen i'r FSA am nwyddau sydd ar fin cyrraedd sefydliadau masnachol, a gall yr FSA ddadansoddi'r wybodaeth. Trosglwyddir y gudd-wybodaeth hon i'r awdurdod lleol perthnasol yn ôl yr angen. Trosglwyddir canlyniadau archwiliadau'r awdurdod lleol yn ôl i Lu'r Ffiniau a'r FSA i fwydo'r gwaith o dargedu pellach i'r dyfodol ac i Defra am ddibenion ystadegol.

### AHVLA – Gorfodi

6.8 Am resymau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, mae gwahaniaeth amlwg yn y modd y delir a symudiadau'r UE (a adwaenir fel arfer yn fasnach UE fewnol) a mewnforion o drydydd gwledydd.

6.9 Mae yna ystod eang o ofynion iechyd anifail ac iechyd cyhoeddus cytbwys y mae'n ofynnol i bob Aelod-Wladwriaeth eu parchu. Ar gyfer anifeiliaid byw, fel arfer mae gofyniad y dylid sicrhau bod tystysgrif iechyd a ddilyswyd gan Filfeddyg Swyddogol o'r wlad wreiddiol, yn atodol i bob llwyth.

6.10 Golyga symudiadau masnachol rhydd y gall llwythi o Aelod-Wladwriaethau eraill deithio'n syth i'w cyrchfannau heb wiriadau milfeddygol. Yn y rhan fwyaf o achosion (ar wahan i ardystiadau iechyd) rhoddir tystysgrif iechyd ar System Cofnodi Symudiadau Anifeiliaid Rhwng Gwledydd yr UE (TRACES) 24 awr cyn allforio.

6.11 Rhan o waith AHVLA yw gwirio cyfran o'r ddogfennaeth ar-lein ynghyd â'r anifeiliaid os yw hynny'n briodol, yn y gyrchfan. Golyga hyn gynnal gwaith gwyliadwriaeth a samplo ar anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid fel rhan o fonitro afiechydon rhyngwladol er mwyn atal y risg o afiechydon yn cael eu mewnforio i'r DU a'u lledaenu drwy'r wlad.

# Pennod 7 – Lleihau'r risg

## CYDWEITHIO – CYDGORDIO A CHYDWEITHREDU

7.1 Mae Defra yn asesu ac yn rheoli risgiau a ddaw yn sgil mewnforio anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid drwy gydweithio â Llywodraethau Datganoledig, adrannau Llywodraethol eraill, asiantaethau, diwydiant a'r cyhoedd er mwyn lleihau'r risg o afiechydon yn dod dros y ffin.

7.2 Bu cydweithio agos iawn hefyd rhwng Adrannau canolig o'r Llywodraeth a'r Awdurdodau Iechyd Porthladd (PHAs) a'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r gwaith rheoli. Hwylusir hyn drwy'r cyrff gorfodi cynrychiadol.

7.3 Mae'r FSA wedi gweithio'n agos iawn ag Awdurdodau Lleol, Defra, Llu'r Ffiniau a chydweithwyr o'r HMRC i gynnal gwaith dadansoddi, amlygu risgiau a thueddiadau ar gynnyrch anifeiliaid a fewnforir yn anghyfreithlon. Galluogodd hyn well trefniadau o gydweithio ar y ffiniau, yn enwedig wrth ddatblygu unrhyw gudd-wybodaeth leol a allai helpu'r broses o dargedu ar gyfer mesurau rheoli Llu'r Ffiniau ac ar gyfer gwiriadau gan PHAs a BIPs. Ar lefel genedlaethol, bydd Llu'r Ffiniau yn ystyried yn ofalus hefyd unrhyw geisiadau am waith pellach gan Defra neu asiantaethau partneriaethol fel rhan o waith arferol a phrosesau cydgordio.

7.4 Cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd rhanddeiliaid yn unol â threfniadau amledd neilltuol neu *ar hap* fel a ganlyn:

- '*Cadw Mewn Cysylltiad* – cyfarfodydd bob pythefnos a gynhelir rhwng awdurdodau cymwys a'r asiantaeth ddarparu sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth weithredu o'r mesurau rheoli gwiriadau milfeddygol, i drafod materion yn ymwneud â rheoli mewnforion a datrys problemau.
- Cyfarfodydd bob dwy flynedd gyda'r Gymdeithas Awdurdodau Porthladdoedd – ar faterion gweithredol.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Grŵp Cydweithredu'r Prif Borthladdoedd – i ystyried materion penodol o fesurau rheoli mewnforion gan gyflawni dull cyson o orfodi rhyngddynt.

## Sefydliad

7.5 Yn ystod 2013 gweithiodd Defra gyda'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera), Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), ac AHVLA i asesu cyfleoedd posibl i'r dyfodol i weithio'n agosach ac i gynyddu cydweithredu a phartneriaethau ledled y gymuned wyddonol, rhannu'r arfer orau, cynyddu gwaith cydgysylltu mewn ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau, a gwella effeithlonrwydd. O ganlyniad, mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar y cyd wedi ei lansio ers 1 Hydref 2014 gyda'r nod o rymuso'r llywodraeth yn well o ran atal lledaeniad afiechydon anifeiliaid a phlanhigion. Ceir rhagor o wybodaeth yn: gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency.

## Deddfwriaeth

7.6 Yn dilyn cyhoeddi llwyth Smarter Rules for Smarter Food yn sgil cynigion ym mis Mai 2013, bu'r Tîm Mewnforion a Masnach yr UE yn cydweithio'n agos â Defra a chydweithwyr yn FSA gan arwain ar y gyfraith iechyd anifeiliaid newydd a'r rheoliad

mesurau rheoli swyddogol. Nod hyn oedd sicrhau y gwireddwyd a lleisiwyd diddordebau'r DU yn ystod cyfarfodydd Gweithgor y Cyngor. Yn neilltuol, byddai'r materion allweddol o godi ffioedd a'r defnydd o filfeddygon swyddogol ar gyfer mesurau rheoli yn cael goblygiadau ar y system o reoli mewnforion. Mae'r cynnig yn cael ei ystyried gan y Llywyddiaeth nesaf, sef Lwcsembwrg sy'n gobeithio datrys y materion hyn. Ni fydd y testun terfynol yn cael ei gyflwyno ger bron y Cyngor tan fis Medi 2015 o leiaf.

## Gweithdrefnau

7.7 Yn ystod 2014, bu i Defra a Llu'r Ffiniau gydweithio i ddatblygu "Strategaeth Orfodi" ddiwygiedig. Mae'n diffinio'r amcanion a rennir i leihau'r risg a amlygir gan gynnyrch anifeiliaid a fewnforir yn anghyfreithlon i'r lefel isaf bosib. Cwblhawyd y Strategaeth Orfodi ym mis Hydref 2014 (y tu hwnt i gyfnod yr adroddiad hwn). Amcan y strategaeth yw gwella'r gallu'n barhaus i gynnal dadansoddiad ac adrodd effeithiol. Mae hyn yn sicrhau gwell dull o adrodd cudd-wybodaeth a gwybodaeth reoli. Y nod fydd adolygu'r ddogfen hon yn barhaus er mwyn medru ymateb i newidiadau mewn risg neu unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Cefnogir y Strategaeth Orfodi gan Gytundeb Darparu ac mae gwaith ar y gweill ar gyfer y ddau.

7.8 Bu i Defra ddiweddaru'r Llawlyfr BIP[55] i ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE ac i ymgorffori cyfarwyddiadau o'r nodiadau OVS a gyhoeddwyd yn y flwyddyn flaenorol. gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/209894/pb13707-bip-manual-130701.pdf and defra.gov.uk/animal-trade/imports-non-eu/enforcement-guidance/. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Milfeddygon Swyddogol sy'n gyfrifol am gwblhau'r archwiliadau wrth y ffin yr holl wybodaeth angenrheidiol a'r canllawiau i'w cynorthwyo i wneud y gwaith hwn.

## Rhaglenni hyfforddiant

7.9 **Cyrsiau BIPs** – Bu i 107 o Lawfeddygon Milfeddygol Swyddogol y DU ac Archwilwyr Pysgod Swyddogol sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau mewnforio mewn BIPs fynychu pedwar gweithdy BIP[56] a drefnwyd gan AHVLA. Amlygwyd rhai anghenion hyfforddiant yn ystod archwiliadau'r BIPs e.e. deddfwriaeth newydd a diwygiedig, safleoedd rheoli lle cafwyd anawsterau oherwydd y defnydd anghyson o reolau gwirio milfeddygol. Anfonwyd holiaduron cyn hyfforddi cyn y diwrnod hyfforddi a buont yn ddefnyddiol iawn o ran gwella lefelau gwybodaeth y mynychwyr ac yna cynlluniwyd digwyddiadau hyfforddi i'r dyfodol i ymdrin ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. Anogwyd mynychwyr i fynychu unwaith bob dwy flynedd a bwydo gwybodaeth yn ôl i'w cydweithwyr.

7.10 **Mae'r FSA** – yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar fwyd a fewnforiwyd ar gyfer Awdurdodau Iechyd Porthladd a mewndirol. Yn ystod y cyfnod adrodd cydlynodd a darparodd yr FSA:

- 46 o gyrsiau i 648 o swyddogion (607 o swyddogion gwahanol ac unigryw). Bu i'r cyrsiau hyn gwmpasu gorfodi yn achos rheoli bwyd a fewnforiwyd, samplo am halogyddion mewn bwydydd felly, hyfforddiant wedi ei dargedu ar gyfer porthladdoedd llai a hyfforddiant hefyd ar sgiliau archwilio a gorfodi.
- 6 gweithdy yn cwmpasu dwy thema: twyll bwyd a fewnforiwyd a rheoli bwyd a fewnforiwyd mewn meysydd awyr. Fel rhan o'r gweithdai hyn, trafodwyd y defnydd o TRACES. O ganlyniad i drafodaethau gweithdy a chydweithio ehangach, bellach

[55] Mae'r Llawlyfr BIP yn cynnig canllaw ar weithredu'r ddeddfwriaeth ar wirio cynnyrch anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd. Mae'n cynnwys deddfwriaeth yr UE a rheolau cenedlaethol sy'n berthnasol i BIPs ac yn amlinellu'r rhaniad mewn cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr awdurdodau gorfodi sy'n cynnal y gwiriadau milfeddygol

[56] 19 Mehefin 2012, 14 Tachwedd 2012, 18 Mehefin 2013 a 4 Tachwedd 2013

mae holl Safleoedd Dod i Mewn i'r DU yn defnyddio TRACES i gofnodi llwythi o fwyd risg isel. Galluogodd hyn i FSA gael mynediad at ddata amser real a chael gwared â baich gweinyddol sylweddol oddi ar ysgwyddau awdurdodau iechyd porthladdoedd wrth gydymffurfio â'r gofynion i gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r FSA ar becynnau o'r fath. Y DU yw un o ddwy Aelod-Wladwriaeth yn unig sy'n defnyddio TRACES i gofnodi ei fewnforion o fwyd risg uchel.

7.11 **Bwyd Diogelach drwy Hyfforddiant Gwell (BTSF) y Comisiwn Ewropeaidd** – bu i 24 o gynrychiolwyr o'r DU fynychu cyrsiau hyfforddiant a drefnwyd drwy'r rhaglen BTSF[57]. Nod y gweithdai hyn yw gwella'r ddealltwriaeth o ofynion deddfwriaethol a lledaenu'r arferion rheoli gorau ymysg staff rheoli ffiniau'r Aelod-Wladwriaethau. Cafodd deunydd dysgu BTSF a BIPs eu cylchu ymysg staff sydd ynghlwm â mesurau rheoli swyddogol drwy gyrsiau mewnol.

## Ymgyrchoedd diogelu, ansawdd a gwybodaeth

7.12 Mae Llu'r Ffiniau yn arwain y cyfrifoldeb am gyhoeddusrwydd mewn porthladdoedd a meysydd awyr. Mae Llu'r Ffiniau wedi gweithio'n agos â Defra i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus am reolau cyfredol mewnforio cynnyrch anifeiliaid cyfredol drwy strategaeth gyfathrebu a marchnata gydlynol:

- gwnaed taflen sy'n crynhoi'r rheolau ar gyfer mewnforio personol o gynnyrch anifeiliaid "*Dod â chynnyrch bwyd i'r DU*" ar gael i deithwyr i borthladdoedd a meysydd awyr ac ar wefan gov.uk[58]
- roedd posteri'n parhau ar gael i deithwyr ac mae sgriniau teledu LCD yn parhau i arddangos negeseuon i deithwyr mewn amryw o borthladdoedd a meysydd awyr.

7.13 Yn ystod y cyfnod adrodd cyhoeddodd yr FSA:

- gyfanswm o 73 o hysbysiadau ffurfiol i Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladd yn y DU i roi cyfarwyddyd ar faterion gorfodi yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus ac anifeiliaid. Mae'r gofrestr ganolog o ohebiaeth yn ymwneud â gorfodi ar gael yn: food.gov.uk/enforcement/enforcework/centralref/enf-england
- mae hafan benodol ar fwyd a fewnforir yn cael ei chynnal food.gov.uk/enforcement/enforcework/enforce_authorities. Dyma ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth ar fesurau rheoli bwyd a fewnforir sy'n cael ei diweddaru'n barhaus
- ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddwyd Pecyn Adnoddau[59] ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol ar safleoedd mynediad. Mae'r pecyn hwn yn rhoi trosolwg o reolaeth swyddogol ar safleoedd mynediad, yn amlinellu'r rôl sydd gan awdurdodau mewndirol wrth fonitro bwyd a fewnforir, yn cynnwys canllaw ymarferol ac yn llywio ymddygiadau gorfodi.

## Rhaglen archwilio BIPs

7.14 Yn y DU, mae'r prif ddull o wirio effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnforio swyddogol yn seiliedig ar weithredu ac asesu system archwilio BIP effeithiol drwy AHVLA ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth â'r gofynion gweithdrefnol a chyfleusterau angenrheidiol.

[57] Mae rhaglen BTSF yn fenter y Comisiwn Ewropeaidd sy'n trefnu hyfforddiant ym meysydd bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid yn Ewrop, yn ogystal ag iechyd planhigion ac anifeiliaid a rheoliadau lles ec.europa.eu/food/training_strategy/index_en.htm ac ec.europa.eu/chafea/food/index.html
[58] gov.uk/government/publications/bringing-food-products-into-the-uk
[59] food.gov.uk/enforcement/enforcework/enforce_authorities/resourcepack

7.15 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd yr archwiliadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- asesiad llawn o'r gweithdrefnau
- gan ddilyn hynny gyda staff BIP yn darparu'r mesurau rheoli mewnforio
- asesiad o addasrwydd y cyfleusterau ar gyfer cynnal y mesurau rheoli angenrheidiol
- asesiad o effeithiolrwydd y gwiriadau dilysu gan yr awdurdod gorfodi lleol. Mae'r gwiriadau dilysu'n hanfodol fel cam cyntaf wrth sicrhau bod y cyfleusterau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a bod gwiriadau milfeddygol yn cael eu cwblhau yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y Llawlyfr BIP.

7.16 Aseswyd pob adroddiad archwilio bob chwe mis gan AHVLA. Casglwyd crynodeb o ganlyniad yr archwiliadau a'r gweithredu a fu yn sgil canlyniadau'r archwiliadau a'u cylchu i Defra a Llywodraeth yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddi hefyd ac argymhellion ar gyfer ystyriaethau polisi/gweithredu. Adolygwyd yr adroddiadau hyn a'u harwyddo gan uwch Reolwr Portffolio milfeddygaeth ar gyfer y tîm Mewnforion a Masnach UE.

7.17 Cwblhawyd archwiliadau yn seiliedig ar risg ac ymweliadau cydweithredol (ymweliadau anffurfiol i BIPs rhwng archwiliadau ffurfiol) mewn BIPs cynnyrch gan AHVLA fel a ganlyn:

- **BIPs cynnyrch** – bu i bob BIP â phrysurdeb uchel neu ganolig gael un archwiliad ar weithdrefnau ac un arall ar gyfleusterau fesul blwyddyn. Cafodd pob BIP â phrysrudeb isel un ymweliad archwilio ac archwiliwyd y cyfleusterau a'r gweithdrefnau yn ystod yr ymweliad hwn.
- **BIPs anifeiliaid byw** – roedd trefniant i'w harchwilio unwaith bob dwy flynedd gan uwch filfeddyg o AHVLA.

7.18 Cafodd BIPs anifeiliaid byw eu harchwilio drwy ddefnyddio'r un rhestrau gwirio a ddefnyddir ar gyfer y gwiriadau dilysu lleol. Mewn archwiliadau o BIPs cynnyrch anifeiliaid, defnyddiodd yr AHVLA wahanol restrau gwirio a thempledi adrodd na'r rhai a ddefnyddiwyd gan y BIPs mewn gwiriadau dilysu. Adroddodd yr archwiliad ar sail "cydymffurfio", "mân ddiffygion" neu "diffygion sylweddol". Bu i'r archwiliad asesu cywirdeb yr oruchwyliaeth drwy gymharu canlyniadau'r archwiliad gyda'r adroddiadau goruchwyliaeth perthnasol. Un o brif ddeilliannau'r system archwilio oedd adnabod anghenion hyfforddi'n seiliedig ar asesiad cyffredinol o ganlyniadau archwilio ar y lefel genedlaethol yn ogystal â'r lefel BIP unigol.

## Bioddiogelwch (Lloegr)

7.19 Mae diddordebau bioddiogelwch Defra'n cwmpasu iechyd anifeiliaid, planhigion ac anifeiliaid dŵr ynghyd â rhywogaethau estron ymledol, yn cynnwys cynnyrch anifeiliaid. Mae'r Adran wedi asesu'n dull o ymdrin â'r risgiau a'r materion yn ymwneud â bioddiogelwch ar draws y parhad o weithgareddau ar fioddiogelwch – cyn-ffiniol, ar y ffin ac yn y DU.

7.20 Gan gychwyn ym mis Mehefin 2013, cynhaliwyd cyfarfodydd Bioddiogelwch Misol yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau cynnydd amserol wrth ymateb i risgiau bioddiogelwch posib a chynnig trosolwg a chyfarwyddyd strategol. Mae dull newydd o asesu risgiau wedi sicrhau y gellir asesu risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effaith.

7.21 Fel rhan o waith ehangach ar fioddiogelwch, mae Defra'n dymuno gwella'r ymwybyddiaeth o reolau bioamrywiaeth y DU a'r gydymffurfiaeth ohono, mewn perthynas â mewnforio planhigion ac anifeiliaid, gyda chefnogaeth orfodi effeithiol er mwyn ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth. Yn ystod 2014/15, llwyddwyd i ddwysáu'r berthynas strategol gyda Llu'r Ffiniau ymhellach i wella'r cydweithio. Gwnaed hyn drwy gytuno ar waith cyfredol a chydgordio gweithgarwch, ac yn unol â blaenoriaethau gweithredol a rhannu gwybodaeth, targedu gwaith gorfodi'n well ar y ffiniau.

## Adolygiad Strategol o Gyfathrebu

7.22 Ym mis Mai 2013, comisiynwyd prosiect i adolygu gwaith cyfathrebu Defra gyda chyrff mewnforio a gorfodi ynghylch mewnforio anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid. Cwblhawyd yr adolygiad yn 2014 yn dilyn cyfnod o ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol a diben y cyfnod cyntaf oedd atgyfnerthu a chanoli cyfarwyddyd ynglŷn â'r we wrth iddo gael ei symud i Gov.uk. Mae rhagor o argymhellion yn cael eu mabwysiadu er mwyn gwella, egluro a gwella cyfathrebu yn fewnol a rhwng Defra, AHVLA a'r FSA ac er budd rhanddeiliaid allanol. Bu i'r prosiect hefyd herio rhanddeiliaid allanol i greu datrysiadau cyfathrebu cydweithredol lle nad y llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau mwyach i wneud hynny.

## Datblgiadau newydd

7.23 Cynnyrch cyfansawdd yw bwydydd sydd ar gyfer pobl i'w fwyta sy'n cynnwys cynnyrch anifeiliaid a broseswyd a chynnyrch planhigion. Adolygwyd y rheolau ar gyfer cynnyrch cyfansawdd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2012. Mae tystysgrif newydd yn bodoli sy'n darparu ar gyfer amodau anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus wrth fewnforio rhai cynnyrch cyfansawdd o drydydd gwledydd sy'n cynnwys cig a broseswyd, cynnyrch llaeth, wyau a chynnyrch pysgod. Mae cynnyrch cyfansawdd sy'n cynnwys:

- cig a broseswyd
- hanner neu ragor ohono'n ddeunydd anifail a broseswyd
- llai na hanner o'i ddeunydd yn laeth a broseswyd lle nad yw'r cynnyrch terfynol yn bodloni rhai gofynion neilltuol e.e. nid yw'n gynnyrch sefydlog ar silff mewn tymheredd amgylchol

yn destun gwiriadau milfeddygol yn y BIP. Rhaid i'r cynnyrch anifail a broseswyd ddod o wlad a gymeradwyir ac os yw'n briodol ddod o sefydliad a gymeradwyir hefyd.

# Atodiad A – Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

| Deddfwriaeth UE | Pwnc |
|---|---|
| Cyfarwyddeb Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach rhyng-Gymunedol mewn anifeiliaid buchol a moch(1) | Anifeiliaid buchol a moch |
| Cyfarwyddeb Cyngor 88/407/EEC yn gosod y gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fasnach rhyng-Gymunedol a mewnforio semen anifeiliaid domestig o rywogaethau buchol(2) | Semen buchol |
| Cyfarwyddeb Cyngor 89/556/EEC ar amodau iechyd anifeiliaid yn llywodraethu masnach rhyng-Gymunedol o drydydd gwledydd o embryonau anifeiliaid domestig a rhywogaethau buchol (3) | Embryonau buchol ffres |
| Cyfarwyddeb Cyngor 90/429/EEC yn gosod y gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fasnach rhyng-Gymunedol a mewnforio semen anifeiliaid domestig o rywogaethau moch(4) | Semen moch |
| Cyfarwyddeb Cyngor 91/68/EEC ar amodau iechyd anifeiliaid yn llywodraethu masnach rhyng-Gymunedol mewn anifeiliaid defeidiog a gafraidd (5) | Defaid a geifr |
| Cyfarwyddeb Cyngor92/65/EEC yn gosod y gofynion iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu masnach a mewnforio i mewn i'r Gymuned o anifeiliaid, semen, wyau ac embryonau nad ydynt yn destun gofynion iechyd anifeiliaid a osodwyd mewn rheolau penodol y Gymuned y cyfeirir atynt yn Atodiad A (I) (1) i Gyfarwyddeb 90/425/EEC (6) | Anifeiliaid eraill a chynnyrch a nodwyd yn y Gyfarwyddeb |
| Cyfarwyddeb Cyngor92/118/EEC yn gosod y gofynion iechyd anifeiliaid a chyhoeddus sy'n llywodraethu masnach a mewnforio i mewn i'r Gymuned o gynnyrch nad ydynt yn destun y gofynion dan sylw mewn rheolau penodol y Gymuned y cyfeirir atynt yn Atodiad A (I) i Gyfarwyddeb 89/662/EEC ac, mewn perthynas â phathogenau, i Gyfarwyddeb 90/425/EEC (7) | Cynnyrch amrywiol |
| Cyfarwyddeb Cyngor 96/23/EC ar fesurau i fonitro deunyddiau penodol a gweddillion felly mewn anifeiliaid byw a chynnyrch anifeiliaid a diddymu Cyfarwyddebau 85/358/EEC a 86/469/EEC a Phenderfyniadau89/187/EECa 91/664/EEC (8) | Gweddillion |
| Rheoliad (EC) No 178/2002 yn gosod yr egwyddorion cyffredinol a'r gofynion ynghylch cyfraith fwyd, sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd a gosod y gweithdrefnau ym meysydd diogelwch bwyd (9) | Cynnyrch anifeiliaid i'w fwyta gan bobl |
| Cyfarwyddeb Cyngor 2002/99/EC yn gosod y rheolau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl (10) | Cynnyrch anifeiliaid i'w fwyta gan bobl |
| Cyfarwyddeb Cyngor2004/68/EC yn gosod y rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnforio a chludo drwy'r Gymuned rhai anifeiliaid carnol byw (11) | Anifeiliaid carnol byw penodol yn cynnwys rhai buchol, defeidiog, gafraidd a mochaidd |
| Rheoliad Comisiwn (EC) No 136/2004 yn gosod y gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar safleoedd archwilio ffiniau'r Gymuned ar gynnyrch a fewnforiwyd o drydydd gwledydd (12) | Gwair a Gwellt |
| Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 o'r Senedd Ewropeaidd ac o'r Cyngor ar lendid bwydydd (13) | Cynnyrch anifeiliaid i'w fwyta gan bobl |

| Deddfwriaeth UE | Pwnc |
|---|---|
| Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 o'r Senedd Ewropeaidd ac o'r Cyngor ar osod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid (14) | Cynnyrch anifeiliaid i'w fwyta gan bobl |
| Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 o'r Senedd Ewropeaidd ac o'r Cyngor ar osod rheolau hylendid penodol ar gyfer trefnu mesurau rheoli ar gynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl (15) | Cynnyrch anifeiliaid i'w fwyta gan bobl |
| Rheoliadau (EC) Rhif 882/2004 o'r Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar fesurau rheoli swyddogol a berfformwyd i sicrhau dilysu'r gydymffurfiaeth â bwydydd anifeiliaid a chyfraith bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (16) | Mesurau rheoli swyddogol ar fwydydd anifeiliaid, bwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid |
| Rheoliad Cyngor (EC) Rhif. 183/2005yn gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd (17) | Bwydydd anifeiliaid |
| Penderfyniad Comisiwn 2007/275 yn ymwneud â rhestr o anifeiliaid a chynnyrch i fod yn destun mesurau rheoli ar safleoedd archwilo ffiniau dan Gyfarwyddebau Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC (18) | Cynnyrch cyfansawdd |
| Cyfarwyddeb Cyngor 2006/88/EC ar ofynion iechyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a chynnyrch dyframaethu ar hynny, ac ar atal a rheoli rhai afiechydon penodol mewn anifeiliaid dyfrol (19) | Anifeiliaid dyfrol |
| Cyfarwyddeb Cyngor 2009/156/ECar amodau iechyd anifeiliaid yn llywodraethu symudiad a mewnforio ceffylau o drydydd gwledydd (20) | Ceffylau |
| Cyfarwyddeb Cyngor 2009/158/EC ar amodau iechyd anifeiliaid yn llywodraethu masnach rhyng-Gymunedol a mewnforion dofednod a wyau deor o drydydd gwledydd (21) | Dofednod a wyau deor |
| Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 o'r Senedd Ewropeaidd ac o'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2009 ar osod ar y farchnad a'r defnydd o fwydydd anifeiliaid (22) | Bwydydd anifeiliaid |
| Rheoliad Cyngor (EC) No 1069/2009 yn gosod y rheolau iechyd mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynnyrch deilliedig nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl (23) | Sgil-gynhyrchion anifeiliaid |

# Atodiad B – Safleoedd Archwilio Ffiniau'r DU

## BIPs y DU ar gyfer cynnyrch anifeiliaid

| BIP | Cymeradwywyd ar gyfer cynnal gwiriadau yn |
|---|---|
| **Maes awyr Belfast** | Cynnyrch Anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl a fewnforir dan dymheredd amgylchynol ac sydd wedi ei oeri. |
| **Porthladd Belfast** | Cynnyrch anifeiliaid wedi rhewi ar gyfer eu bwyta gan bobl.<br>Cynnyrch Anifeiliaid wedi rhewi nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Porthladd Bristol** | Cynnyrch Anifeiliaid ar gyfer ei fwyta wedi ei rewi ac ar dymheredd amgylchynol yn unig.<br>Cynnyrch Anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl a fewnforir dan dymheredd amgylchynol. |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu a'i rewi ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl wedi'i fewnforio ar dymheredd amgylchynol Cynnyrch Anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl wedi'i fewnforio ar dymheredd amgylchynol. |
| **Falmouth** | Holl gynnyrch ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Felixstowe** | Holl gynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch Anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl wedi ei rewi a dan dymheredd amgylchynol yn unig. |
| **Maes awyr Gatwick** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Maes awyr Glasgow** | Gohiriwyd. |
| **Grimsby-Immingham** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i rewi ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Heathrow** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Hull** | Holl gynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl ar dymheredd amgylchynol. |
| **Invergordon** | Proteinau anifeiliaid wedi'u prosesu yn unig. |
| **Lerpwl** | Holl gynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Holl gynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Maes awyr Manceinion** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Peterhead** | Cynnyrch pysgod wedi'i rewi a'i becynnu yn unig. |
| **Peterhead** | Holl gynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Holl gynnyrch anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Maes awyr Stansted** | Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl a fewnforir ar dymheredd amgylchynol.<br>Cynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl ar dymheredd amgylchynol. |
| **Thamesport** | Holl gynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Holl gynnyrch anifeiliaid wedi'i becynnu nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl. |
| **Tilbury** | Holl gynnyrch anifeiliaid ar gyfer ei fwyta gan bobl.<br>Cynnyrch anifeiliaid nad yw ar gyfer ei fwyta gan bobl wedi ei rewi a dan dymheredd amgylchynol yn unig. |

## BIPs y DU ar gyfer anifeiliaid byw

| Safle Archwilio Ffiniau | | Anifeiliaid Byw | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw** | **Math** | **Carnolion[60]** | **Ceffylau Cofrestredig[61]** | **Anifeiliaid Eraill [62]** | |
| **Gatwick** | Maes awyr | | | Oes | |
| **Heathrow** | Maes awyr | Oes | Oes | Oes | |
| **Manceinion** | Maes awyr | | | Oes | Pysgod, Ymlusgiaid, Anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac amffibiaid yn unig |
| **Stansted** | Maes awyr | Oes | Oes | | |
| **Prestwick** | Maes awyr | Oes | Oes | | |
| **Caeredin** | Maes awyr | | | Oes | Cŵn, cathod, ffuredau ceinachffurfiaid amffibiaid, ymlusgiaid, anifeiliaid addurnol trofannol a chnofilod |

[60] Carnolion yn cynnwys gwartheg, moch, defaid a geifr, alpacaod, lamaod ac anifeiliaid carnau hollt eraill gwyllt neu ddomestig a solipediau.
[61] Yn unol â diffiniad Cyfarwyddyd 90/426/EEC ar amodau iechyd yn llywodraethu symud ceffylau a'u mewnforio o drydydd gwledydd.
[62] Nid yn Safle Archwilio Ffiniau ar gyfer unrhyw rywogaeth o anifeiliaid a nodir yng Ngorchymyn y Gynddaredd 1974 (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid eraill), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygiad) y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid eraill) 1994.

# Atodiad C – Monitro Afiechydon Rhyngwladol – Asesu Achosion Cychwynnol

**Adran yr Amgylchedd,**
**Tîm Gwyddoniaeth Filfeddygol Bwyd**
**a Materion Gwledig**
**Monitro Afiechydon Rhynglwadol**

**Cyfeiriad**: VITT/1200 FMD yn Rwsia
**Dyddiad**: 21 Mehefin 2013


## Clwy'r Traed a'r Genau yn Rwsia

### Asesiad Achos Cychwynnol

**Nodyn:** Mae Monitro Afiechydon Rhynglwadol Defra (IDM) yn monitro achosion cychwynnol o afiechydon sydd ag effaith sylweddol, o amgylch y byd. Mae Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) ymysg yr afiechydon hynny sydd o bryder sylweddol.

### 1. Adroddiad Afiechydon

Adroddodd Rwsia dri chyfnod o achosion o FMD mewn gwartheg yn rhanbarthau Karachay-Cherkessia a Krasnodar (OIE, 2013). Roedd yr achos cyntaf ar 3 Mehefin ychydig gilomedrau o'r ffin â Georgia tra roedd y ddau arall a adroddwyd ar 18 Mehefin rhyw 60km o ffin Georgia mewn cylchfa ragod, lle cynhelir brechiadau yn erbyn FMD. Yn ôl yr adroddiad afiechydon, gallai tarddiad yr afiechyd ar gyfer yr achos gwreiddiol fod wedi ei achosi gan gyswllt ag anifeiliaid carnau hollt heintus. Mae mesurau rheoli a pharthau cyfyngu mewn grym.



## 2. Asesu'r Sefyllfa

Ychydig o wybodaeth swyddogol a ryddhawyd ynglŷn ag achosion cychwynnol o wledydd cyfagos sef Armenia, Azerbaijan a Georgia. Fodd bynnag, adroddodd Labordy Cyfeiriol y Byd ar gyfer FMD (WRLFMD), Sefydliad Pirbright a'r FAO/EUFMD (corff rhanbarthol a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd i gefnogi aelod-wledydd yn Ewrop i reoli FMD) yn ddiweddar bod y gwledydd hyn yn rhannu'r un gwasgariad daearyddol o hil o'r feirws FMD, sef FMD A, O ac Asia-1, â gwledydd eraill yn y Dwyrain Canol a Gorllewin Ewrasia (EUFMD, 2013). Mae'r WRLFMD yn adrodd bod hil diweddar a ddaeth yn ei dro o Dwrci, Iran ac Irac wedi cadarnhau presenoldeb FMD, gydag A Asia Iran-05 fel y feirws FMD A mwyaf cyffredin yn y rhanbarth (WRLFMD, 2013).

Ymhellach yn Nwyrain Rwsia, Kazakhstan a Tsieina, adroddwyd amryw o achosion o FMD A dros y misoedd diwethaf, ond mae'r hil ar gyfer yr achosion hyn wedi ei amlygu fel FMD A Asia Sea-97 (WRLFMD, 2013). Bydd seroteipio o'r achosion diweddar yng Ngorllewin Rwsia yn cadarnhau a yw'r rhain yn rhai sy'n bodoli yn sgil eu cyflwyno o'r Dwyrain Canol, neu'n hytrach yn "naid" o ardal ddaearyddol neilltuol. Gall hyn fod â goblygiadau o ran rheoli os yw brechu'n cael ei ddefnyddio'n eang.

Er nad yw Rwsia wedi ei chymeradwyo ar gyfer allforio egin byw neu gynnyrch anifeiliaid o rywogaethau sy'n agored i FMD, ni ellir diystyrru bod cynnyrch anghyfreithlon yn cael eu cyflwyno, ond mae'n anodd amcangyfrif hyd a lled hynny. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod gan y rhanbarth hon yn Rwsia lefel isel o fioddiogelwch mewn da byw a chysylltiadau rheolaidd â bywyd gwyllt, gyda bodolaeth a lledaeniad Clwy Moch Affricanaidd yn dystiolaeth o hynny, ac felly rhaid gweithredu mesurau rheoli yn brydlon i osgoi rhagor o ledaenu.

## 3. Casgliadau

Ystyrir bod y risg o gyflwyno FMD drwy fasnachu cyfreithlon o Rwsia yn isel (h.y. "mor brin nad oes angen rhoi ystyriaeth i'r risg").

Fodd bynnag, nid yw'r achosion diweddaraf hyn yn newid ein lefel risg o gyflwyno FMD o unrhyw ardal heintus i mewn i'r UE, sydd bob amser yn isel (h.y. "prin ond gall ddigwydd") oherwydd y posibilrwydd o fasnachu anghyfreithlon o gynnyrch heintus, symud bywyd gwyllt a chyfarpar neu offer a halogwyd.

Parhawn i fonitro'r sefyllfa.

## 4. Awduron

Dr Helen Roberts
Dr Jef Hammond

## 5. Cyfeiriadau


EUFMD (2013) Foot and Mouth Disease situation, Ebrill 2013. http://www.fao.org/fileadmin/user_upload/eufmd/docs/FMD_monthly_reports/April2013Final.pdf Accessed 21/06/2013.

OIE (2013) Foot and Mouth Disease, Rwsia. Adroddiad Dilynol Rhif. 1 OIE Cyfeirnod 13640; adroddiad dyddiad 18/06/2013.
http://www.oie.int/wahis_2/temp/reports/en_fup_0000013640_20130618_163746.pdf
Defnyddiwyd 21/06/2013


WRLFMD (2013) Adroddiad Chwarterol Ionawr – Mawrth 2013. http://www.wrlfmd.org/ref_labs/ref_lab_reports/OIE-FAO%20FMD%20Ref%20Lab%20Report%20Jan-Mar%202013.pdf Defnyddiwyd 21/06/2013.

# Atodiad D – Ystadegau ar fewnforio cynnyrch anghyfreithlon

Er dibenion yr ystadegau hyn, mae "anghyfreithlon" yn cyfeirio at gynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fel eitemau gan unigolion yn tramgwyddo'r consesiynau personol a ganiateir neu becynnau masnachol a geisiodd osgoi gweithdrefnau mynediad cywir drwy beidio â chael eu datgan ar Safle Archwilio ar Ffin. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys eitemau a ildiwyd yn wirfoddol gan deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr.

Dengys ffigurau'r nifer a phwysau'r atafaeliadau gan Lu'r Ffiniau, DARD a'r rhai a wnaed gan Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladd ar safleoedd mynediad perthnasol.

**Graffiau'n dangos y cyfanswm o atafaeliadau yn cynnwys pwysau (2009-2014)**





**2010-11 – O'r nifer hyn cafwyd 4% mewn nwyddau a chargo. Mae'r atafaeliadau hyn yn cynrychioli tua 55% o holl bwysau'r atafaeliadau, a thua 95% o holl swmp yr atafaeliadau**

**2011-12 – Atafaeliadau cargo'n cynrychioli 5.5% o'r cyfanswm a atafaelwyd**

**2012-13 – Atafaeliadau cargo'n cynrychioli 5.27% o'r cyfanswm a atafaelwyd**


**2013-14 – Atafaeliadau cargo'n cynrychioli 4.85% o'r cyfanswm a atafaelwyd**




## Nifer o'r atafaeliadau yn cynnwys pwysau fesul rhanbarth yn ystod 2012-2014

| ID Rhanbarth/Enw | Tabl 1: Nifer o atafaeliadau (yn cynnwys pwysau) fesul rhanbarth yn ystod 2012-2013 | | Tabl 2: Niferoedd yr atafaeliadau (yn cynnwys pwysau) fesul rhanbarth yn ystod 2013-2014 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) |
| **1** Dwyrain Ewrop | 740 | 2,790 | 596 | 2,174 |
| **2** Dwyrain Affrica | 154 | 1,083 | 149 | 825 |
| **3** Gogledd Affrica | 169 | 530 | 191 | 776 |
| **4** Canolbarth Affrica | 39 | 278 | 63 | 526 |
| **5** Deheubarth Affrica | 171 | 3,631 | 162 | 447 |
| **6** Gorllewin Affrica | 612 | 6,730 | 556 | 4,330 |
| **7** Gogledd America | 254 | 10,146 | 268 | 3,001 |
| **8** Caribî | 169 | 2,897 | 150 | 742 |
| **9** Canolbarth a De America | 132 | 3,722 | 126 | 542 |
| **10** Dwyrain Asia | 1,996 | 9,685 | 2,172 | 14,347 |
| **11** De Asia | 1,474 | 9,670 | 1,692 | 11,435 |
| **12** De Ddwyrain Asia | 94 | 535 | 133 | 612 |
| **13** Dwyrain Agos a Chanol | 1,302 | 7,809 | 1,516 | 16,349 |
| **14** Ynysoedd y De | 28 | 564 | 47 | 2,176 |
| **15** Ewropeaidd | 13 | 62 | 12 | 44 |
| **16** Anhysybys | 4,060 | 19,466 | 6,209 | 33,201 |
| **17** UE | 17 | 58 | 29 | 396 |
| **Cyfansymiau** | **11,424** | **79,656** | **14,071** | **91,923** |


## Siart Gylch 1 ar gyfer Tabl 1: Niferoedd y cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn ystod 2012-2013





## Siart Gylch 2 ar gyfer Tabl 1: Niferoedd y cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn ystod 2012-2013




## Siart Gylch 3 ar gyfer Tabl 2: Niferoedd y cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn ystod 2013-2014





## Siart Gylch 4 ar gyfer Tabl 2: Pwysau cynnyrch anifeiliaid a atafaelwyd fesul rhanbarth yn ystod 2013-2014



## Graffiau'n dangos y nifer o atafaeliadau a phwysau yn ôl cynnyrch (2009 – 2014)



# Atodiad E – Geirfa o dalfyriadau ac acronymau cyffredin

| | |
|---|---|
| **ABPs** | Sgil-gynhyrchion anifeiliaid |
| **AHVLA** | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol – a elwir yn awr yn Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) |
| **ALL** | Awdurdodau Lleol |
| **ASF** | Clwy Moch Affricanaidd |
| **BIP(s)** | Safle Archwilio Ffiniau |
| **CE** | Comisiwn Ewropeaidd |
| **CVED** | Dogfen Mynediad Filfeddygol Gyffredin |
| **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)** | Thollau a Chyllid Ei Mawrhydi |
| **DARD NI** | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARD) |
| **Defra** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **FMD** | Clwy'r Traed a'r Genau |
| **FSA** | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| **FVO** | Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth |
| **GB** | Prydain Fawr |
| **HPAI** | Ffliw Adar Pathogenig Iawn |
| **ID checks** | Gwiriadau ID |
| **LLC** | Llywodraeth Cymru |
| **NI** | Gogledd Iwerddon |
| **OIE** | Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd |
| **OVS(s)** | Llawfeddyg(on) Milfeddygol Swyddogol |
| **PAFF committee** | Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid – ScoFCAH yn flaenorol (Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid) |
| **PHA** | Awdurdodau Iechyd Porthladd |
| **RASFF** | Hysbysiadau System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid |
| **TARP** | Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol |
| **TRACES** | System Rheoli Masnach ac Arbenigol UE |
| **LLC** | Llywodraeth Cymru |
| **UK** | Y Deyrnas Unedig |

Tudalen y pecyn 108

ISBN 978-1-4741-2419-5

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

16 Gorffennaf 2015

Annwyl Gadeirydd

**Bil Drafft Cymru**

Fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Bil drafft Cymru yn yr hydref gyda chyfnod o ymgynghori i ddilyn, cyn i'r Bil ei hun gael ei gyflwyno rywbryd yn ystod gwanwyn 2016.

Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym wedi cytuno mai'r Pwyllgor hwnnw sy'n darparu'r cyfrwng mwyaf priodol i'r Cynulliad ystyried y Bil drafft. Yr wyf yn hyderus bod gan y Pwyllgor yr aelodaeth, yr arbenigedd a'r gallu i lunio ymateb cynhwysfawr ac awdurdodol i mi ac i'r Cynulliad ei ystyried a, gobeithio, ei gymeradwyo.

Er bod y Bil yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, caiff ei waith craffu ei gryfhau'n sylweddol os bydd pwyllgorau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith. Yn benodol, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Cynulliad cyfan allu manteisio ar arbenigedd polisi pwyllgorau eraill wrth archwilio effaith disodli ein model presennol o bwerau a roddir gyda model newydd o bwerau neilltuedig.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ystyried gyda'ch Pwyllgor sut i wneud lle yn yr hyn yr wyf yn sicr fydd yn rhaglen brysur iawn yn yr hydref, i ymgymryd ag archwiliad difrifol o'r Bil mewn perthynas â chylch gwaith eich Pwyllgor. Bydd eich tîm clercio yn gallu rhoi cyngor ar sut i amseru eich ymateb i ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a sicrhau y gall y Cynulliad ddylanwadu ar y ddadl yn San Steffan.

Rosemary Butler

**Rosemary Butler AC, Llywydd**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232
Ebost/Email: private.office@assembly.wales

Croesewir goheblaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Eitem 4.5

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/CS/2120/15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Gorffennaf 2015

Annwyl Alun,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Mehefin sy'n cyfleu canlyniadau'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni.

Rwyf yn croesawu ymateb y Pwyllgor, ac mi fyddaf yn gadael ichi wybod am unrhyw gynlluniau i adfywio'r Strategaeth Tlodi Tanwydd, canlyniad yr ymgynghoriad ar ein Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni newydd ac ar ddatblygiad cynllun *Cartrefi Clud Llywodraeth Cymru* a *Chymru Effeithlon*.

Mi fyddaf hefyd yn ystyried awgrym y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru drefnu fforwm blynyddol ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Mewn ymateb i ganlyniadau'r Pwyllgor ar ddata a dyled tanwydd, rwyf yn falch o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

**Data**

Mae'r prosiect i nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyflwr tai, ac i ddatblygu achos busnes ar y buddsoddiad mewn tlodi tanwydd a data cyflwr tai yn y tymor canolig a hir yn parhau. Rwyf yn disgwyl achos cyfiawnhau busnes gael ei gwblhau, ac i opsiwn newydd gael ei ddewis i ddarparu data newydd yn yr Hydref. Yn ogystal â'r gwaith sydd ar droed i sicrhau data tymor hir, rwyf wedi cytuno'n ddiweddar i ariannu prosiect ymchwil i fodelu'r ffynonellau sydd ar gael eisoes er mwyn diweddaru amcangyfrifon lefelau tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni tai yn y tymor byr. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd a rwyf yn hapus i diweddaru'r Pwyllgor fel mae'r gwaith yn mynd ymlaen.

**Dyled Tanwydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Oherwydd pwysigrwydd sicrhau ein bod yn sbarduno arian Rhwymedigaeth Cwmnïoedd Ynni (RCY) i mewn i Gymru, roedd y cyfarfodydd a gefais yn ddiweddar â'r cwmnïoedd ynni mawr yn canolbwyntio'n bennaf ar RCY. Mi fyddaf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cwmnïoedd ynni i'w holi beth y gallant ei wneud yn ychwanegol i gefnogi cwsmeriaid sydd mewn dyled, pa gamau y maent yn ei gymryd i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn cael eu symud i fesuryddion talu ymlaen llaw, oni bai mai dyna'r opsiwn mwyaf addas i'r cwsmer, a pha gynlluniau sydd ganddynt ar waith ar gyfer ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar yng Nghymru.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Eitem 4.6

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/FM/2666/15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

16 Gorffennaf 2015

Annwyl Alun,

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf ynglyn â'r broses o benodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwyf wedi trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a gan mai Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio'r swydd hon, rwy'n fodlon bod hyn yn sicrhau digon o dryloywder a phwerau craffu.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YPrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# NRW Marine Programme

# Summary Work Plan 2015 -2016

## 1. Introduction

NRW's Marine Programme Board oversees a programme of marine work that is intended to deliver against four key work areas expressed as the programme objectives. The overarching aims and four objectives of the programme are set out below:

**Aim 1:** To support the implementation of the Ecosystem Approach, to achieve the sustainable management of marine natural resources in Wales.

**Aim 2:** To align NRW marine work to deliver against Welsh Government priorities, including their Marine transition Programme.

**Objective 1:** To contribute to the development of the first Wales National Marine Plan (WNMP), providing timely evidence and advice to enable this process to deliver sustainable management of the marine environment, and advising on the relationship with new mechanisms within the Environment Bill and other relevant policy and legislation.

**Objective 2:** To provide consistent and comprehensive evidence and advice to support the implementation of Marine Strategy Framework Directive, seeking full integration with marine planning in order to delivery tangible ecosystem improvements and benefits.

**Objective 3:** Contribute to the delivery of an ecologically coherent and well-managed network of Marine Protected Areas by 2016, and that the social and economic benefits of these sites are quantified and enhanced

**Objective 4:** To support the sustainable management of marine activities, providing input to sectoral planning processes and developing the appropriate evidence base to support decision-making.

## 2. Marine programme work plan for 2015-16

The annual activities for 2015-16 are detailed below. This includes work with specific deliverables this year. These are organised under each of the four objectives above together with a fifth category for cross-cutting evidence work. There is also a further category for 'day job' work that lists ongoing day-to-day work that relates to the objectives of the marine programme and which also absorbs a considerable amount of staff time and resource.

As with the public sector in general, NRW is under considerable resource pressure, and as a result it is not possible to deliver all areas of marine work that should form part of the annual work plan. Key areas of work that is on hold, or significantly slowed or reduced in scope, due to limited resources are also identified.

***Objective 1: Marine planning***

1. Input to first draft of Wales National Marine Plan (WNMP)
2. Input to formal consultation of the draft WNMP
3. Deliver SEA of WNMP
4. Advise on development of Marine Planning Portal

***Objective 2: Marine Strategy Framework Directive***

1. Input to finalisation of the programme of measures
2. Input to continued development of targets and indicators
3. Input to MSFD reporting cycle
4. Deliver MSFD Monitoring Programme and PoM requirements

***Objective 3: Marine Protected Areas***

1. Progress possible new marine SPAs and SACs for harbour porpoise
2. Input to UK MPA stocktake and subsequent analysis of gaps in the network
3. Prepare MPA management improvement plan
4. Support implementation of MPA management improvement plan
5. Provide Wales input to OSPAR MPA management reporting
6. Progress themed review of marine actions in the Actions Database

***Objective 4: Managing marine activities***

1. Support sustainable delivery of strategic marine industry planning and assessment exercises including: tidal stream, tidal range, marine aggregates, oil and gas, marine energy SEA.
2. Strategic internal support for marine incident management
3. Procedural and best practice guidance (internal and external)
4. Tidal Range Programme delivery
5. Wave & Tidal Stream programme delivery
6. Fisheries HRA advice
7. Cockle management
8. Scallop management

***Marine evidence (cross-cutting more than one programme objective)***

1. Advise towards WG Marine Evidence Strategy (TBC)
2. Development of cross-cutting marine evidence products
3. Deliver a prioritised survey, monitoring and reporting programme for MPAs in Wales

***Day job areas***

1. Casework – NSIPs
2. Casework – planning
3. Casework -advice on permits and licenses, including marine licences, EPS licenses etc.
4. Casework – fisheries
5. Regulation: Licensing and permits
6. Internal advice and liaison
7. Internal governance
8. Guidance
9. External advice and liaison
10. Designations: evidence, management, processing etc.
11. Developing the evidence base
12. Monitoring and survey
13. Reporting
14. Staff training and development

***On hold, or significantly slowed/reduced in scope, due to resource constrains:***
*Marine planning*

- Develop guidance to support WNMP policies/content (on hold)

*MSFD*

- Review risks related to NRW delivery of PoM, Monitoring Programme, assessment and reporting (on hold)

*MPAs*

- Progress Regulation 35 Review (slowed)
- Review site management plans (that are due for review) (slowed)
- Develop conservation objectives and site feature for Skomer MCZ (slowed)
- Progress MPA benefits project (on hold)

*Management of marine activities*

- Procedural and best practice guidance (internal and external) (some on hold)

*Marine evidence*

- Identify priority marine biodiversity-related evidence needs/gaps and seek/secure opportunities to address (slowed)
- Development of cross-cutting marine evidence products (some on hold)

## 3. Monitoring and review

NRW's Marine Programme Board undertakes quarterly monitoring of progress with delivery of the annual work plan. The work plan is then reviewed and refreshed in full each financial year.

**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref - SF/RE/1855/15

Alun Ffred Jones AM
Chair of the Environment and Sustainability Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

10 July 2015

Dear Alun Ffred,

Thank you for your letter of 12 June about the request for a derogation to the Agreement on International Humane Trapping Standards (AIHTS) to allow the continued use of traps for stoats made by the British Association for Shooting and Conservation (BASC).

The principal aim of the AIHTS is to ensure a sufficient level of welfare for trapped animals by allowing only the use of traps that meet certain humane trapping standards. While the original driver for AIHTS was the welfare of animals trapped for fur, it goes wider than that and includes trapping for wildlife management (including pest control), obtaining fur, skin or meat and capture for conservation purposes. While we do not trap animals for fur in the UK we still have a clear obligation to implement AIHTS.

Spring traps have been legally regulated in Wales since 1957, with their use permitted under successive Spring Traps Approval Orders made under the Pests Act 1954. It is likely, given developments in research, together with improvements in trapping design and technology that certain of the current domestically-approved spring traps will not comply with the humane standards set out in the AIHTS.

If traps currently used for stoats prove to be non-compliant with AIHTS, but cannot be replaced with traps that are, then use of non-compliant traps may be permitted on an interim basis while replacement traps are identified. However, there are traps that are compliant with the AIHTS currently available, or which will be available by the implementation deadline. Therefore the only justification for seeking this derogation for the lethal trapping of stoats would be the cost of replacing non-compliant traps.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cost or financial impacts are not permitted reasons for derogation under AIHTS. Accordingly, a derogation is not available in these circumstances in respect of the lethal control of stoats in Wales. Therefore Welsh Government has not made any representations to the UK Government (or others) for such a derogation.

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**Rebecca Evans AC**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

11 Awst 2015

Annwyl Alun

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf ynghylch ymholiad byr Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ansawdd dŵr. Rydym wedi darparu ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynwyd gennych yn eich llythyr isod.

**Cwestiwn 1: Ydych chi yn fodlon ystyried newid y Strategaeth Dŵr, i gynnwys cyfeiriad at fywyd gwyllt?**

Mae Strategaeth Dŵr Cymru yn pennu y cyfeiriad strategol ar gyfer y polisi dŵr yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt. Yr hyn sy'n ganolog i'n dull o weithio yw ein hegwyddorion ar gyfer datblygu cynaliadwy. Ein nod yw sicrhau bod ecosystemau yn dod yn fwy cadarn a'r manteision a ddaw yn eu sgîl, ac wrth wneud hynny, bodloni anghenion y cenedlaethau presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwy. Mae'r Strategaeth yn pennu sut y byddwn yn rheoli ein hadnoddau dŵr yn effeithiol ac yn cymeryd y camau priodol mewn ffordd ac ar raddfa fydd yn cefnogi'r nod hwn. Dim ond un o nifer o agweddau yw bywyd gwyllt a fydd yn elwa o'r dull hwn o weithio, ac er nad oes cyfeiriad penodol ato, mae'n dilyn y bydd y gwelliannau i ansawdd y dŵr yr anelir ato o fudd i'r bywyd gwyllt. Nid ydym felly yn bwriadu newid y Strategaeth i gyfeirio'n benodol ar y term bywyd gwyllt.

**Cwestiwn 2: Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro eich safbwynt ynghylch defnyddio Rheolau Rhwymo Cyffredinol i wella ansawdd y dŵr.**

Gallai'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol fod yn ddefnyddiol i reoli gweithgareddau ar raddfa fechan sydd â risg isel a allai gael effaith cymharol fach ar yr amgylchedd pan fyddant yn digwydd ar eu pennau eu hunain, ond gyda'i gilydd, a allai gael effaith fwy. Mae'r math hwn o weithgarwch yn aml yn anodd i'w reoleiddio trwy y drefn ganiatáu a chydsynio bresennol. Trwy ddarparu safonau sylfaenol ar gyfer gweithgarwch cyffredinol risg isel, gall Rheolau Rhwymo Cyffredinol weithio i godi ansawdd yr amgylchedd yn gyffredinol.

Mae Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn pennu yr amodau angenrheidiol ar gyfer cynnal gweithgarwch benodol, sydd â risg isel. Mae'r amodau yn berthnasol i unrhyw un sy'n cynnal y gweithgarwch, ac os yw'r amodau wedi'u bodloni, nid oes yn rhaid i'r cwmni hysbysu y rheoleiddiwr na sicrhau caniatád ychwanegol ganddo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Roedd y Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd yn holi safbwyntiau cychwynnol ar y Rheolau Rhwymo Cyffredinol, gan gynnwys y pwerau presennol a phwerau newydd i weithredu'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol ac i gael cefnogaeth i edrych ar y cynnig hwn ymhellach. Roedd y cwmpas arfaethedig yn gyffredinol iawn a byddai yn ymestyn y tu hwnt i'r defnydd presennol o Reolau Rhwymo Cyffredinol o ran gweithgarwch dŵr a'r gweithgareddau hynny sy'n cael eu cynnwys yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

Mae Bil yr Amgylchedd yn cynnwys pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal cynlluniau arbrofol, y gellid eu defnyddio, i nodi cyfleoedd posib i gyflwyno y Rheolau Rhwymo Cyffredinol. Bydd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi gweithgareddau penodol sy'n addas i'w rheoleiddio drwy'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol ac i gasglu gwybodaeth am y camau priodol i'w cymeryd i gydymffurifo â'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol.

Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i edrych pa mor effeithiol yw y drefn ddeddfwriaethol bresennol o ran llygredd gwasgaredig. Dyma faes a allai elwa o bosib o gyflwyno y Rheolau Rhwymo Cyffredinol ond ni wneir unrhyw benderfyniad os nad oes tystiolaeth gadarn i awgrymu y byddai newidiadau o'r fath o fudd.

**Cwestiwn 3: Allech chi roi eich barn ar y trefniadau cynllunio, caniatáu, rheoleiddio a gorfodi o ran ffermydd dofednod sy'n llai na 40 mil o adar?**

Nid oes unrhyw bolisi cynllunio cenedlaethol penodol ar ffermydd dofednod gan bod Polisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cynllunio a datblygu adeiladau a seilwaith amaethyddol, ac ar gyfer rheoli a lleihau llygredd a dŵr gwastraff. Caiff Polisi Cynllunio Cymru ei ategu gan Nodiadau Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig (2010) a Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (2014). Yn rhan helaeth yr achosion, awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio a gorfodi unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu bod angen mwy o dystiolaeth i ddeall natur a graddfa'r llygredd o ffermydd dofednod?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan nad oes ganddynt unrhyw dystiolaeth bod ffermydd dofednod yn achosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i fethu, ond mae'r cynnydd yn y safleoedd bychain yn cynyddu'r perygl o lygredd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn edrych ar y risg posib hwn, gan gydweithio â rheolwyr tir, awdurdodau lleol a grwpiau bywyd gwyllt o fewn y dalgylchoedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio ag unrhyw broblemau o ran y drefn orfodi reolaidd, ond mae'n canolbwyntio ar rwystro llygredd drwy godi ymwybyddiaeth o'r problemau posib.

**Cwestiwn 5: Heb fynd i drafod y pwyntiau ehangach a godwyd mewn cysylltiad â Glastir, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi sut yr ydych yn credu y bydd y Cynllun Datblygu Gwledig a Glastir yn gwella ansawdd y dŵr.**

Caiff Glastir gefnogaeth drwy Gronfa Amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig ac mae'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i gynllunio i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i reoli tir yn gynaliadwy, er mwyn gwella ansawdd dŵr, trwy leihau dŵr ffo ar yr wyneb. Mae hyn yn rhwystro deunydd o amaethyddiaeth a choedwigaeth rhag mynd i afonydd a llynnoedd, ac mae'n helpu i leihau y perygl o lifogydd, trwy arafu llif y dŵr dros y tir a sicrhau bod mwy o ddŵr yn cael ei sugno i'r pridd. Llwyddir i wneud hyn trwy gyflwyno dulliau rheoli a phrosiectau cyfalaf buddiol y bydd yn rhaid i ffermwyr a choedwigwyr eu dilyn yn ystod eu contractau Glastir. Cafodd yr ymrwymiadau hyn eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd gan eu bod yn gofyn mwy na'r arferion ffermio arferol, y Cod Arferion Amaethyddol Da a Thrawsgydymffurfio.

O fewn Glastir Sylfaenol, mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, rheoli a chreu gwrychoedd, creu lleiniau cysylltu, ymylon glaswellt anwastad a rheoli glaswelltir a thir âr gyda mewnbwn sero.

O fewn Glastir Uwch, mae rhai ffermydd sydd o fewn Ardal Blaenoriaeth Ansawdd Dŵr yn cael ymweliad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i greu Cynllun Rheoli Maetholion a Chynllun Rheoli Dŵr. Caiff y Cynllun Rheoli Maetholion ei baratoi gan arbenigwyr cymwys Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau. Mae'r arbenigwyr hyn yn asesu:

- Canlyniadau samplo pridd.
- Faint o slyri a gwrtaith sydd ar gael a'r arferion ffermio presennol i gynnig cynllun addas sy'n gwneud y defnydd gorau o'r maetholion sydd ar gael.
- Pennu faint o wrtaith sydd orau er mwyn cynnal cynhyrchiant, tra'n lleihau'r risg o golli maetholion mewn dyfroedd ac afonydd.

Mae'r Cynllun Rheoli Dŵr yn nodi'r prif feysydd o risg ar y fferm ac yn argymell camau i liniaru'r sefyllfa. Mae'r Rheolwyr Contract yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau wrth ystyried lleoliad opsiynau rheoli priodol a gwaith cyfalaf i fynd i'r afael ag ansawdd y dŵr yn y ffordd orau.

Gwelodd gwerthusiad annibynnol diweddar o nifer dethol o gontractau Glastir Uwch fod mwyafrif y contractau enghreifftiol mewn ardaloedd ble y mae rheoli ansawdd y dŵr yn flaenoriaeth uchel yn cael eu cynnal gan Gynlluniau Rheoli Dŵr da. Hefyd, gwelwyd bod y Cynlluniau Rheoli Dŵr gan Lywodraeth Cymru yn glir iawn, yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd eu deall.

Yn ystod y Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol, roedd prosiect grant cyfalaf, Grantiau Effeithiolrwydd Glastir, yn gweithredu ar gyfer ffermwyr Glastir Sylfaenol. Roedd hyn yn galluogi buddsoddi wedi'i dargedu mewn ardaloedd ansawdd dŵr i wella seilwaith y ffermydd, megis gwahanu dŵr glaw a mwy o allu i storio slyri. Roedd hefyd yn annog dulliau ffermio gwell, megis lledaenu slyri mewn mannau penodol ac offer awyru pridd. Bydd y buddsoddi hwn sydd wedi'i dargedu yn parhau yn ystod cyfnod Rhaglen Datblygu Gwledig newydd Llywodraeth Cymru, trwy gynllun cronfa gyfalaf newydd, Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy.

O dan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Cynllun Grantiau Bychain ar gyfer ffermwyr sy'n dymuno cynnig manteision amgylcheddol, gan gynnwys o ran ansawdd dŵr, ar ddim ond rhannau penodol o'u ffermydd. Bydd y Cynllun Grantiau Bychain yn cyd-fynd â'r grantiau gwaith cyfalaf sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn Glastir Uwch.

Mae Coetiroedd Glastir yn sicrhau bod unrhyw gymorth ar gyfer coetiroedd yn cael ei ddarparu dim ond ble y gall fodloni Safonau Coedwigaeth y DU (UKFS), sy'n cynnwys canllawiau gan y diwydiant i sicrhau nad effeithir yn andwyol ar ansawdd y dŵr. Mae Coetiroedd Glastir yn cynnwys tair elfen. Sef:

- Creu Coetiroedd Glastir – i greu coetiroedd newydd, allai arafu llif y dŵr trwy greu tir garw, lleihau cywasgu ac atal dŵr ffo.
- Rheoli Coetiroedd Glastir – sicrhau bod coetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â chanllawiau ansawdd dŵr yr UKFS.
- Adfer Coetiroedd Glastir – adfer coetiroedd sydd wedi'u niweidio gan glefydau, gan sicrhau bod yr ardaloedd hynny yn cael eu cynnal fel coetiroedd yn hytrach na'u defnyddio at ddibenion eraill, megis ar gyfer amaethyddiaeth neu ddatblygu, ble y gellid colli y manteision i ansawdd y dŵr, fel a ddisgrifiwyd uchod.

- Mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir wedi'i sefydlu ers 2012. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos bod ymyriadau Glastir sydd wedi'u cynllunio i gyflawni ein hymrwymiadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn cael effaith fesuradwy ar ansawdd afonydd bychain iawn yn benodol. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Rhaglen Fonitro nid yn unig yn mesur effaith y rhaglen ar afonydd bychain, ond hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr am gyflwr ehangach y systemau hyn, nad ydynt yn cael y sylw dyledus. Y dangosydd yw y cyfuniad o infertebrata micro, diatomau, addasu cynefinoedd a statws maetholion. Caiff y statws ei benderfynu hefyd trwy ddefnyddio cyfuniad o amodau biolegol a chemegol a hefyd bwysau oherwydd addasu cynefin.

**Cwestiwn 6: Allech chi bennu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymeryd i sicrhau bod rheolwyr tir yn derbyn y cyngor a'r cymorth y maent eu hangen i gyfrannu at wella ansawdd y dŵr yng Nghymru?**

Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Cymorth Arloesi a Gwasanaethau Cynghori o fewn Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yn anelu at roi cymorth a chynogr wedi'i ffocysu, wedi'i ddarparu drwy raglen ledled Cymru o weithgarwch trosglwyddo gywbodaeth, cyngor arbenigol a chymorth ar gyfer arloesi.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi dyfarnu contract ar gyfer y gwasanaeth craidd Cyswllt Ffermio gyda'r nod o gryfhau sut y caiff y cynllun ei gyflenwi a thynnu sylw at effaith hirdymor buddsoddi cyfalaf a cholofnau fesul ardal o weithgarwch ar y rhaglen, gan dargedu y sectorau ffermio, coedwigaeth a bwyd yng Nghymru. Bydd yn cyd-fynd â phecynnau a gweithgareddau cymorth busnes Llywodraeth Cymru ac yn integreiddio â hwy, gan gynnwys Busnes Cymru a Cymru Effeithlon.

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio manylion y cyflenwi cyn dechrau'r contract ym mis Hydref eleni.

**Cwestiwn 7: Allech chi roi barn ar y swyddogaethau y gallai Talu am Wasanaethau Ecosystemau ei chwarae i wella ansawdd y dŵr yng Nghymru?**

Mae datblygu y cynllun Talu am Wasanaethau Ecosystemau yng Nghymru yn elfen bwysig o'n hagenda twf gwyrdd. Mae twf gwyrdd yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel dull o sicrhau datblygiadau economaidd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae datblygu y cynllun Talu am Wasanaethau Ecosystemau yn un ffordd o helpu inni gyflawni ein huchelgeisiau o ran twf gwyrdd, er enghraifft drwy ddarparu ffynhonnell incwm newydd ar gyfer cymunedau gwledig, helpu ein hagenda trechu tlodi yn ogystal â chyflawni amcanion amgylcheddol.

Mae Talu am Wasanaethau Ecosystemau yn disgrifio amrywiol gynlluniau cymell arloesol, yn seiliedig ar y farchnad, sy'n gwobrwyo rheolwyr tir, gan gynnwys ffermwyr er enghraifft, am gynnal a gwella manteision amgylcheddol (gwasanaethau ecosystemau) megis rheoleiddio dŵr (e.e. ansawdd y dŵr, rheoleiddio llifogydd) a rheoleiddio yr hinsawdd. Mae Talu am Wasanaethau Ecosystemau yn golygu 'prynwr' parod (e.e. cwmni dŵr), neu fuddiolwr, gwasanaeth ecosystem (e.e. ansawdd dŵr) i dalu 'gwerthwr' yn wirfoddol (fel arfer rheolwr tir) sy'n fodlon mabwysiadu mesurau i sicrhau bod gwasanaethau yr ecosystem benodol yn cael eu darparu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrynwyr a gwerthwyr i nodi dulliau a seilwaith a fyddai'n galluogi prynwyr i fuddsoddi mewn adnoddau naturiol yn hyderus yn ogystal â'r dystiolaeth fod y buddsoddiad hwn yn cynnig y canlyniadau a nodwyd.

**Cwestiwn 8: Pryd ydych chi'n disgwyl i'r system Talu am Wasanaethau Ecosystemau fod yn opsiwn realistig ac ymarferol ar gyfer prynwyr a gwerthwyr systemau'r ecosystem yng Nghymru?**

Mae Talu am Wasanaethau Ecosystemau fel egwyddor wedi bodoli am sawl blwyddyn ac mae'n dilyn sawl patrwm. Er enghraifft, mae cynllun pasbort pysgota Gwy ac Wysg yn gynllun Talu am Wasanaethau Ecosystemau sydd wedi'i weithredu am 10 mlynedd. Mae'r cod carbon coetiroedd wedi bod yn gweithredu am 5 mlynedd ac mae ganddo rai safleoedd yng Nghymru. Bu hefyd nifer o gynlluniau lleol penodol, megis treialu'r chwynladdwr yn dalgylch y Teifi gan Dŵr Cymru er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gyda phlaladdwyr penodol sy'n arwain at ansawdd dŵr anaddas. Yr her yw datblygu cynllun Talu am Wasanaethau Ecosystemau fel y prif ddull o ddatlbygu'n gynaliadwy yng Nghymru.

**Cwestiwn 9: Allech chi bennu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymeryd i fynd i'r afael â'r broblem o lygru dŵr o gloddfeydd yng Nghymru ac amcangyfrif o'r costau dan sylw?**

Mae hen fwyngloddiau metel yn aml yn un o'r problemau mwyaf i'n hamgylchedd dŵr. Maent yn gyfrifol am y ffaith bod nifer sylweddol o ddyfroedd ac afonydd yn methu â bodloni amcanion yr ansawdd gofynnol ar hyn o bryd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac maent yn rhoi nifer o ddyfroedd ac afonydd eraill mewn perygl o fethu â bodloni eu hamcanion yn y dyfodol. Mae naw allan o bob deg o'r dalgylchoedd sydd wedi'u llygru fwyaf gan hen fwyngloddiau yn y DU i'w cael yng Nghymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo yn amcangyfrif y gallai rhaglen i sicrhau gwelliannau ym mhob dŵr ac afon yr effeithir arnynt gan fwyngloddiau metel olygu cyfanswm cost o £88 miliwn dros 25 mlynedd. Byddai cyfyngu'r gwaith i'r dyfroedd a'r afonydd hynny a fyddai'n werth y gost yn gostwng y cyfanswm hwnnw i £52 miliwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig rhaglen beilot a fyddai dros bum mlynedd yn:

- Cwblhau archwiliadau sylfaenol ym mhob dŵr ac afon i nodi ffynonellau.
- Priodweddu'n llawn yr 20 o ddyfroedd ac afonydd a'r safleoedd o fewn iddynt sy'n arwain at y methiant.
- Ymchwilio a gweld pa mor addas fyddai technoleg trin dŵr mwyngloddiau a'i brofi drwy'r prosiect Cyfnewid Mwyngloddiau.
- Cynnal astudiaethau ymarferoldeb i nodi ffynonellau llygredd ac opsiynau trin ar 9 safle;
- Darparu triniaeth mewn 4 safle o flaenoraeith.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo i edrych ar opsiynau cyllido ar gyfer y gwaith hwn.

**Cwestiwn 10: Allech chi roi mwy o wybodaeth inni ar amseru y buddsoddiad yn y seilwaith fydd ei angen i fodloni targedau Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr, a pha gamau rydych yn eu cymeryd i gadw'r camau a'r buddsoddiad sydd ei angen yn ystod y trydydd rownd ar raddfa fydd yn hawdd ei reoli?**

Mae'r targedau a benwyd gan Gyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr yn hynod anodd ac uchelgeisiol. Mae nifer o elfennau'n cael eu mesur fel rhan o'r broses o gydymffurfio â Chyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr. Un ffordd o fethu â chyrraedd safon ecolegol da yw nad yw un elfen yn cyrraedd y safon gofynnol. Golyga hyn y gellid gwneud nifer o welliannau i'r dyfroedd a'r afonydd i sicrhau bod cydymffurfio gwell o ran lefelau elfennau, ond gall dŵr barhau i fethu â chyrraedd statws ecolegol da os nad yw un o'r elfennau hynny yn cyrraedd

y safon gofynnol.  Canlyniad anfwriadol hyn yw na fydd rhai o fanteision y gwelliannau hynny yn cael eu gweld.

Bydd ail rownd y cynlluniau rheoli basn afon (2015-2021) sydd i'w cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015, yn bodloni yr amcanion statudol o sicrhau na fydd statws dŵr yn dirywio, yn ogystal â bodloni statws ardal a ddiogelir, tra'n rhoi amlinelliad o waith arall yr ydym yn disgwyl ei gyflawni y tu hwnt i hyn.  Bydd y mesurau a amlinellir yn y cynllun yn ymarferol o ran y gost a bod modd eu cyflawni, a byddant yn seiliedig ar gyllidebau presennol a chyllidebau yn y dyfodol.   Byddwn yn gwneud gwaith i sicrhau bod sawl dŵr ac afon yn symud i fyny i statws ecolegol da, yn ogystal â mesurau i symud cyrff dŵr gwael i fyny i statws canolig.  Mae'r mesurau hyn wedi'u sefydlu i sicrhau y bydd y gwaith sydd ei angen yn y rownd derfynol yn haws i'w wneud.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol



**Rebecca  Evans AC**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Alun Ffred Jones AM
Chair of the Environment and Sustainability Committee
National Assembly for Wales

15 September 2015

Dear Alun Ffred,

**Control of Horses (Wales) Act 2014**

Thank you for your letter of 8 July to the Minister for Natural Resources about the post-legislative scrutiny session in respect of the Control of Horses (Wales) Act 2014 (the Act). This matter falls within my area of responsibility so I have provided a response to the questions you raised.

**Scrutiny of the Bill**

As a result of the increase in fly grazing incidents across South Wales in 2012/13 and the resulting severe welfare problems, the then Minister for Natural Resources and Food set about finding a solution before the winter of 2013/14 when the welfare issues were expected to be the most severe.

Local authorities and equine welfare organisations had been lobbying the Welsh Government for action and local authorities in particular felt that legislation was needed in order to provide them with the necessary tools to address the problem more quickly and more cost effectively. Horse welfare and animal charities such as Redwings and the RSPCA also supported this approach believing that such measures were necessary to alleviate problem and create an environment in which behavioural changes amongst breeders might occur. The response and in particular the speed with which the Welsh Government reacted to something that was seen by the industry as 'at crisis point' was commended at the time by stakeholders.

I am aware that the then Minister had discussions with opposition party spokespersons, the Environment and Sustainability Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee. Detailed discussions also took place with stakeholders including the Cross Party Group on the Horse, the Cross Party Group for Gypsies and Travellers, the All Wales Equine Task Force, local authorities across Wales,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

the WLGA and representatives from various equine charities to ensure that the Act was appropriate to address the issues identified.

**Engagement and Communication plan**

The Action Plan developed to sit alongside the Control of Horses Act sets out how the Welsh Government works with stakeholders and partners to ensure that the most appropriate solutions are found for the multitude of situations that arise. This has been achieved through effective engagement between officials, local authorities and equine welfare charities which has been ongoing since the implementation of the Act.

Although a communications plan has not been published, the Welsh Government has undertaken considerable communication with organisations and members of the public to ensure that they are aware of the Act and make full use of it. This has included production of guidance which was distributed to Local Authority Animal Health Officers; equine charities; the gypsy and travelling community support officers and police forces in Wales. The guidance was also published on the Welsh Government website. Articles were published in the Welsh Government Gwlad magazine and a dedicated helpline was set up to assist members of the public that had concerns regarding horses that were potentially fly grazing.

Many of the actions within the communications plan relate to identification, education and improving compliance which are associated with planned changes to the Identification Regulations by the European Commission. Engagement and communications about the Act will continue, but it is considered more appropriate and best use of resources to publish the communication plan in tandem with the introduction of the new equine identification regulations in 2016.

**Costs to Third Parties**

The committee requested data on costs incurred by third party organisations which is not routinely held by Welsh Government. Officials requested this information from equine welfare charities, the police and fire and rescue service and their responses are provided in the table enclosed below.

| **Name of Organisation** | **Costs incurred 01/4/2014-31/03/2015** |
|---|---|
| World Horse Welfare | £89,756 |
| Blue cross | £164,813 |
| Society for the Welfare of Horses and Ponies | £91,864 |
| British Horse Society | NIL |
| RSPCA* | No costs available |
| Police forces of Wales | No costs available |
| Fire and rescue services | No costs available |
| **Total** | **£346,433** |

It is difficult to confirm that scale of these changes as many of the organisations do not differentiate between cases e.g. fly grazing and welfare rescue, many take horses from other organisations following a rescue so do not know whether it was taken into care as a result of fly grazing or some other issue. Similarly, many of the organisations are based outside Wales and when receiving horses are not always aware of the location of seizure. The British Horse Society confirmed that they had not incurred any costs in response to fly

grazing incidents and the RSPCA is unable to provide any information due to the disproportionate nature of obtaining the requested data.

The Police and Fire and Rescue Services were able to provide details of animal related incidents but were unable to provide costs for instances where they have assisted local authorities to implement the Act. The Association of Chief Police Officers Cymru commented that the impact of this piece of legislation since it was passed has been a positive one for the Police and that they will continue to work with local authorities where there is an identified need for assistance.

**Local Authority Resources**

The Act was designed to reduce the financial burden on local authorities, particularly those areas most badly affected by the problems of fly grazing, and to free up budget resources for appropriate application elsewhere. For example the reduction of the period before disposal to a minimum of 7 clear days from the previous minimum 21 clear days (as contained in both the original local Acts and the Animals Act 1971) will have helped to significantly reduce the financial burden from the stabling of seized horses.

It is recognised that some enforcement authorities are pressured to deal with fly grazing equines that are semi-feral in nature which intensifies their resource pressures due to the difficulties of accessing these locations. Equine Welfare charities, particularly the larger ones, have the necessary expertise and equipment to deal with these situations and where they can are providing assistance to local authorities to successfully to resolve local issues.

The Welsh Government has in the past provided funding to support major operations and any future funding requests from local authorities would be carefully considered on a case by case basis. Welsh Government ran a series of highly successful equine handling courses for local authority colleagues under the historic Companion Animal Welfare Enhancement Scheme to help with the practical aspects of this work.

**Central Horse Database**

The European Commission issued a 5 point action plan in 2013 in response to the revelations surrounding horse meat contamination within the human food chain. The plan included actions to tighten the requirements on equine identification and place a mandatory requirement on all Member States to record horse passports in a central national equine database.

The National Equine database was abolished by the UK Government in September 2012 without consultation with the Welsh Government. The loss of the database in the UK has resulted in difficulties for local authorities in their endeavours to check the identification and ownership of equines.

The new central national equine database is expected to contain records of all horses in the UK which have been properly identified, including whether or not the horse has been signed out of the food chain. Local authorities and the Food Standards Agency will have access to the database to help them carry out their enforcement checks effectively.

Like the previous national equine database the new database will be a repository of statutory identification information. The key differences are: it will contain records of all horses including those imported into the UK; record whether or not a horse is eligible for human consumption. Importantly it will now provide access to information to enforcement bodies and enable an increase in the exchange of information between Member States.

Officials are currently working with Defra and the other UK administrations on the implementation details and in particular the options and user requirements for a UK database. A consultation on the new regulations to include the requirements of the database is planned for later this year which will include engagement with Welsh local authorities.

**Micro-chipping of horses – derogations**

The derogations for defined populations of semi feral ponies were introduced under the Equine Identification (Wales) Regulations 2009. These regulations introduced micro-chipping and allowed any ponies born on specific derogated areas to remain there without a passport and accompanying microchip until such time they are brought into domestic use.

The derogations are limited to very specific areas and those operating derogations (namely the Hill Pony Improvement Society and the Carneddau Society) are required to forward management plans to the Welsh Government on scrutiny on an annual basis. There is a provision within the new European Regulations for Member States to operate derogations in specific circumstances which will be consulted on later this year.

The Welsh Government listened to the views and evidence provided by the third sector, enforcement authorities and stakeholders when developing the legislation, it was widely recognised that there was an urgent need for a quick, cost effective and simple solution to help deal with the problem which the Act provides. Officials continue to work collaboratively with local authorities, horse charities and members of the public to ensure that the Act is used as part of the suite of measures available to deal effective with the issues of fly grazing.

Yours,

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

National Assembly for Wales
Enterprise and Business Committee

Alun Ffred Jones
Cadeirydd
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CF99 1NA

14 Gorffennaf 2015

Annwyl Alun

**Cysylltedd grid a datblygiad ynni adnewyddadwy morol ar Ynys Môn**

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn cynnal ymchwiliad i'r economi morol yng Nghymru, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni morol adnewyddadwy, manteision economaidd posibl y sector hwnnw, a pha mor effeithiol yw'r gefnogaeth ar gyfer y sector. Mewn cyfarfod diweddar, clywsom dystiolaeth a allai fod yn berthnasol i gylch gwaith eich Pwyllgor.

Wrth ymweld ag Ynys Ynni Môn ar 9 Gorffennaf, clywsom am y cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy morol, a'r ffaith bod Ynys Môn yn gobeithio bod yn ganolfan rhagoriaeth fyd-eang yn y sector hwn. Clywsom fod nifer o gwmnïau rhyngwladol â diddordeb mewn buddsoddi a / neu adleoli i'r ardal. Mae cyfleoedd yn bodoli i gynhyrchu trydan ar Ynys Môn ac o'i chwmpas, yn ogystal â sefydlu clwstwr o gwmnïau arbenigol yn yr ardal a allai arwain at arloesedd yn y sector, gyda chyfleoedd posibl ar gyfer gweithgynhyrchu yn ogystal ag allforio offer ac adeiladu safleoedd mewn mannau eraill yn y DU a thu hwnt.

Fodd bynnag, clywsom hefyd mai sicrhau cysylltedd grid digonol oedd y pwysicaf o'r tri peth pennaf sydd eu hangen ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy morol ar Ynys Môn yn y dyfodol, ynghyd â sicrhau'r caniatâd angenrheidiol ar gyfer datblygiadau a'r cyllid (buddsoddiad a phris y trydan).



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

Uchelgais Ynys Ynni yw cynhyrchu 140MW o drydan adnewyddadwy morol, ac mae'n ystyried y bydd angen cysylltedd grid sy'n galluogi allforio 150MW. Fodd bynnag, clywsom fod cysylltiadau grid yn aml yn cael eu darparu yn adweithiol mewn ymateb i geisiadau penodol, ond bod angen dull mwy rhagweithiol oherwydd natur y diwydiant fel sector sy'n datblygu, a nifer y cwmnïau sy'n ystyried Ynys Môn fel lleoliad. Mae'r dull adweithiol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn ymddangos i fod yn rhwystr i ddatblygiad y sector.

Mae Rhodri Glyn Thomas AC hefyd wedi nodi hyn yn ei waith yn y maes hwn ar ran Pwyllgor y Rhanbarthau.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd eisoes wedi ystyried cynhyrchu ynni yn y Cynulliad hwn, ac rwy'n deall eich bod ar fin dychwelyd i'r maes hwn. O ganlyniad, rydym yn teimlo y gallai fod yn ddefnyddiol inni rannu'r dystiolaeth a glywsom yn y maes hwn wrth i chi ystyried eich gwaith yn y dyfodol.

Yn gywir,

William Graham

Cadeirydd

Eitem 4.12

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Alun Fred Jones AM
Chair
Environment and Sustainability Committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

3 September 2015

Dear Alun Fred

I enclose a copy of an independent report that has been produced over the summer by Professor Stuart Cole on Active travel in Wales entitled “Active Travel benefits, delivery, Behaviour”

The report makes a compelling case for the role of Active Travel in our jobs and growth agenda in delivering better access to low cost transport for those on low incomes to get to work, health facilities and education sites, and in delivering on improvements in the Health and well-being of the people of Wales.

At a high level, the report draws on the experience and success of other countries in increasing the active travel modal share, experience that may prove beneficial for adoption in Wales.

I would very much welcome the Committee’s consideration of the content of this report and more generally assistance in relation to this agenda. I am sure Professor Cole would be very happy to provide advice and support to any consideration by the Committee.

I am writing in similar terms to William Graham AM in his capacity as Chair of the Enterprise and Business Committee.

Edwina Hart

Encl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk



*Wedi’i argraffu ar bapur wedi’i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

Adroddiad annibynnol ar deithio egnïol – Athro Stuart Cole:
Active travel independent report – Professor Stuart Cole:

http://gov.wales/docs/det/publications/transport/150916-professor-cole-active-travel-report-en.pdf